# pethe Penllyn

CYFRES NEWYDD: 284/285/286 Pris: £1 CHWEFROR/MAWRTH/EBRILL 2021


## Croeso'n ôl ... eto!

Daeth clo a llacio, clo a llacio eto a ninnau'n gorfod ymdopi rywsut. Mae'r Rhifyn yma'n cynnwys rhifau 284, 285 a 286 ac ar werth am £1 ... tri am bris dau, fel 'tae. Golygwyr Y Bala, Maesywaen a'r Sarnau fu'n casglu eitemau ar gyfer y Rhifyn swmpus yma.


Sylwer hefyd ein bod yn mentro cyhoeddi'r rhifyn yma, a mis Mai a mis Mehefin ar wefan GOLWG360. Bydd y rhain ar gael erbyn canol pob mis. Awn ati wedyn, yn ein Cyfarfod Blynyddol fis Mehefin i benderfynu a ydym yn mynd i barhau gyda'r syniad o gyhoeddi ar-lein a hynny am danysgrifiad blwyddyn ar y tro ... rhyw £10 mae'n debyg am 10 rhifyn. Byddwn yn dal i gyhoeddi'r rhifyn papur fel arfer. [cliciwch ar bro.360.cymru/papurau-bro/]











## YN Y RHIFYN HWN


2 Cofiwch Gwm Feidiog/Clwb 200
3 Teyrnged i Morfudd Roberts
4 'Yma a thraw yn y Sarnau' [EP]
5 Llyfrau Newydd
6 Y Gornel Greadigol [GE]
7 Garddio Gwyrdd [R]/Ryseitiau Eleri/ Geraint yn gadael Y Bwthyn
8 Ble maen nhw rŵan – Dylan Baines
9 Marwolaeth dwy chwaer
10 'Canmolwn ...' DEWI GLAN PERYDDON
11 [yn parhau]
12 Gruffydd ab Owain a'i feic
13 Teyrnged i Glanli Thomas
14 Teyrnged i Bob Dolhendre
15 Clybiau Ff I Meirionnydd 2020
16 Teyrnged i Aerwyn Garth Jones
17 O LA i Lanelli/Teyrnged i Dei Peters
18 Ieu Ty'n Coed a'i gerddi/'Diogelwn'/ Clwb 200
19 Wythnos Hen Lanc/Holi Carys Williams
20 Capel Cefnddwysarn/Eilir i'r Orsedd
21 Wythnos Hen Lanc [yn parhau]
22 Ble maen nhw rŵan – Myfanwy Griffiths/ Ryseitiau Eleri/Menter Rhys Evans, Lluest
23 Ble maen nhw rŵan –Robin Rees/ Gwobr 'Arwr Tawel' [Tirion Thomas]
24 Aduniad Ysgol Sarnau / Croesair 284-6


**PETHE MAI**
ERTHYGLAU YNG NGOFAL
TÎM GOLYGYDDOL
LLANDDERFEL
i'w cyflwyno erbyn
10fed o Ebrill
Ar werth o'r 30ain o Ebrill

A ninnau mewn caethiwed a thywyllwch dyddiau byr ers misoedd, mae yna hen edrych ymlaen at y gwanwyn eleni, a mis gorau'r gwanwyn yw Ebrill. Mae o wrth y drws fel mae'r lluniau gan Glen a Bryn Thomas yn dangos, ac mae croeso mawr iddo fel yr oedd gan Eifion Wyn mewn pennill o un o'i delynegion i'r misoedd:

Glas yw wybyr Ebrill,
Glas fel llygad Men –
Mae enfys ar y cwmwl,
A blagur ar y pren;
Croeso fis diferion
A phelydr bob yn ail,
Tyred gyda'th flagur,
A thyred gyda'th ddail.

**CLWB 200**
Mae enwau enillwyr Chwefror ar dudalen 2; Enillwyr Mawrth ac Ebrill ar dudalen 18

# COFIWCH GWM FEIDIOG

*gan Glyn Jones*



Wrth weld cymaint o arwyddion "COFIWCH DRYWERYN", hoffwn eich atgoffa am gwm arall heb fod ymhell o Gapel Celyn, lle gorfodwyd y trigolion i adael eu ffermydd a'u tyddynod.

Pan ddaeth y milwyr i Fryngolau, Trawsfynydd, ac yn ddiweddarach i Rhiwgoch Bronaber a sefydlu gwersyll yno, roedd angen maes tanio i'r gynnau mawr, a dyna orfodi trigolion cwm Defeidiog i adael eu cartrefi.

Dolmynach Isaf ac Uchaf, Llech Idris, Foty Llelo, lle darganfuwyd ar lechen dan lintel y drws, y pennill:

*Gwenodd llawer gwanwyn tlws*
*Mewn gwyrddlesni wrth dy ddrws;*
*Olion bysedd amser sydd*
*Yn gerfiedig ar dy rudd*

Tybir mai Hedd Wyn yw'r awdur.

Defeidiog Isaf, lle bu i fellten chwalu'r simdde, ac i'r cerrig ladd dau frawd, bachgen chwech oed, a'i frawd yn flwydd, a'r ci, ar yr aelwyd.

Darganfu gwraig Foty Llelo, fod rhywbeth wedi digwydd yn Defeidiog Isaf, ac aeth yno. Pan gyrhaeddodd yr afon, oedd dros ei glannau, a chan nad oedd pont i'w chroesi, gafaelodd yn ei dillad llaes, a'u codi am ei chanol, a cherdded drwy'r cenlli.

Defeidiog Bach ac Uchaf, Dolmoch, Buarth Brwynog, Nant Llwcus, a Hafod Garreg, lle yn ôl y sôn y cafodd Howell Harris loches, pan ar ei ffordd i Ben Llyn wedi iddo gael ei erlid o'r Bala.

Dan y testun "Y Machlud", lluniodd Beti Wyn Jones Pantglas, y delyneg ganlynol i Gwm Feidiog:

*Dim mwg ym Muarth Brwynog,*
*Na chân yng Ngelli Gain,*
*A dim yn Foty Llelo*
*Ond nythod bler y brain.*
*Tawelwch yn Nolmynach,*
*Neb yn Llech Idris chwaith*
*Aeth Dei i ffwrdd o'r Feidiog,*
*Does yno ddim ond craith.*
*Yn furddun Hafod Garreg,*
*Yn llwch Nant Llwcud gynt,*
*Fe chwalwyd 'rhen gymdeithas*
*Ymhell i'r pedwar gwynt.*
*A thra bo tonnau grisial*
*Yn afon Cain a'i lli,*
*Bydd hiraeth yn fy nghalon*
*Am gwn fy maboed i.*

Felly, bob tro y gwelwch "COFIWCH DRWERYN", cofiwch hefyd am GWM FEIDIOG.

## William Rowlands
## 06.08.29 — 13.11.20
## DIOLCH

Dymuna Eunice Rowlands, 6 Ffordd y Gerddi a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb ymhell ac agos am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd mewn cardiau, galwadau ffôn ac ati, yn ystod eu profedigaeth o golli William. ... "Roedd ei golli'n dristwch, / Ei gofio'n ddiddanwch."

Diolch arbennig i'r Gweinidog, Carwyn Siddall am ei ymroddiad a'i wasanaeth cymen ddydd yr angladd, ac i'r ymgymerwr, Peredur Roberts am ei ofal tawel gosgeiddig.

Y cariwyr oedd Eirwyn Roberts, David Griffiths, Hefin Jones, Dafydd Rhys Jones, Nicholas Kierans a David G Roberts.

Derbyniwyd £550 at elusen Ambiwlans Awyr Cymru a diolch i bawb gyfrannodd.

*****

Tra'n cydymdeimlo'n ddiffuant â Mrs Rowlands a'r teulu yn eu colled lem, hoffem fel Golygwyr gydnabod yn ddiolchgar rodd i goffrau PETHAU PENLLYN er cof am William Rowlands.

**Hedd Parri Roberts, Caermeini, Llanuwchllyn**

Hoffem gydnabod derbyn rhodd hael at goffrau PETHE PENLLYN am gynnwys diolchiadau'r teulu ar achlysur colli Hedd Parri Roberts yn ein rhifyn diwethaf.

## CLWB 200
CHWEFROR 2021

| | | |
|---|---|---|
| £20 | 8 | Glenys Jones |
| £15 | 182 | Gwyn Evans |
| £10 | 56 | Dilys Williams |
| £10 | 155 | Giff a Hefina Roberts |

## Rhestr 2020/21

GWOBRAU'R CLWB ETO ELENI YW £20, £15, £10 a £10

RHIFYN RHAGFYR/IONAWR £100, £75, £50 a £50


TÎMAU GOLYGYDDOL Y BALA/LLANFOR, MAESYWAEN A'R SARNAU FU'N GYFRIFOL AM GASGLU'R ERTHYGLAU A'R LLUNIAU AR GYFER Y RHIFYN DWBL HWN

**SWYDDOGION:**

CADEIRYDD:
NIA DAVIES, FRONGOCH 01678 521140

TRYSORYDD:
DILYS EVANS, TIR Y DAIL, CAE CROES, Y BALA 01678 521475

YSGRIFENNYDD:
JEAN ROBERTS, TREFAN, PARC, Y BALA 01678 540359

TREFNYDD GWERTHIANT:
GWYN SION IFAN 01678 520658

TREFNYDD HYSBYSEBION:
NEREUS 01678 521229

TANYSGRIFIADAU:
DYLAN N. JONES, TANYFRON, 105 STRYD FAWR, Y BALA 01678 521229

~~~~~~~~~~~~~~

Cysodir PETHE PENLLYN gan Nereus
01678 521229
e-bost: dylannereus@btinternet.com

Ariennir Pethe Penllyn yn rhannol gan Llywodraeth Cymru



**HYSBYSEBWCH YN PETHE PENLLYN**
\*\*\*\*\*\*\*\*\*\*\*\*
CYSYLLTWCH Â'N SWYDDOG HYSBYSEBION
dylannereus@btinternet.com

**Noel Lloyd**
Saer Coed
unrhyw orchwyl
gosod lloriau, ffenestri/drysau UPVC, gosod ceginau a'u hailwampio (drysau, worktops ayyb)
~Ffoniwch~
01678 521252/07837 324858

**OWAIN SION GWENT**
PEINTIWR AC ADDURNWR
Pendraw, Llanuwchllyn, Y Bala Gwynedd LL23 7TW
Ffôn: 01678 540283
Symudol: 07891 459699
e-bost: owainsiongwent@hotmail.co.uk



**Peredur Roberts Cyf.**
Cyfarwyddwr Angladdau
Gwasanaeth Personol
Capel Gorffwys Preifat

| | |
|---|---|
| Derwgoed | Gweithdy'r Gof |
| Llandderfel | Pentrefoelas |
| Y Bala | Betws y Coed |
| LL23 7HG | LL24 0HY |
| 01678 530239 | 01690 770408 |
| 07544 962669 | 07884 025520 |
~~~~~~~~~~~~~~

# Teyrnged i Morfudd Roberts

## Bodilan, Y Bala

Mam, nain, hen nain, chwaer, modryb, cyfaill, cymydog a chydnabod i lawer. Ganed Morfudd Roberts ym mis Gorffennaf 1931 yn drydydd plentyn i Meredydd a Betsi Roberts, Penrhos Uchaf, Ganllwyd. Daeth i'r byd ar frys, wythnosau yn gynnar, yn bwysau bychan iawn, wedi i'w mam ddioddef anffawd wrth fynd o gwmpas ei dyletswyddau ar y fferm. Byddai 'nain Cyplau' yn adrodd yr hanes yn aml o'r gofal oedd ei angen ar y babi bach, bach, a hynny heb adnoddau ysbyty, a'r ffaith nad oedd yn pwyso mwy na babi newydd anedig pan oedd yn flwydd oed! Ond goroesi wnaeth Morfudd, a'r frwydr gynnar honno yn sail i'r cryfder mewnol anhygoel a amlygodd ei hun ynddi weddill ei hoes. Fe'i magwyd ar aelwyd ddiwylliedig, lengar a chrefyddol, a chariad a chynhesrwydd y cartref yn angor i'r pum plentyn, Eirlys, Aelwyn, Morfudd (y jam yn y canol chwedl hithau), Gareth a Sioned.

Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, symudodd y teulu i fferm y Cyplau, Abergeirw, gan fagu gwreiddiau dwfn yno – yr ysgol, y capel, y cyfarfod bach a'r seiadu cymdeithasol a cherddorol a fu mor annwyl iddi hyd y diwedd. Er iddi serennu yn yr arholiadau 11+ roedd meddwl am fynd i'r ysgol uwchradd yn Nolgellau ac aros yno naw milltir gyfan i ffwrdd o'r Cwm am yr wythnos gyfan yn anathema llwyr. Daeth ei haddysg ffurfiol i ben yn Ysgol Rhydygorlan, ond fe dyfodd yn wraig ddeallus, ddiwylliedig a hynod addysgiedig, a pharhau'n ddarllenwraig frwd tu hwnt hyd ddiwedd ei hoes – darllen popeth, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn farddoniaeth, llenyddiaeth, yn nofelau, gweithiau mwy academaidd a darllen ei Beibl – a llyncu a chofio'r cwbl.

Roedd y diddordeb teuluol mewn cwblhau croeseiriau heriol yn dal yn gryf ynddi, ac roedd wrth ei bodd yn cymryd rhan mewn cwis, yn enwedig felly fel aelod o dîm y Bala o Ferched y Wawr – mudiad a fu'n agos at ei chalon ers ei ddechrau. Roedd y llawfeddyg yn ystod ei dyddiau olaf yn Ysbyty Stoke wedi dod i adnabod ei chymeriad mewn byr amser ar ôl ei chyfarfod – 'What a remarkable, intelligent and well-educated lady ...'

Ym 1962, priododd Morfudd ag Owen, a symud i aelwyd Bodilan Fawr, Llanfihangel y Pennant gan agor pennod newydd yn ei bywyd – cyfnod magu teulu a throsglwyddo'r gwerthoedd gorau i'r 'hen blant', a'r balchder tawel yn eu llwyddiant a'u datblygiad hwythau. Bu'n fam annwyl a chefnogol iawn i Arwel ac Eirian, ac ymhen amser yn gyfaill cadarn i Jac a Lleucu, ei mab a'i merch yng nghyfraith.

Do, fe ddaeth cwmwl galar i dywyllu'r daith gydag ergyd enfawr o golli Bethan ei merch fach trwy ddamwain, a cholli Robin, ei hŵyr cyntaf. Bu'n gryf ei chymeriad yn ystod gwaeledd Owen, pan ddioddefodd gyfnodau hir o salwch ac yntau yn ddyn ifanc. Gofalodd amdano yn dyner ac yn llawn cariad trwy gydol eu bywyd priodasol o dros hanner can mlynedd – a thrwy'r cyfan bu'n ffyddlon i'w chapel, ac yn gadarn ei ffydd. Bu'n aelod ffyddlon iawn yng Nghapel Abergeirw, yn organyddes am flynyddoedd yng Nghapel Sardis, Llanfihangel, yn weithgar yng Nghapel Bethesda, Tywyn ac yna hyd y diwedd, yng Nghapel yr Annibynwyr wedi symud i fyw i Benllyn. Cafodd fodd i fyw flwyddyn yn ôl pan ddaeth cyfle i fynd i gwmni ei brawd a'i chwiorydd i'r gwasanaeth diolchgarwch yng nghapel Abergeirw – sôn am siarad, a chwerthin, hel atgofion a bwyta! Rhaid oedd gwenu yn ystod y cyfnod clo pan ofynnwyd iddi oedd hi am gael copi o wasanaeth yr ofalaeth ar ddisg neu ar bapur – ei hymateb? "Na, dim diolch, peidiwch â mynd i drafferth, mae fy Meibl gen i – mae gen i ddigon o waith darllen ar hwnnw."

Roedd cynnig croeso yn rhan o'i chynhysgaeth – roedd paratoi gwledd o fwyd (a hynny i griwiau mawr yn aml) yn dod yn rhwydd iddi. Roedd wrth ei bodd yn coginio, a'i threiffls a'r llond bwrdd o gacennau yn parhau yn hir yn y cof. Paratôdd filoedd o 'fins peis' yn ystod ei hoes, ac arferai rannu bocseidiau i hwn a'r llall dros gyfnod y Nadolig, heb sôn am gadw gwely a brecwast yn y Garnedd, ac yn Bodilan wedi hynny.

Roedd o natur gymwynasgar, yn gofalu am eraill yn dawel a diffwdan yn y cefndir. Bu'n ddiwyd ei chefnogaeth yn gwirfoddoli i gefnogi'r henoed a'r llai abl ym Mro Dysynni ac wedi iddi symud i'r Bala dros ugain mlynedd yn ôl. Mae'n werth nodi un achlysur pan gafodd hi godwm ar ôl llithro yn yr eira ar stryd fawr y Bala pan oedd hi, yn ei geiriau hi ei hun, "ar y ffordd i wneud bwyd i'r hen bobol" – a hithau'n bedwar ugain ei hun ar y pryd.



Roedd yn wraig hollol ddibynadwy, yn ddidwyll ei chefnogaeth ac yn annibynnol iawn yn ei barn a'i gweithred. Glynai'n gadarn wrth ei gwerthoedd ac ambell 'Twt' neu 'Tybad?' yn rhoi mesur i chi yn eitha sydyn o'i hymateb i sefyllfa. Meddai ar y gallu i sgwrsio a seiadu ar bynciau eang – tystiolaeth o'r bri a roddwyd yn ystod ei magwraeth ar drafod fel teulu. Roedd ambell ddywediad yn nodweddiadol iawn o'i gwerthoedd, a'i siars i'r plant i dalu unrhyw ddyled yn brydlon – 'Pay as You Go – If you can't pay, don't Go!!'

Bu'n nain garedig a chefnogol iawn i Elgan Hedd, Ceri Meredydd, Rhydian Prys, Gruffudd Rhys, Ffraid Gwenllian, Saran Gwerfyl a Gwern Mihangel, ac yn hen nain falch iawn i'r genhedlaeth newydd, Ffion Elgan, Owi Elgan (er mai Owen oedd o bob gair i nain-nain!!) a Nyfain Eryl – yr orwyres fach newydd sbon yn Rhostryfan. Mae eu hatgofion hwythau yn drysorau gwerthfawr. Ac o wrando ar gyfoeth yr enwau yna, daw elfen arall o gynhysgaeth Morfudd i'r amlwg – y Cymreictod cadarn, y gweithio tawel i hybu a chefnogi pob agwedd ar ein diwylliant a'n hiaith, a hynny ar dalcen caled ar adegau. Bu llawer o dynnu coes o ganlyniad i'w hiaith goeth dros y blynyddoedd – pan fyddai Morfudd yn defnyddio rhyw air neu ymadrodd mwy diarth a Chymreig na'i gilydd, byddai Owen a'r plant yn edrych ar ei gilydd yn gwestiyngar cyn dod i'r casgliad mai 'Abergeirw Welsh' oedd y dywediad.

Byddai calendr Owen a Morfudd yn troi o gwmpas yr eisteddfodau lleol, a'r bererindod flynyddol, mewn carafán neu fwthyn, i'r eisteddfod genedlaethol ym mis Awst. Doedd dim angen i deulu a chyfeillion drefnu lle i'w cyfarfod ar faes y steddfod – yn y pafiliwn fydden nhw, yn eistedd tua'r un lle bob blwyddyn, a'r fflasg a'r brechdanau wrth law, rhag iddyn nhw golli dim o'r cystadlu! Yn y blynyddoedd diweddar, yr un fu'r drefn o flaen y teledu – a'r ddau yn feirniaid answyddogol o fri! Marc amlwg yn y calendar eisteddfodol oedd Eisteddfod Llanfachreth a'r teulu i gyd yno yn mwynhau fel pe bydden nhw wedi gwneud block booking o docynnau. Ond prif 'eisteddfod' y flwyddyn oedd y cyfarfod bach yn Abergeirw – y bererindod flynyddol trwy dywyllwch gaeaf (a rhew ac eira yn aml) – oedd, roedd y cwlwm efo bro ei mebyd yn un tynn iawn, iawn.

Bu'r ergyd o golli Owen yn enfawr iddi ac yntau wedi ei rhagflaenu o ddeunaw mis i'r diwrnod, ond fe ymwrolodd, a thynnodd eto ar ruddin a chryfder cymeriad, a derbyn cysur ei chred a'i ffydd mai 'Fel yna oedd pethau i fod ...'

Daeth y diwedd yn ddisymwth iawn, yn dilyn anffawd, a hithau wedi cael byw yn hollol annibynnol hyd y diwedd. Er pob ymdrech a gofal arbennig yn Ysbyty Stoke a brwydr ddewr iawn ar ei rhan, bu farw yn annisgwyl fore Llun, Tachwedd 9fed. Y cyfan fedrwn ni wneud yw dilyn ei hesiampl wrth wynebu'r storm, a byw yn ôl un o'r ymadroddion oedd yn ei chynnal hi – 'dim ond un llwybr sydd, ac ymlaen y mae hwnnw!'

Bu'r angladd yn nhawelwch heddychlon mynwent Llanfihangel y Pennant lle'r hebryngwyd Morfudd i'w siwrnai olaf yn sain Parti Dinas yn canu 'O Fab y Dyn...'


Dymuna Arwel a Lleucu a'r teulu yn Rhostryfan a Jac ac Eirian a'r teulu, Rhiwlas, Bala, ddiolch o galon i bawb o bell ac agos am bob arwydd o gydymdeimlad a chysur yn eu hiraeth. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.











**GUTHRIE JONES & JONES**
**Cyfreithwyr**
Yn gwasanaethu'r gymuned
**Cysylltwch â ni yn**
**■ 5 Stryd y Plase, Y Bala, LL23 7SW**
**01678 520428**
**bala@guthriejj.co.uk**
**■ Waterloo Chambers, Stryd y Bont, Dolgellau, LL40 1AT**
**01341 422604**
**dolgellau@guthriejj.co.uk**
**■ 29 Ffordd Rhuthun, Dinbych, LL16 3EH**
**01745 814817**
**Neu drwy www.guthriejj.co.uk**

# Yma a thraw
## Y Sarnau a thu hwnt

*Elfyn Pritchard*



**Ieu Ty'n Coed** Dyna enw Ieuan Jones i bawb yn yr ardal. Ieu, fu farw cyn i'r hen flwyddyn dynnu ei thraed ati. Cafodd fyw i oedran teg, ond colli yw colli ac anfonwn ein cydymdeimlad, braidd yn hwyr, at y teulu cyfan. Gwerinwr o'r iawn ryw oedd Ieu, a dau o'i brif ddiddordebau oedd casglu pethau a barddoni. Bu'n byw yn Nhy'n Coed ac yn ffermio am ran helaethaf ei oes, cyn mudo i'r Bala wedi ymddeol, ac yna i Dalsarnau lle cafodd ofal arbennig gan aelodau o'i deulu. Bu'n actio mewn pedair ar ddeg o ddramâu yn y Sarnau rhwng 1970 a 1987, ond barddoniaeth oedd ei brif ddiddordeb yn enwedig y limrig a'r triban, ac mae ysgrif fer am hynny yn y rhifyn hwn.

**Ffarwelio, Croesawu, Llongyfarch, Cydymdeimlo a Diolch** Dyna ddisgrifiad pum gair o fywyd bron yntê? Rhaid ffarwelio â Geunor Davies Awel y Grug, sy bellach yn cartrefu yn y Bala, ond mi fydd yn dal i gymdeithasu efo ni yma yn y Sarnau, diolch am hynny. Croeso i'r teulu newydd, Keith ac Angela Parry a'u merch i Awel y Grug, gan obeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein mysg. Llongyfarchiadau i Tirion Thomas Pencefn ar yr anrhydedd arbennig dderbyniodd hi am ei gwaith ardderchog gyda ieuenctid. Hefyd Eilir Rowlands yr Hendre ar gyrraedd penblwydd arbennig ac am ei ddewis i'w urddo yn yr Orsedd. Ychydig cyn y Nadolig bu farw chwaer ieuengaf Glenys Jones, Erw Feurig. Anfonwn ein cydymdeimlad at Glenys a'r teulu yn eu profedigaeth. Ydi mae hi yn rhywle o hyd yn tydi? Yn y rhifyn d'wetha roeddwn i'n sôn am Eira Ty'n Ffridd ac mae'r teulu sef Iwan, Arwel, Huw, Sion, Lois, Gethin a Glesni yn dymuno diolch i bawb am gofio amdani ac am gofio amdanyn nhw.

**Colli un arall** Yn ddiweddar bu farw Aeron Grifiths, Ty'n Ffridd, yr ail brofedigaeth i'r teulu o fewn ychydig amser. Un o gymeriadau hoffus y Sarnau oedd Aeron, un o bobol yr ateb parod fel y gwn i'n dda, gan i mi ei chael hi droeon ganddo! Ni chrwydrodd erioed ymhell o gartre ond cafodd lawer o fwynhad yn ei fywyd yn dilyn ei ddiddordebau, a byw yn annibynol hyd yn ddiweddar iawn.

**Cofio Glenys** Bydd y rhai sy oddeutu fy oedran i yn ei chofio. Glenys Hughes Athrawes Gymraeg Ysgol Ramadeg y Merched, ac yno yr oeddwn i yn cael fy ngwersi chweched dosbarth i gyd. Roedd hi'n athrawes ardderchog, a phe bai'r athrawon eraill oedd yn dysgu Hanes a Saesneg hanner cystal â hi byddai gwell siâp wedi bod ar fy Lefel A yn siwr i chi. Roedd bod yn ei gwersi yn bleser, gan ei bod mor gydwybodol, mor annwyl ac mor ddeallus. Fe briododd un o athrawon Ysgol Tŷ Tan Domen – Elwyn Jones (Jones Chem) a symud efo fo i Lanfyllin pan benodwyd o yn brifathro'r ysgol uwchradd yno. Bu o farw'n ifanc a hynny mewn cymanfa ganu, a chollodd hithau yn ddiweddarach ferch mewn damwain car. Ond ni chwerwodd. Bu'n Olygydd y Wawr am flynyddoedd, a chafodd fyw i oedran teg, ond teimlaf chwithdod o'i cholli. Coffa da amdani.

**Ffraeo am nyth** O ffenest stafell fyw ein tŷ ni mi welwch glamp o nyth ar ben ucha'r goeden fasarn yng ngwrych Caerau. Bu dwy bioden yn byw yno ac yn magu teulu yn y gorffennol. Ond yn ddiweddar mae trigolion eraill wedi dod yno i fyw. Dwy wiwer lwyd, ac maent i'w gweld yn gwibio ar hyd y canghennau i fyny ac i lawr rhwng eu cartref newydd a'r boncyn lawer gwaith yn y dydd. Dda gen i ddim wiwerod llwyd, ond o leia maen nhw'n ddigon pell oddi wrth y tŷ yn y nyth ar ben y goeden, ac yn ddigon difyr i edrych arnyn nhw.

Ond y dydd o'r blaen roedd andros o sŵn yn dod o'r goeden, a be oedd yno ond pioden wedi dychwelyd i nythu mae'n siwr a gweld bod rhywbeth arall wedi meddiannu'r nyth. Tybed beth a ddigwydd? Fydd yna ffrae go iawn rhwng wiwer ac aderyn? Rwy'n edrych ymlaen i weld y datblygiadau ac rydym ein dau yn cadw golwg fanwl ar y nyth. Sut y deuir i benderfyniad os gwn i? Yr ucha ei bris sy'n mynd â hi amla yn ein byd materol ni yntê? Beth fydd yn penderfynu ym myd y creaduriaid tybed?

**Y Brechlyn** Ydech chi wedi ei gael eto? Os nad ydech chi, mi wyddoch beth ydyw diolch i'r rhaglenni newyddion ar y teledu, yn Gymraeg, yn Saesneg a hyd yn oed ar raglenni CNN o America. Rwy'n amcangyfri mod i wedi gweld nodwydd yn mynd i fraich ar y newyddion o leia gant a hanner o weithiau ers pan dechreuwyd sôn amdano a'i roi i rai pobol yn ein cymunedau. Da yw gwybod beth ydyw, ond wyddoch chi be, mae o'n edrych yn waeth ar y teledu nag ydi o mewn gwirionedd. Wedi i mi ei gael dwi'n sylweddoli nad ydio'n ddim. Roeddwn wedi ei dderbyn cyn deall iddo ddigwydd. Prin y clywch chi bigiad mor dda yw ein doctoriaid a'n nyrsus.

Nid felly y byddai hi yn y gorffennol pell. Dwi'n cofio yn y fyddin erstalwm gorfod ciwio i gael brechiadau, a gweld y rhai o'ch blaen yn ei gael. Mae'n syndod gymaint fyddai'n llewygu bryd hynny, na nid rhyw liprynod main tebyg i mi (yr adeg honno!) ond bois mawr cydnerth, swnllyd fel arfer, yn disgyn fel pys, a ninnau nad oedd yn effeithio arnom am unwaith yn cael cyfle i wneud hwyl am eu pennau.

**Ffordd Ffrydan** Mae ambell un o dro i dro yn cyfeirio at y golofn hon, ac fe soniodd un wrthyf y dydd o'r blaen am yr enwau traddodiadol sy'n mynd ar goll yn ein hardaloedd gan gyfeirio yn arbennig at y gair Ffrydan. Does yna yr un arwydd medde fo sy'n enwi Ffordd Ffrydan yn y Bala, felly dydi o ddim i'w weld yn unman. A does yr un o'r adeiladau ddatblygwyd yn gymharol ddiweddar ar yr heol hon wedi cymryd gafael ar yr enw chwaith. O ble y daw'r gair tybed? Wel, y mae yna nant fechan yn llifo i'r Tryweryn cyn iddi gyrraedd y Bala, a'i henw yw Nant Ffrydan. Roedd yna unwaith felin oedd yn cael ei gyrru gan ddŵr o'r nant hon, a'i henw oedd Melin Ffrydan. Oes rhywun yn gwybod ble'r oedd hi? A beth am i Gyngor y Bala neu Gyngor Gwynedd ystyried gosod arwydd Ffordd Ffrydan ar yr heol er mwyn i'r enw fod yn weladwy?

**Gair i gall** Mae yna lawer o raglenni ar Radio Cymru, ac ar S4C o ran hynny lle mae yna gysylltu efo pobol leol sydd a stori ddifyr i'w hadrodd. Yn anffodus y mae gan ein darlledwyr, lawer ohonyn nhw rhyw hen feddylfryd trefol ac os oes rhywun yn dod o rywle ym Mhenllyn, yna maen nhw'n dod o'r Bala. Gallwn enwi sawl person a sawl ardal lle digwyddodd hyn yn ddiweddar, ond wna i ddm. Dim ond dweud mai dim ond y chi sy'n cymryd rhan all ddweud yn union wrth y rhai sy'n eich cyfweld o ble dech chi'n dod. Peidiwch bodloni ar iddyn nhw gyfeirio atoch fel rhywun o'r Bala. Nid y Bala yw'r Sarnau na'r Parc na Llandrillo nac unrhyw bentre arall chwaith. Peidiwch bod ofn cywiro'r bobol yma, mae'n bryd iddyn nhw ddysgu tipyn o ddaearyddiaeth, ac mae'n bryd i bawb sy'n cymryd rhan hefyd fod yn falch o'r lle y maen nhw'n byw ynddo.


Os ydych chi neu aelod o'r teulu yn chwilio am gartref i fyw'n annibynnol wrth fynd yn hŷn, efallai mai

**Awel y Coleg, Y Bala**

yw'r lle i chi.

- Mae Awel y Coleg yn cynnig cartref annibynnol i chi sy'n fodern, cyfforddus a diogel.
- Mae 30 o fflatiau hunangynhaliol ar y safle, gyda chefnogaeth ar gael 24 awr y dydd, os bydd angen.
- Gyda'ch drws ffrynt eich hun, eich fflat yw eich cartref lle gallwch barhau i goginio, derbyn ymwelwyr a mwynhau byw'n annibynnol.

Diddordeb? Ewch i: **grwpcynefin.org/chwilio-am-gartref**
Codwch y ffôn am sgwrs: **0300 111 2122**
Anfonwch air: **post@grwpcynefin.org**

@Grwp_Cynefin
@grwpcynefin

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing





**Y Dyn Dweud Drefn yn yr Ardd**
**Lleucu Fflur Lynch**
**Lluniau – Gwen Millward**
**Gwasg Carreg Gwalch, £4.95**




Mae'r Dyn Dweud Drefn yn ei ôl, ac yn barod i ddwrdio unwaith eto! Dewch i'ch diddanu unwaith yn rhagor yng nghwmni Y Dyn Dweud Drefn a'r Ci Bach! Mae llond lle o waith i'w wneud yng ngardd y Dyn Dweud Drefn ond mae'r Ci Bach dan draed! Wel, dyna mae'r Dyn Dweud Drefn yn ei feddwl, o leia'. Ond tybed fydd y Ci Bach yn help llaw i'r Dyn Dweud Drefn wedi'r cwbl?


Dyma'r ail yn y gyfres gan Lleucu Fflur Lynch, a gwaith arlunio trawiadol a lliwgar Gwen Millward.
**AR WERTH YN AWEN MEIRION**

## HUNANGOFIANT Y BU HIR DDISGWYL AMDANO

## Deffro i Fore Gwahanol – Hunangofiant Glyn Tomos


**Golygydd: Osian Owen**
Gwasg Carreg Gwalch.
Pris £8.50 ar werth ym mhob siop lyfrau Cymraeg.







Dyma hunangofiant fab i chwarelwr a ddaeth yn ffigwr amlwg yn y frwydr dros yr iaith a dyfodol ein cymunedau. Mae'r awdur yn ddyn y mae parch mawr iddo fel gwr a daliadau cryf am ddyfodol Cymru a'r broydd Cymraeg, ac angerdd am ein bywyd cymunedol a cherddoriaeth Cymraeg. Yn un sy'n fodlon sefyll yn y bwlch dros yr hyn mae'n ei gredu, cawn ddod i ddeall lle y magodd y gwrhydri yma wrth iddo ddarlunio bywyd ar aelwyd cyffredin a chynnes ym mhentref chwarelyddol Dinorwig yn y 50au a'r 60au. Cawn weld sut y daeth yn ymgyrchydd iaith blaenllaw, angerdd a ddaeth i'r amlwg yn ystod ei gyfnod cythryblus fel myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor yn y 70au. Bydd yn codi clawr hefyd ar ei brofiadau difyr fel golygydd y cylchgrawn pop enwog Sgrech, ymysg cyhoeddiadau eraill. Ac yntau wedi gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Ngwynedd am ddeugain mlynedd, mae'n gyfrol afaelgar hon yn cynnnig darlun cofiadwy ohono fo a'r gymuned y mae'n ei charu a'i thrysori gymaint.

## YN NEWYDD GAN DDALEN NEWYDD




CYFROLAU CENEDL 13
£15.00


DALEN NEWYDD










Eich pedwar
HEN LYFR BACH
newydd.
£5.00 yr un.
Pecyn 4
yr Hen Lyfrau Bach,
£15.00 yn lle £20.00

## *Llyfrau Newydd o stabl y Ddalen Newydd*

Daeth casgliad arall o drysorau i'r siopau o wasg y Ddalen Newydd ychydig cyn y Nadolig. Bydd darllenwyr Penllyn yn falch o weld rhai o hen ffefrynnau Llew Tegid ... 'Ffarwel i Blwy' Llangower' yn eu mysg ... yn **'Galw'n Ôl',** rhif 13 yn y gyfres **CYFROLAU CENEDL** ac yn dotio at y nifer o benillion gan Ceiriog sydd bellach yn rhan o'n hetifeddiaeth farddol a cherddorol, megis 'Bonheddwr Mawr o'r Bala', 'Bugail Aberdyfi', 'Aros Mae'r Mynyddau Mawr' a 'Mab y Mynydd' yn **HEN LYFR BACH 'Alun Mabon a Cherddi Eraill'**, – heb sôn am waith crafog Emrys ap Iwan (**Bully, Taffy a Paddy**), rhai o gerddi clasurol Dafydd Ddu Eryri a dwy o awdlau llai adnabyddus John Morris-Jones. Ewch amdanynt yn Siop AWEN MEIRION pan ddaw'r cyfle eto.

**Mae 13 o Gyfrolau Cenedl erbyn hyn a 16 o'r Hen Lyfrau Bach.**
**Casglwch nhw! Darllenwch nhw! Trwythwch eich hunain yn rhai o glasuron ein hiaith!**

Lle
i gyfarfod

**Canolfan Henblas,**
**Stryd Fawr,**
**Y Bala**
**Swyddfeydd ar gael i'w llogi, hir-dymor neu dymor-byr, desg boeth hefyd ar gael.**
**CANOLOG, CYFLEUS A RHESYMOL.**
**Cysylltwch am fwy o wybodaeth:**
**01678 521 796**
**neu**
canolfanhenblas@gmail.com


T J ROBERTS
A'I FAB
Cigydd Teulu
*Sefydlwyd 1873*
*www.welshqualitymeat.co.uk*
Tŷ Tryweryn,
8 Heol yr Orsaf, Y Bala
Gwynedd LL23 7NG
Ffôn: (01678) 520471
info@welshqualitymeat.co.uk
*cig gan gynhyrchwyr lleol ô*

**T. PRITCHARD**
**MODURDY'R HENBLAS**
**01678 520237**
Atgyweirio ceir
Gwaith weldio
Amcangyfrif o'r gost
**AM DDIM**
Defnyddir offer arbennig "Bosch" ar gyfer tiwnio'r injan
Darnau sbar i bob math o geir
**CLASS 4 & 7 MOT**

**I. B. Williams a'i Fab Cyf.**
**Gwaith Cerrig**
**Canolbarth Cymru,**
**Llanbrynmair, Powys**
**Sefydlwyd 1918**
**☎01650 521250**
**COFEBAU NEWYDD**
**ADNEWYDDU**
**COFIANT YCHWANEGOL**
**Dewch i ymweld a'n hystafell arddangos neu gysylltwch am lawlyfr**
***BRAMM Registered***

# Y Gornel Greadigol

Tomos Heddwyn Griffiths



*lluniwyd gan Gwen Edwards*

*Pleser mawr ydi cael cynnwys gwaith Tomos Heddwyn Griffiths, un arall o bobl ifanc Trawsfynydd, a chyn-ddisgybl o Ysgol y Moelwyn a ddaeth, fel Glain Eden, i Ysgol Godre'r Berwyn i astudio ar gyfer ei arholiadau Safon Uwch. Ei ymgais ef ddaeth yn drydydd gyda chanmoliaeth yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa D. Tecwyn Lloyd. Mae Tomos yn aelod gweithgar o Glwb Ffermwyr Ifanc Prysor ac Eden, ac mae wedi cael llwyddiant fel unawdydd. Un arall o'i ddoniau ydi trin geiriau, a dyma gyfle i chi fwynhau darn o'i waith.*

## All Cêt Ymdopi?

"Attention!" gwaeddodd y Sarjant yn awdurdodol ar res ddiddiwedd o hogiau diniwed o'i flaen. Rhedodd deigryn i lawr boch Cêt, a hithau'n gwybod bod ei chrwt bach hi ar fin camu i ganol brwydr farwol yn erbyn yr Almaenwyr. Roedd ei stumog yn anghytuno gyda'i brecwast y bore hwn. Ceisiai Arthur ei gŵr ei orau glas i gadw ei meddwl oddi wrth wallgofrwydd y Rhyfel Byd.

"Tyd 'ŵan Cêt fach, fydd Bob yn iawn sdi, ma' shwr cawn ni lythyr eto bore fory." Anodd oedd i Arthur ddweud hyn gan y gwyddai yn y bôn nad oedd sicrwydd o hynny.

*Arhosodd y milwyr yn amyneddgar wrth i'r Sarjant barablu am reolau a threfn y brwydro dilynol.*

*"Be aflwydd mae hwn yn ddeud dwad? Dwi'n dallt dim byd," holodd Bob wrth Gymro ifanc arall wrth ei ymyl.*

*"Stand up straight good boy, and listen!" saethodd llais brawychus y Sarjant i glustiau Bob. Dechreuodd ei goesau grynu fel jeli, a'i stumog droi fel chwrligwgan. Roedd llais awdurdodol y Sarjant yn codi'r cryd arno bob amser. Gyda phob gorchymyn roedd yr amser yn prinhau, a'r frwydr yn agosáu. Yn fachgen deunaw oed ni allai ond dychmygu yr erchylltra roedd ar fin ei wynebu. Roedd brwydro yn hollol wrthgyferbyniol i'r hyn yr arferai ei wneud; doedd dim un blewyn cas yn perthyn iddo. Yn Nhrawsfynydd roedd y gymdeithas yn un glos iawn, a pharch at eraill yn galon iddi. Pawb yn adnabod ei gilydd ac yn trin ei gilydd fel un teulu dedwydd.*

Carlamodd Mari fach i'r gegin gan weiddi ar draws yr ystafell,

"Mam! Mam! o'ti'n gwbod mai dim ond pythefnos sydd 'na nes bydd Bob adra!"

Ceisiai Cêt ddangos ei chyffro tuag at ffaith ei merch saith mlwydd oed, ond roedd ei gwir deimladau'n ei rhwystro. Gwyddai nad oedd eisiau iddi fynd o flaen gofid, roedd rhaid iddi barhau gyda'r diwrnod heriol oedd o'i blaen. Bora braf iawn oedd hi ar fferm Bryn Gwynt, a'r barrug yn dangos ei ôl hyd wyneb y dolydd. Fferm oddeutu can erw oedd Bryn Gwynt, a dyna un o'r elfennau pennaf gyfrannodd at yr orfodaeth i Bob ymuno â'r fyddin, ac yntau'n un o dri o blant; Mari ei chwaer fach, a William bymtheg oed.

*Sgrechiodd y chwiban hir ddi-dor ar hyd ffosydd mwdlyd y Prydeinwyr. Yn dilyn, dringodd y milwyr ifanc yn heidiau i'r tir neb a dechrau saethu yn ddi-stop i gyfeiriad yr Almaenwyr. Defnyddiai'r Almaenwyr dactegau lu ac arfau niweidiol. Câi bomiau eu tanio a'u gollwng o awyrennau uwchben gan wneud y tir neb yn anwastad ac yn uffern ar y ddaear. Yn ystod sŵn byddarol y gynnau a'r bomiau, disgynnai milwyr un ar ôl un i'r llawr. Ni allai Bob druan gredu ei lygaid wrth brofi y fath hunllef. Ond ni allai aros i helpu ei gyd-filwyr; roedd yn rhaid iddo fynd yn ei flaen.*

Prysur iawn oedd hi ar fferm Bryn Gwynt wrth i Arthur a'i fab, Wil, gydweithio'n llwyddiannus i fwydo'r defaid a phorthi'r gwartheg. Roedd yn waith caled i ddau ohonynt gan bod y cant a hanner o ddefaid yn brefu am eu blawd a'r ugain buwch yn ysu am eu gwair. Ceisiai Arthur a William eu gorau i gadw'r rhyfel rhwystredig yng nghefn eu meddyliau. Ond nid oedd hyn yn hawdd i Cêt o gwbl. Golchi dillad a gwneud cinio oedd ei nod hi y bore hwn, ond yn wir roedd hyn yn her iddi gan i'r deigryn barhau i wthio i gornel ei llygaid.

"Arthuuuur! Wiiiiil! Cinio'n barod!!"

*Ar drothwy'r ffos roedd ei goesau'n gwegian. Roedd y prinder bwyd bellach yn gadael ei farc arno. Pa synnwyr bod bachgen ifanc ar ei brifiant yn gorfod ymdopi â'r sgerbwd o ddeiet a gweithio mor galed yn gorfforol. Saethai llu o gwestiynau drwy ei feddwl. Sut dwi am oroesi'r fath wendid o beidio cael bwyd yn fy mol? A fydd y ffos yn bellach y tro hwn? Mae'r rhyfel yma'n friw yn fy nghalon. Nid oes gennyf Gymro yn gefn bellach, neb i wrando na rhannu'r baich gyda mi. Chwibanodd y Sarjant unwaith yn rhagor, ac i ffwrdd â nhw. Ergyd gas oedd sŵn y bomiau a'r saethiadau i glustiau diniwed Bob. Erfyniai ar Dduw wrth frwydro am ei fywyd er mwyn ceisio cyrraedd y ffos nesaf yn fyw ac iach.*

"Ewadd, mae'n rhaid imi ddeud Mam, mae dy fwyd di'n werth chweil bob amser," mwmblodd Wil â llond ei geg o datws stwmp a chig moch.

"Yndi wir blodyn," ychwanegodd Arthur. Yn wir roedd Arthur a Wil bob amser yn hoff o fwyd Cêt.

"Biti bod Bob ddim yma i gael llond ei fol hefyd ynde, fetia i 'i fod o ar lwgu yn y ffosydd budron 'na," meddai Cêt mewn llais hiraethus a thrist.

"Ga i fwy plîs Mam?" gofynnodd Mari. Estynnodd Cêt am y fowlen datws yn barod i'w godi ar blât ei merch. Bang! Disgynnodd y fowlen yn shitrwns ar y llawr llechen. Roedd yn amlwg bod ei meddwl ar chwâl ym mhobman gan iddi fethu yn glir ac anghofio am gannwyll ei llygad oedd yn brwydro yn erbyn ei ewyllys ar diroedd pell yr Almaen.

*"Dwi 'di neud o eto!" sibrydodd Bob wrtho'i hun. Rhyddhad oedd cyrraedd y ffos nesaf unwaith eto. Gwelodd bod y fyddin yn mynd yn llai gyda phob cam. Teimlai yn hunanol ac yn ddiwerth gan na allai gynnig help. Roedd ei holl egni'n mynd i gyrraedd y ffos nesaf ei hun, a doedd dim gobaith iddo achub unrhyw gyfaill a ddisgynnai ar y ffordd. Atseiniai sgrechfeydd ei gyfeillion yn fyddarol yn ei glustiau wrth iddynt fynd i lawr fesul un. Y cwestiwn a berai yr ofn mwyaf iddo oedd - pwy fyddai nesaf?*

"Paid a phoeni Cêt bach. Fydda i fawr o dro yn clirio hwn," sibrydodd Arthur wrth ei chysuro. Estynnodd am y brwsh bras ac aeth ati i gymoni. Eisteddodd Cêt ar y gadair siglo o flaen tanllwyth o dân.

"Paid â phoeni Mam," meddai Mari fach. "Fydd Bob adra cyn bo hir i lenwi'r fasged goed." Allai Cêt ddim peidio gwenu wrth feddwl am ddiniweidrwydd ei merch fach. Pe byddai y fasged goed yr unig ofid iddi byddai bywyd yn fêl i gyd. Roedd pob diwrnod yn fwy o frwydr i Cêt. Ymdrechai yn galed i gario ymlaen; roedd rhaid bod yn gryf er mwyn y teulu.

*"Get ready to move," bloeddiodd y Sarjant. Suddodd calon Bob wrth feddwl am gychwyn eto. Dringodd allan o'r ffos gan grafangu drwy'r mwd.*

*"Move it quicker lads."*

*Alla i ddim mynd dim cynt, meddyliodd Bob. Gyda'r holl egni oedd ar ôl yn ei gorff stryffaglodd yn ei flaen. Am y tro cyntaf heddiw ni allai weld y ffos nesaf yn agosáu. Teimlai pob cam fel deg. Fedra i ddim mynd gam ym mhellach, meddyliodd. Bang! Fflach! Gwaeddodd Bob mewn poen fel cloch ddiddarfod.*

A'r haul yn codi ar glos Bryn Gwynt, rhedodd William i mewn i'r tŷ,

"Mam! Dad! mae 'na ddyn mewn siwt yn dod fyny ffor."

Rhewodd Cêt â'i chalon yn ei gwddf. Edrychodd yn bryderus dros ei hysgwydd ar Arthur.

"Ddo i allan rwan 'y ngwas i,"meddai Athur. "Paid â mynd o flaen gofid rwan Cêt bach." Cerddodd y ddau allan i gyfeiriad y gŵr yn ofidus.

"Good morning," cyfarchodd Arthur y gŵr bonheddig.

"For some maybe but not for others, I'm sorry to say," atebodd y gŵr.

"O na! O na! Plîs ddim Bob bach," sgrechiodd Cêt yn ddi-derfyn gan ddisgyn yn un swp ar y buarth. Roedd yn amlwg beth oedd wedi dod i'w meddwl. Brysiodd Arthur a'r gŵr bonheddig i'w helpu i godi yn ôl ar ei thraed gan fynd â hi at y gadair siglo ger y tân.

Wedi sgwrs a phaned yn y tŷ, daeth clywed y newyddion, er ei erchylltra, yn rhyddhad enfawr i Arthur a Cêt. Roedd Bob, cradur, mewn ysbyty draw ym mhellteroedd byd o gartref ac ar fin colli ei goes. Nid oedd hyn yn newyddion llewyrchus o gwbl iddynt. Ond i feddwl eiliadau ynghynt eu bod wedi dychmygu bod Bob yn gelain yn un o ffosydd Ffrainc, roedd llygedyn o obaith wedi dod iddynt. Teimlai Cêt fel pe bai pwysau'r byd wedi codi oddi arni.

*"Lle ydw i? Lle ydw i? Be ddigwyddodd?" Deffrôdd Bob yn sydyn heb gofio dim o'r hyn a ddigwyddodd ychydig ddyddiau ynghynt. Gorweddai ar wastad ei gefn ar wely caled anghyfforddus yn yr ysbyty, yn anymwybodol o'r prysurdeb o'i gwmpas. Gwegiai mewn poen. Teimlai fod rhywbeth yn od am ran isaf ei gorff. Edrychodd i lawr i gyfeiriad ei goes chwith,*

*"Aaaaaa!!" sgrechiodd yn aflafar ar draws y lle mewn dychryn. "Fy nghoes i……!!"*

## GARDDIO GWYRDD

gyda Rowenna



Gyda phrisiau llysiau a ffrwythau yn codi yn y siopau, a'r flwyddyn glo wedi rhoi amser i rai nad oeddynt wedi rhoi cynnig ar arddio o'r blaen, mae mwy o bobl yn troi at y pridd am ychydig o gysur calon a chysur i'r pwrs. Mae Ebrill o hyd yn fis prysur yn yr ardd. Mae rhai hadau wedi eu plannu'n eisoes a rhai eraill yn aros i gael cychwyn ond os nad ydych wedi mynd ati hyd yma, peidiwch â phoeni. Mae digon o amser ac mae'r cwmnïau hadau bach yn gwneud eu gorau i ddarparu cymaint o bacedi o hadau ag y gallan nhw.

Dwi'n cychwyn gyda chanfas gweddol glir yn y twnel poli mwyaf ar ôl i'r ieir druain orfod bod ynddo trwy glo'r ffliw adar. Er fy mod fel arfer yn cadw'r ieir yn y twneli am ychydig dros wythnosau caletaf y gaeaf, maent yn dod allan fel arfer ar ddydiau braf. Doeddwn i ddim wedi bwriadu iddynt spyddu'r planhigion ynddo. Yn anffodus roedd y tri planhigyn brocoli piws oedd wedi tyfu'n dda yn y twnel hwn wedi'u bwyta i gyd ac felly does dim brocoli i'w gael y gwanwyn yma. Anffodus hefyd oedd y rhewynt gynharach yn y flwyddyn. Mi golles i'r rhan fwyaf o'r bresych oedd yn y gwlâu allanol hefyd. Fel bo'r lwc, roeddwn wedi rhewi bagiau o wahanol ddeiliach a'u malu'n fân i gymryd llai o le yn y rhewgell ac mae'r rhain wedi bod yn fendith mewn cawliau, lasagnas a quiches a smwddis. Rydym yn dal i fwyta ffa a ffrwythau o gnydau'r flwyddyn ddiwethaf. Da 'di'r rhewgelloedd 'ma, yntê.

Felly be dwi di blannu'n barod? Mae sbigoglys 'enfawr', ffa, pys, berwr gaeaf, deiliach salad, cennin, nionod salad, tomatos a phupurau wedi ei hau ond yn anffodus, does dim ond golwg ar rai o'r tomatos a dim sôn am y pupurau hyd yma. Mae'r rhai sydd wedi dod yn eu blaenau wedi eu trosglwyddo i botiau mwy yn barod i fynd i mewn i'r pridd cyn gynted â phosib. Bydd y detholiad nesaf o llysiau yn cael eu hadu'r wythnos cyn y lleuad llawn ddiwedd mis Mawrth. Byddaf yn rhoi'r moron, tatws, nionod a'r garlleg yn syth yn y pridd ond bydd pob dim arall yn cael eu cychwyn mewn hambyrddau. Mae 'na ormod o 'fywyd gwyllt' o gwmpas yma i mi fentro plannu dim byd arall y tu allan neu fydd yr hadau yn fwyd i'r creaduriaid bach. Mae planhigion fel y rhai pys a ffa yn hapusach mewn potiau hir. Tyden nhw ddim yn hoffi i chi ymyrryd yn ormodol ar eu gwreiddiau, er mi wnân nhw ddiodde' rywfaint. Mae rhai yn defnyddio'r tu mewn i doilet rôl ond dwi'n ffeindio fy mod yn creu meithrinfa i drychfilod gyda'r rhain yn fwy na meithrinfa i'r ffa. Mae'n bosib defnyddio'r potiau iogwrt mawr neu waelod potel laeth chwe pheint gyda 'waliau' wedi eu creu o ddarn ucha'r botel fel tywysydd i'r gwreiddiau, a'r rhain yn rhad ac am ddim. Wrth gwrs, fe allech chi brynu potiau wedi eu gwneud yn bwrpasol ond mae'r rhain braidd yn ddrud. Os ydych yn cofio, adeg yma'r flwyddyn ddiwethaf, fel roedd eraill yn prynu papur toiled fel slecs, ro'n i'n hau hadau fel peth gwirion a doeddwn i ddim yr unig un. Fu bron i mi redeg allan o botiau bach i ail botio a'u rhannu i unigolion yn y gymuned ac yn ogystal â hambyrddau madarch a photiau iogwrt, mi ddefnyddies i *tetrapacks* hefyd a'u troi ar eu hochrau a thorri un ochr i ffwrdd. Roeddynt werth chweil ac dwi 'di bod yn eu hel nhw yn ddiweddar i wneud hyn eto'r flwyddyn yma.

I'r rhai ohonch sydd heb loches i'ch planhigion, mae'n bosib defnyddio'r poteli llaeth fel tai gwydr bach; llanwch nhw â compost, defnyddio ddarn o bren i bwyso'r pridd i lawr, gwasgaru eich hadau ac ychydig o gomopst drosynt, eu dyfrio'n ysgafn a chau'r caead. Wrth ddefnyddio dull yma, mae'n bwysig cofio mae chwynnu allan yr eginblanhigion gwan yn anoddach, felly cofiwch roi llai o hadau na fasech yn gwneud fel arfer. Unwaith mae'r planhigyn yn ddigon cryf, gallwch dorri top y botel iddynt ddod i arfer â'r tymheredd cyn eu plannu yn yr ardd. Mae'n bosib wrth gwrs eu gadael yn y potiau a hongian gerfydd handlen y botel yn rhes ar ffon yn erbyn wal, yn enwedig os mai planhigion bach fel deiliach salad ydyn nhw.

Cofiwch, os nad oes amser gynnoch chi neu rydych, fel fi, gyda bysedd sydd ddim mor wyrdd â rhai pobl eraill, mae digonedd o wefannau a chanolfannau garddio lleol yn darparu eginblanhigion; ac os oes gennych ormod o unrhyw beth, cofiwch sôn wrth eraill yn y gymuned. Gallwch rannu nid yn unig eich planhigion ond hefyd eich brwdfrydedd gyda gwên a chyfle am sgwrs.

## Ryseitiau Eleri

### Browni Siocled Mafon

**Cynhwysion**

- 12owns/350g Siocled tywyll
- 9owns/250g menyn
- 3 ŵy
- 9owns/250g siwgr brown meddal
- 4owns/100g blawd plaen
- pinsied o halen
- 1 llwy dê powdr codi
- 6owns/175g mafon (ffres neu wedi rhewi)


**Dull**

- Cynheswch y popty i 170˚c Nwy marc 3.
- Irwch dun 9" (Tun *Swiss Roll*).
- Toddwch y menyn a'r siocled mewn sosban.
- Chwisgwch yr wyau nes byddant yn dechrau twchu.
- Ychwanegwch y siwgwr i'r wyau a'i gymysgu yn dda nes bydd y gymysgedd yn sgleinio.
- Ychwanegwch y gymysgedd siocled i'r wyau.
- Hidlwch y blawd, powdr codi a'r halen gyda'i gilydd a'u hychwanegu i'r gymysgedd gan ei droi yn ysgafn rhag colli yr aer.
- Rhowch hanner y gymysgedd yn y tun, yna rhoi haen o fafon cyn arllwys gweddill y gymysgedd i'r tun (os yn defnyddio mafon wedi rhewi does dim rhaid ei dadmer ymlaenllaw) ac yna haen denau o fafon ar y top.
- Crasu am oddeutu 40munud, dylai canol y browni fod yn feddal wrth iddo ddod allan o'r popty.
- Gadewch i oeri yn y tun, yna torrwch yn sgwariau.



**Blasus iawn gyda hufen iâ! ... m m m m**

## Geraint yn cau drws y Bwthyn am y tro olaf



Mae'r cyn archdderwydd, Geraint Lloyd Owen (gynt o'r Sarnau, wrth gwrs), wedi ymddeol o'i swydd fel Swyddog Cyhoeddi gyda Gwasg y Bwthyn yng Nghaernarfon ar ôl 13 mlynedd o wasanaeth.

Meddai Hywel Trewyn, Rheolwr Gwasg y Bwthyn: "Hoffwn ddiolch i Geraint ar ran holl dîm y wasg am ei gyfraniad dros y blynyddoedd. Pob dymuniad da iddo ar gyfer ymddeoliad hapus. Bydd ganddo fwy o amser rŵan i fynd i wylio tîm pêl-droed Caernarfon – pan mae'n ddiogel i wneud hynny, wrth gwrs!"

**H. Williams**

Golygfa'r Moelwyn, Pant Llwyd,
Llan Ffestiniog, Gwynedd, Ll41 4PN

**Gwasanaeth ar gyfer unrhyw waith CYNNAL A CHADW yn eich gardd**



Ffoniwch:
01766 762 329 /
07513 949128

# Ble maen nhw rŵan

*Dylan Baines (Cae'r Ynn gynt)*

Mi wnes i adael Ysgol Y Berwyn yn 1977 hefo lefel A mewn Cemeg, Bioleg a Ffiseg a phenderfynu mynd i astudio Microbioleg ym Mhrifysgol Aberystwyth; y prif reswm am hyn oedd fy mod wedi cael blâs ar wneud cwrw cartref a meddwl y byddai'n bosib dilyn gyrfa yn y maes! Er i mi fwynhau fy amser yn Aber, erbyn diwedd y drydedd flwyddyn doedd gweithio ym maes Microbioleg ddim yn apelio rhyw lawer. Tua'r adeg yma, mi wnes i gyfarfod â chyn-fyfyriwr oedd wedi astudio Sŵoleg a darganfod ei fod o wedi newid cyfeiriad yn llwyr gan ymuno hefo'r BBC yng Nghaerdydd fel technegydd sain. O'i holi ymhellach, mi wnes i sylweddoli fod hon yn swydd oedd yn cyfuno amryw o fy niddordebau amser hamdden innau, sef cerddoriaeth, chwarae gitâr, electroneg a recordio sain. Tua blwyddyn yn ddiweddarach (a thri chyfweliad!) roeddwn i'n cychwyn ar gwrs 3 mis yng nghanolfan hyfforddi'r BBC yn Wood Norton ger Evesham. Hefo dyfodiad S4C ar y gorwel, roedd y BBC yng Nghymru wedi rhagweld yr angen am fwy o dechnegwyr sain oedd yn siaradwyr Cymraeg ac roedd nifer ohonom yn cael ein hyfforddi yno'r un pryd – tipyn o sioc i'r darlithwyr oedd clywed cymaint o Gymraeg ar y campws dwi'n meddwl! Wedi cwblhau'r cwrs, symud i Gaerdydd i ddechrau gweithio yng nghanolfan ddarlledu'r BBC yn Llandâf a bod ynghlwm wrth arolygydd sain profiadol am rai misoedd nes fy mod yn ddigon 'tebol i wneud y gwaith heb oruwchwyliaeth. O'r cyfnod cynnar yma, mae un digwyddiad yn sefyll allan. Roeddwn i'n gweithio ar ddrama radio – un o'r cymeriadau oedd parot ac roedd y dynwaredwr adar Percy Edwards yn cymryd rhan y parot (dyn clên iawn, gyda llaw). Gan fod yr aderyn yn byw mewn cawell, roedd yn rhaid dod o hyd i un go iawn er mwyn creu'r 'sound effects' priodol! Ar y pryd, roedd gan y BBC 'props-store' yn Llanisien a fi wrth gwrs gafodd y job o fynd yno i chwilio am gawell. Roedd hyn yn y dyddiau cyn i mi brynu car felly dyma neidio ar gefn fy meic a'i chychwyn hi am Lanisien ganol bore. Roedd y lle'n bellach nag oeddwn i'n feddwl (tua pedair milltir os dwi'n cofio'n iawn!) ac ar ôl cyrraedd, roedd y gofalwr yn awyddus i roi 'guided tour' o'r lle i mi (roedd o'n gweithio yno ar ei ben ei hun ac yn gweld fawr neb o un pen y dydd i'r llall!) Rhaid i mi gyfadde i mi golli trac o amser braidd a dyna lle roeddwn i awr yn ddiweddarach yn ceisio clymu'r gawell ar gefn y beic cyn cychwyn ar y siwrne'n ôl! Erbyn i mi gyrraedd Llandâf roedd hi'n ddechrau'r p'nawn a phan gerddais i mewn i'r stiwdio roedd y cynhyrchydd a'r arolygydd sain yn sbio'n hurt arna'i – a sôn am ddeud y drefn – wna'i byth anghofio'r geiriau – 'Lle wyt ti wedi bod mor hîr – yn yr amser wyt ti wedi'i gymryd, mi faswn i wedi gallu mynd yno ac yn ôl ar fy meic!'

Fy mwriad i o'r dechrau oedd dod yn ôl i'r Gogledd i weithio ac ar ôl dwy flynedd mi ges i'r cyfle i symud i ganolan y BBC ym Mryn Meirion, Bangor. Ar fy niwrnod ola' yng Nghaerdydd, wrth ddymuno'n dda i mi ym Mangor, mi wnaeth fy mhennaeth adran bwysleisio ei bod hi'n bwysig cofio'r hyn roeddwn i wedi'i ddysgu yn fy nwy flynedd yng Nghaerdydd ac i gynnal safonau – rhywbeth wnaeth fy nharo fi'n od ar y pryd. Ta waeth, yn fuan iawn ar ôl cyrraedd Bangor, mi ddaeth hi'n amlwg fod pethau'n gweithio'n wahanol i'r hyn oedden nhw yng Nghaerdydd, yn enwedig ymhlith y technegwyr hŷn – doedd 'na fawr o Gymraeg rhyngddyn nhw a'r adran sain yng Nghaerdydd! Felly, roedd yn rhaid addasu tipyn er mwyn ffitio i mewn i'r gweithle newydd a gweithio yn null Bangor, fel petai! Un diwrnod, roeddwn i'n gwybod 'mod i'n dechrau cael fy nerbyn pan ddywedodd un o'r hen fois : 'Mi rwyt ti wedi cyrraedd Machynlleth rŵan washi!'

Wrth reswm, roedd BBC Bangor yn lle bychan iawn o'i gymharu a'r ganolfan yn Llandaf – yn fwy cartrefol rhywsut a mwy o gymysgu rhwng y staff o'r gwahanol adrannau. Yn fuan iawn, mi gefais i'r cyfle i weithio ar gyfresi poblogaidd fel rhaglen Gari Williams, *Ribidires* hefo Cefin Roberts a'r rhaglen ddychan *Blewyn O Drwyn* ymhlith llawer o rai eraill. Roedd dramâu radio yr adeg honno i gyd yn cael eu recordio yn y stiwdio hefo cefndiroedd sain yn cael eu hychwanegu oddi ar ddisgiau feinyl. Ond daeth cyfle i recordio ar leoliad hefyd – rhywbeth reit arloesol ar y pryd – a hynny hefo'r gyfres gynta un o *C'mon Midffîld* – mi fyddai wedi bod yn anodd iawn ail-greu gemau pêl-droed mewn stiwdio radio!

Cyfres arall y gweithiais i arni oedd *Rhwng Gŵyl A Gwaith* hefo'r cyflwynydd I.B.Griffith. Byddai'r rhaglen yn cael ei recordio ym Mangor yn ystod yr wythnos a'r tâp yn cael ei ddarlledu o stiwdio yng Nghaerdydd ar y Nos Sul ganlynol. Yn hytrach na phostio'r tâp i Gaerdydd, y drefn oedd ei anfon o 'i lawr y lein' – golygai hyn bod un technegydd sain mewn stiwdio ym Mangor yn trefnu hefo technegydd arall mewn stiwdio yng Nghaerdydd i gysylltu'r ddwy stiwdio fel bod sain o'r tâp ym Mangor yn cael ei fwydo drŵodd i'r stiwdio yng Nghaerdydd a chopi yn cael ei wneud yno ar gyfer y darllediad. Ar un o'r adegau hyn, roeddwn i'n siarad ar y ffôn hefo'r technegydd yng Nghaerdydd – merch o'r enw Mandy – wyddwn i ddim ar y pryd y byddai Mandy'n symud i weithio i Fryn Meirion ac y bydden ni'n priodi maes o law!



Yn 2005, a John Birt wrth y llyw yn y BBC, roedd 'na deimlad fod y penaethiaid yn ystyried prynu adnoddau technegol o'r tu allan; mi fyddai hyn wrth gwrs yn peryglu swyddi staff y BBC ac mi benderfynodd amryw ohonom, yn cynnwys Mandy a minnau, adael 'cyn i ni gael ein gwthio' fel petai ac ers hynny mae'r ddau ohonom wedi bod yn gweithio'n llawrydd.

Er fy mod i wedi gadael y BBC ers tro, rydw i'n parhau i weithio iddyn nhw'n rheolaidd ar ddarllediadau allanol megis *Y Talwrn* a *Hawl I Holi*, rhai ohonynt yn cael eu recordio a rhai'n ddarllediadau byw. Ddiwedd Mis Medi 2017, daeth galwad o'r BBC ym Mangor yn holi os oeddwn i ar gael i ddarlledu *Rhaglen Dewi Llwyd* yn fyw o Farcelona ar Fore Sul, Hydref 1af. Roedd na refferendwm yng Nghatalwnia ar y pryd a'r syniad oedd gosod stiwdio radio yn un o'r stafelloedd yn y gwesty lle roedden ni'n aros. O ystyried y gost o drefnu darllediad fel hwn, roedd na dipyn o bwysau i sicrhau fod pob dim yn gweithio ar y diwrnod. Mi gyrhaeddais i'r gwesty ar y prynhawn Sadwrn a mynd ati'n syth i geisio sefydlu'r cysylltiad technegol hefo'r BBC yn ôl yng Nghymru. Y dewis cynta oedd drwy sustem band-eang y gwesty ei hun ond fedrwn i ddim cael hwn i weithio o gwbl ac mi roeddwn i'n gyndyn o holi am help yn y dderbynfa oherwydd doedden ni ddim wedi dweud wrth y gwesty ein bod ni'n bwriadu defnyddio un o'u stafelloedd gwely nhw fel stiwdio radio! Wedyn dyma geisio hefo'r ddysgl lloeren ond doedd dim yn tycio (efallai am nad oedd hi'n bosib agor y ffenest!) Yr unig ddewis ar ôl oedd drwy ddefnyddio cysylltiad 4G – yr un rhwydwaith a'r un sy'n cael ei defnyddio mewn ffonau symudol. Felly i lawr â fi i'r siop Vodafone lleol a holi am gerdyn 'SIM' 4G. Wedi cael hwnnw, yn ôl a fi i'r gwesty i roi cynnig arall arni a diolch byth, mi weithiodd yn iawn ac o roi'r offer darlledu reit wrth ymyl y ffenest, roedd y sain yn glîr fel cloch yn cyrraedd Bryn Meirion. Sôn am dri chynnig i Gymro! Y bore canlynol mi aeth pob dim yn iawn hefo'r darllediad ac am nad oeddwn i'n hedfan yn ôl tan yn hwyr y noson honno, mi gefais i weddill y diwrnod i grwydro strydoedd Barcelona.

Mae Mandy, yn ogystal a gwneud gwaith sain, yn dysgu gitâr i ddisgyblion ysgol drwy Wasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn. (Mae ganddi radd mewn cerddoriaeth a'r gitâr glasurol oedd ei dewis-offeryn). Gan fy mod i hefyd yn chwarae'r gitâr (ond ddim i'r un safon â Mandy wrth gwrs!) mi ryden ni'n cyd-chwarae'n reit aml ac wedi cael mwy o gyfle nag arfer yn ystod y misoedd diwetha pan mae pethau wedi bod yn dawelach o ran gwaith.

Ganwyd ein merch Mari yn y flwyddyn 2000 – ydi hi wedi etifeddu diddordeb mewn sain gan ei rhieni? Nac ydi, ddim o gwbl – mae hi erbyn hyn yn y Brifysgol yng Nghaerdydd yn astudio addysg a seicoleg!

# Marwolaeth Dwy Chwaer yr un Diwrnod

*gan Roderick Owen*

Mi dybiaf fod y pennawd uchod wedi eich taro gyda chryn syfrdan ac yn fwy felly o ddarllen y cerdyn angladd sydd yn cofnodi marwolaeth dwy chwaer yr un diwrnod. Ninnau bellach ynghanol pandemic y Covid 19 meddyliais y buaswn yn rhannu'r stori tu ôl i'r cerdyn gyda chwi ddarllenwyr Pethe Penllyn. Dyma i chi oedd y brofedigaeth fawr a ddaeth i ran teulu Maeshir, Rhos y Gwaliau ychydig dros gan mlynedd yn ôl , cartref fy nhaid am nain, Richard a Mary Owen, pan fu farw dwy ferch iddynt yr un diwrnod o haint y diptheria. Fel y gwelwch, Eunice a Gwladys oedd eu henwau, Eunice yn 14 a Gwladys yn 16 mlwydd oed, dwy a fyddent wedi bod yn fodrybedd i mi petaent wedi cael byw. Ganwyd i'r teulu wyth o blant i gyd, chwech o ferched a dau fab, ac yr oedd y teulu eisoes wedi wynebu trallod marwolaeth efeilliaid, mab a merch, yn nyddiau eu babandod oherwydd y ddarfodigaeth. Yr oedd y ddwy chwaer yn gyd ddisgyblion yn Ysgol Ramadeg y Merched Bala a byddent yn aros yn y dref yn ystod yr wythnos a mynd adref i Maeshir dros y penwythnos. Gallwch feddwl bod hynny yn gamp arbennig y dyddiau hynny ac yn dweud llawer am aberth fy nhaid am nain i roddi addysg i'w plant. Yr oedd colli dwy ferch alluog a disglair fel hyn yr un diwrnod yn ergyd drom a hynny hefyd ar ddiwrnod pen blwydd y plentyn ieuengaf yn flwydd oed, geneth a ddaeth yn fam i mi mewn blynyddoedd wedyn.

Rydym ninnau yn awr yn disgwyl brechiad y Covid ond mae pob un ohonom eisoes wedi cael brechiad i gadw'r diptheria draw, ac nid oes perygl mwyach. Clefyd cas ofnadwy oedd y diptheria a oedd yn arwain i farwolaeth frwnt os nad oedd gwellhad buan i'w gael. Byddai'r gwddf yn chwyddo ac yn raddol gau, gyda'r claf yn ymdrechu am anadl nes yn y diwedd yn cau yn gyfan gwbl a'r claf yn marw o fethu anadlu. Byddai rhai meddygon teulu yn gwneud trachiotomy ( twll i anadlu dan y gen) er mwyn rhyddhau'r anadl, ond ni wnaed hyn i Eunice a Gwladys. Yr oedd y ddwy yn hoff o ganu ac fe welwch ar y cerdyn angladd eiriau emyn a oeddynt yn ymdrechu ei chanu ar eu gwely angau ar y don Rutherford. Ymdrechu canu er mwyn agor ei gwddf i gael anadl mi dybiaf. Cofiaf yn dda fel byddai dagrau yn dod i lygaid y teulu os caed yr emyn yma mewn oedfa capel flynyddoedd ar ôl yr amgylchiad. Byddaf innau heddiw hefyd yn cofio am ddwy fodryb na welais mohonynt erioed pan glywaf y don Rutherford.

Yr oedd yr epidemic drosodd i bob cyfrif yn yr ardal, a neb yn glwyfus yn yr ysgol, hynny yn codi'r cwestiwn sut y daeth y feirws i Maeshir, fferm fynyddig oddeutu 6 milltir o dref y Bala. Yr unig ddamcaniaeth oedd bod y feirws wedi cael ei gario i'r cartref gan y ferch hynaf Elizabeth, mam Mair Nadolig i chi ddarllenwyr y Pethe, a oedd ar y pryd yn weinyddes yn ysbyty Royal Lerpwl, hi eu hun yn dangos dim symptomau. Yn ein hiaith ni heddiw yr oedd hi yn asymptomatic. Yr oedd ei dwy chwaer wedi gwisgo dillad gwaith eu chwaer hynaf i chwarae gweinyddesau ac felly'n cael ei haentio. Yn ystod y clefyd ni chawsai neb ddod i mewn nag allan o'r ffarm ac yr oedd unrhyw anghenion bwyd oddigerth y rhai hunan gynhyrchiol yn cael eu rhoddi dros lidiart gaeedig y buarth gan y postman. Yn ffodus ni chafodd neb arall o'r teulu'r haint. Wedi'r angladd bu raid i'r tŷ gael ei ddiheintio trwy losgi sylffwr ym mhob ystafell a llosgi pob dilledyn gwely a dillad plant a rhieni. Gallwch ddychmygu'r effaith a gafodd hyn ar fy nhaid am nain.

A dyna ddiwrnod mawr galarus oedd dydd yr angladd, dim ond teulu agos yn unig, dwy hers yn cychwyn o fuarth gwastad Maeshir i fyned i fynwent y plwy yn Llanfor ond yn cael eu gwahardd rhag mynd drwy dref y Bala, gymaint oedd yr ofn am ail heintio. Rhaid oedd iddynt fynd gryn 6 milltir allan o'i ffordd drwy Caletwr i Llanderfel ac yna yn ôl i Lanfor ble y rhoddwyd y ddwy chwaer i orffwys mewn bedd a ddaeth yn ddiweddarach yn fedd y teulu.

"Yr Arglwydd yw fy mugail : ni bydd eisiau arnaf."

G'weld tyrfa yn addoli
Yr Arglwydd yn Ei Dy,
Yw'r olwg fwyaf hyfryd
O dan y nefoedd sy' :
Cydganu wnân yn gyson,
A chyd-weddïo Duw,
A dysgu rhodio'r llwybr
I fyned ato i fyw.

**Er Cof Anwyl**
AM
## Eunice a Gwladys,
Dwy ferch Mr. a Mrs. Richard Owen, Maeshir, Bala,
***A Hunasant yn yr Iesu Chwefror 20, 1920 ;***

***Eunice yn 14 Mlwydd Oed ;***
***Gwladys yn 16 Mlwydd Oed.***

Ac a gladdwyd ym Mynwent Llanfor y dydd Sadwrn dilynol




*uchod: Eunice (chwith) a Gwladys (dde)*
*Isod: Fferm Maeshir oddeutu 1940*



Rwyf innau bellach, fel y gŵyr rhai ohonoch, yn byw yn Lerpwl ac wedi rhoddi "Maeshir" yn enw ar ein cartref yno .Tybed beth feddyliau'r hen bobol petaent yn gwybod bod yr achlysur yn cael ei gofnodi heddiw gan ŵyr iddynt sydd yn byw yn "Maeshir" Lerpwl, y ddinas o ble ddaeth y feirws diptheria i fferm Maeshir ac ef ei hunan yn gorfod hunan ynysu rhag i feirws arall, Covid 19, fygwth ei fywyd yntau.

# ‘Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog’

*gan Dewi T Davies*



## DEWI GLAN PERYDDON

**David Lloyd Davies 1830-1881**

Roedd Dewi yn adnabyddus fel canwr bariton, arweinydd corau, cerddor a difyrrwr mewn eisteddfodau yn ogystal ag fel bardd cynhyrchiol. Parhaodd i gyfrannu yn yr holl feysydd hyn wedi iddo ymfudo i Unol Daleithau America yn 1868.

Treuliodd ei flynyddoedd cynnar yn Llwyn Einion Bach, tŷ ger capel Llwyn Einion neu’r adeilad oedd yn gapel tan 1967. Nid oes dim o’r tŷ i’w weld erbyn hyn namyn ‘Yr Hen Gelynnen Werdd’ oedd wrth ei dalcen.


Ysgrifennodd Dewi gân ddaeth yn boblogaidd iawn am y goeden hon, dyma un pennill, heb newid dim ar y gwreiddiol.

*Gelynnen Hoff! Mawreddig yw*
*Dy drem a boneddigaidd wyd;*
*A’th wen ddihalog, serchog, syn*
*Sirioli rudd fy mwthyn llwyd;*
*Yn awr, pe medrwn, eiliwn gynnes gerdd*
*O barch i ti, – ‘Yr Hen Gelynnen Werdd’.*

[*Mae Llwyn Einion Bach wedi hen fynd ond saif y gelynnen hyd heddiw*.]

Tyddyn chwe acer oedd Llwyn Einion a gwnâi John, y tad, ei fywoliaeth fel crydd. Gan ei fod yn gloff o’i ieuenctid, yr oedd yn haws iddo ddilyn y grefft honno na gwaith a fyddai’n gofyn am fwy o symud. Daeth yn flaenor yn y capel, yn godwr canu ac yn athro Ysgol Sul. Priodasai Margaret Lloyd o Lanuwchllyn oedd yn hawlio perthynas bell â Llwydiaid Nannau. Ganed chwech o ferched i’r ddau a dau fab. Y pedwerydd plentyn oedd David. Mary oedd y plentyn cyntaf ac yna John (Einion Ddu) ac yna deuai Jane, Elinor/ Elin a Margaret cyn i David ddod i’r byd ar y 3ydd o Fawrth, 1830 am 4 y prynhawn. Yn ei ddilyn yr oedd efeilliaid, Gwen ac Elizabeth yn 1833 ond bu farw Gwen yn blentyn ifanc yn 1838.

Ni wn ddim am hanes Mary. Prentisiwyd John, y mab, yn grydd gan ei dad ac aeth i fyw i Dregeiriog, Llangollen, yna i Langadwaladr a bu farw yn Llanfyllin yn 1906 yn 87 mlwydd oed. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o’i farddoniaeth: *Caniadau Einion Ddu* a *Caneuon y Bwthyn*. Cyfeiria George Borrow ato yn *Wild Wales* gan ddyfynnu llinell o’i eiddo ‘Tangnefedd i Llangollen’ [sic].



*Einion Ddu*

Ymfudodd Jane a’i gŵr, (Jones, oedd hi erbyn hynny), i’r Unol Daleithiau yng ngwanwyn 1851, gan fyw yn Oshkosh, i’r gogledd o Milwaukee ger Llyn Winnebago yn nhalaith Wisconsin. Wyddom ni fawr am Elin /Elinor ond priododd Margaret un Peter Jones o Langollen; yr oedd eu merch, Sarah Edwards, Isgoed, Llandderfel yn nain i Tecwyn Ellis. Priododd Elizabeth, yn ôl Tecwyn Ellis, â John Williams, fferm Rhiwaedog gan fyw ym Maes Hir. Ond yng nghyfrifiad 1871 dywedir fod Elizabeth Davies (35) yn byw yn y cartref ac yn ddibriod. Roedd hi’n ddeunaw yng nghyfrifiad 1851 ac felly dylai fod yn 38/39. Mae rhyw gymysgedd yma!

Nid oes sôn am Llwyn Einion Bach erbyn Cyfrifiad 1881.

Er mai fel David Davies y cofrestrwyd Dewi, ychwanegodd y Lloyd (cyfenw morwynol ei fam) yn enw canol, yn unol â ffasiwn yr oes. Wyddom ni ddim yn iawn pryd y mabwysiadodd ei enw barddol ond cyhoeddwyd englynion o’i eiddo yn yr *Amserau*, pan oedd yn 16 mlwydd oed o dan yr enw Dewi Einion.

Yn *Cymru*, Cyfrol 50 ceir erthygl yn cyfeirio at y plant fel a ganlyn:

*‘Rhai o bryd du a hardd o wyneb ac ystum oedd plant y crydd, ac yr oedd canu a phrydyddu yn eu gwaed.’*

Prentisiwyd Dewi, yntau, yn grydd ac yr oedd yn gyflogedig gan ei dad yng nghyfrifiad 1851 ac yn byw gartref. Mabwysiadodd yr enw barddol Dewi Glan Peryddon rywdro yn y cyfnod hwn. Rhed Nant Peryddon o gyfeiriad Rhosygwaliau, heibio Tŷ Isa’ ac yna, ar draws y ffordd ac i Afon Dyfrdwy ger Tŷ Tan Graig. Heb fynd ati i geisio trafodaeth astrus am yr enw a’i hanes, digon yw dweud fod ‘Peryddon’ yn hen enw yn Gymraeg sy’n gysylltiedig ag afon. Efallai y gellid sôn mwy am hyn pan gyflwynir John Humphrey Lloyd (Peryddon), i’ch sylw.

Yn 1861 yr oedd Dewi yn briod ac yn byw yn y Ganllwyd mewn lle o’r enw Dolgoed, Nannau Isafon.




Ganed dau o’i blant yno. Priodasai yn Llanuwchllyn, yn Hen Gapel y Pandy yn 1859 â Griffith Jones o ‘Ariandy’r Bala’ yn gweinyddu gan ei fod yn gofrestrydd. Elen oedd enw ei wraig, wedi ei geni ym Mhlwyf Llanycil a’r teulu wedi symud, yn wreiddiol, o Benmachno i Gelyn. Yr oedd yn chwaer iau, (neu efallai yn ferch), i Mary, gwraig Cadwaladr Jones, Bryn Hynod.

Bu Dewi yn arwain corau yn Llwyneinion, Llanfachreth, Rhyd-y-main a Thywyn. Efallai fod ei waith fel crydd yn ei dynnu i’r gwahanol ardaloedd yma. Cawsai enw fel athro da iawn, yn denu bechgyn i ddeall ‘hen nodiant’ i ddechrau ond wedi hynny yn frwd dros hyrwyddo ‘sol-ffa’ yn dilyn ymgyrch Eleazar Roberts a fersiwn sol-ffa o’r *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* (Ieuan Gwyllt), yn 1864.

Cyn hyn yr oedd wedi dod i sylw Cymdeithas Lenyddol Meirion yn y Bala. Dyfynnir englynion o’i waith ar farwolaeth Ieuan Gwynedd yn 1852, pan oedd Dewi yn 22 mlwydd oed a byddai’n canu yng nghyfarfodydd y Gymdeithas ac yn darllen gwaith Trebor Mai, Huw Derfel, Taliesin o Eifion, Tafolog, Caledfryn a Thegai. Yr oedd Dewi Hafesb yn ymweld â’i gartref i drafod y cynganeddion a dysgodd Dewi sut i gynganeddu yn gyflym iawn.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, Alban Hefin 1865 enillodd â’r cywydd ‘Cartref’. Yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi, Bethesda yn 1867 enillodd y Gadair, (a phum gini), o dan feirniadaeth ap Fychan (Robert Thomas) am awdl dan y teitl ‘Tywyllwch’. Yr oedd hon yn eisteddfod bwysig yn ei dydd. Wyddom ni ddim ble mae’r gadair heddiw. Nid oedd yn bresennol a cafodd ei gynrychioli gan Garmonydd, y bardd a’r cerddor o Wrecsam oedd yn athro ym Methesda ar y pryd.

Ceir nifer fawr o gyfeiriadau ato yn y 50au a’r 60au yn arwain corau, yn canu unawdau, yn darllen ac annerch o flaen cynulleidfaoedd niferus. Dyma rai enghreifftiau.

- *10 Chwefror, 1863: arwain ei gôr yng Nghyfarfod Canu Undebol Penllyn yng Nghapel Llwyneinion; y Parch John Parry, Coleg y Bala, yn Llywydd a Rowland Huw Pritchard (Y Graienyn, Llangywer; cyfansoddwr ‘Hyfrydol’ etc) yn arweinydd.*
- *Ebrill 1866: canu mewn cyngerdd yn Neuadd y Dref, Dolgellau gydag Alaw Clwyd (Edwin Jones) a Gomerydd (J.R. Jones). [Na chymysger â Garmonydd !]*
- *Eisteddfod Darowen, Awst 1866: beiriadu y traethodau a’r farddoniaeth a chydfeirniadu darllen ac adrodd. Bu hefyd yn canu dwy gân â’r delyn ac yn rhoi anerchiad.*
- *Cyfarfod y prynhawn ar ddydd Nadolig, 1866 mewn eisteddfod i godi arian at yr Ysgol Frutanaidd: adrodd englynion, beirniadu y ‘darllen ar y pryd’, canu unawd ddwywaith a chanu mewn triawd efo Alaw Clwyd ac O. Daniel. Yng nghyfarfod yr hwyr canodd deirgwaith ac ennill am gyfansoddi tôn.*
- *Cyfarfod dirwestol, Llwyneinion: y côr yn canu dan ei arweiniad ac Ioan Pedr a Michael D. Jones yn y gynulleidfa. [Wn i ddim pa flwyddyn dim ond ei bod yn fis Chwefror].*

Dim ond ychydig enghreifftiau i ddangos amrywiaeth cyfrwng a lleoliad sydd yma. Tybir nad oedd gan Dewi fawr o amser i wneud bywoliaeth fel crydd! Ac *efallai* mai hyn arweiniodd at argyfwng a’i gyrrodd oddi wrth ei wraig a’i blant ac i America.

Mewn erthygl yn *Cymru* yn 1916 trafodir priodas Dewi; dywed y gohebydd, [O.M. Edwards ?]:

*‘Pan aiff merch â synnwyr cyffredin cryf ac yn llawn awydd dod ymlaen yn y byd – pan aiff honno i briodi bardd, y mae’r ddau yn mentro cryn dipyn. Ond ymbriododd Dewi athrylithgar a dawnus ac Elin Jones arafaidd ...’*

Mae’n bosibl fod yr hyn a ganlyn yn arwyddocaol iawn parthed ei ymadawiad.

*‘Ni wnaeth ei wlad gyfiawnder ag ef ...’*

Yr oedd, hefyd, yn un hawdd i’w ddigio ac yn cael pyliau o’r felan weithiau. Cyfeirir at hyn yn atgofion Annie M. Jones, Idaho, yn *Y Drych* [papur newydd Cymraeg yn yr UDA], yn Nhachwedd 1912. Wedi ei ganmol fel athro cerddoriaeth yn Arvonia gan gynhyrchu nifer o gerddorion nodedig a hefyd ei ganmol fel datganwr gan ddweud na chlywsai ‘neb a llais mor felodaidd â Dewi’ aiff ymlaen i ddweud.

*‘Gŵr yn trigo yn y glyn ydoedd. Gellir yn hawdd ei darfu a pheri iddo fod yn isel ei feddwl am ddyddiau – gan ei fod o natur hynod deimladol. Collodd lawer o amser am ei fod mor sensitive, ond byddai pratiad cyfaill yn ei ddwyn ato’i hun.’*

[pratiad = siarad lol, clebran, malu awyr].

Beth bynnag, yn 1868 yr oedd wedi cyrraedd America a chaiff ei gyflwyno yn *Y Drych*, (1 Awst 1868) mewn llythyr gan H.J. Hughes, Efrog Newydd a rhoddir disgrifiad ohono. Wedi dweud ei fod yn fardd ac yn gerddor canolbwyntir ar ei ddawn fel canwr.

*‘Baritone o ansawdd dyner yw ei lais – ymhoffa yn y tyner a’r tlws yn fwy na’r beiddgar a’r mawreddog. Mynych y gwelwyd cynulleidfaoedd mawrion yn crogi wrth ei wefus, ac yn ymdoddi o dan ddylanwad swyn ei ganeuon ...’*

Tybed nad yw’r disgrifiad hwn yn dweud llawer am ei gymeriad, hefyd?

yn parhau ►►►►

# 'Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog' *yn parhau*

Bu farw Elen, ei wraig, ym mis Rhagfyr 1916 yn 86 mlwydd oed a hynny yn Toxteth, Lerpwl, lle y cadwai westy. Yr oedd y mab hynaf, John Haydn Davies wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau. Ceir llythyr ganddo at ei frawd, David a'i chwaer, Mary, o Plymouth, Pennsylvania lle yr hola am iechyd ei frawd arall, Thomas Davies, Minffordd, Corwen. Yr oedd gan Dewi bedwar plentyn, felly; cadwasant mewn cysylltiad â'i gilydd ond nid oes unrhyw dystiolaeth i Dewi fod mewn cysylltiad â'i wraig na'i blant. Yr oedd David wedi'i fagu gan berthnasau i'w fam ym Moel Ortho, Penybontfawr.

Aeth Dewi yn ei flaen i Arvonia, Kansas a setlo yno ar fferm a enwyd yn Dôl Awen. Enillodd cân amdano o'r eiddo 'Catrin Morgan', sef MBM, (pwy bynnag oedd honno), yng Nghymdeithas Lenyddol Arvonia yn 1872. Dyma flas arni, fel y'i cyhoeddwyd!

*A fuoch chi rioed yn Nôl Awen wyr da*
*Lle mae'n oer yn y gauaf, a phoeth iawn yr ha'?*
*A'r lle mae'r hen Ddewi yn bod ac yn byw*
*Yng nghanol* tobaco *a* chorn *o bob rhyw?*
*Dôl Awen sy'n hardd,*
*'Does unlle mwy hardd,*
*Paradwys Arvonia yw cartref y Bardd.*

Pan ddaeth Dewi i Kansas yn 1868 daeth i dalaith oedd yn llyfu'i chlwyfau. Yr oedd y rhyfel cartref wedi dod i ben ond parhai'r effeithiau. Deuai nifer o gyn gaethweision i'r gogledd a'r gorllewin i chwilio am fywyd gwell yn ogystal â thoreth o bobloedd eraill. Gwthid ffiniau y byd Ewropeaidd fwyfwy i'r gorllewin, gan ddileu a symud y brodorion drwy drais neu ffug gytundebau. Yn y 50au a dechrau'r 60au buasai gwrthdaro treisiol yn y rhanbarth rhwng y rhai o blaid caethwasiaeth a rhai yn erbyn ac oherwydd effeithiau gweithredoedd ffôl yr Arlywydd Buchanan, [yr Arlywydd gwaethaf yn hanes yr UDA, ac eithrio un!].

Wedi'r rhyfel daeth ffyniant economaidd yn y diriogaeth a ddaethai yn dalaith swyddogol yn 1861. Mympwyol o hyd oedd cyfraith a threfn: daethai James Butler Hickock ('Wild Bill') yn Farsial yn Hays yn 1869 ac yna yn Abeline pan y gorfu iddo ymlid John Wesley Hardin o'r dref wedi i hwnnw saethu dyn yn farw drwy bared tenau ystafell ei westy am ei fod yn chwyrnu! Symudodd Hickock i'r gorllewin, wedyn a chael ei saethu'n farw wrth chwarae poker yn Deadwood, South Dakota yn 1876. Yr oedd John Henry Holliday ('Doc') yn Dodge City yn y 70au a Wyatt Earp yn Wichita yn 1874 cyn cael ei ddiswyddo o'r heddlu a chael swydd debyg yn Dodge City a chyfarfod 'Doc' Holliday cyn mynd ymlaen, eto i'r gorllewin gwylltach, i Tombstone, Arizona.

Daeth Dewi yn ddinesydd cymeradwy iawn yn Arvonia; caiff ei grybwyll fel un o arweinwyr y




drefedigaeth mor fuan ag 1869. Wnaeth Arvonia, ei hun, ddim ffynnu cystal, fodd bynnag, gan i'r rheilffordd gael ei gosod bedair milltir i ffwrdd. Digwyddodd yr un peth i'r gogledd. Oherwydd diffyg dŵr symudwyd trefedigaeth Powys ddwy filltir i'r de a'i hailenwi'n Bala. Bellach, poblogaeth wasgaredig mewn tir amaethyddol eang sydd yn y ddau le lle y gwreiddiodd gwareiddiad Cymreig y bu Dewi Glan Peryddon yn rhan ohono.

Dal ati yn ddiflino â'i swyddogaeth fel cerddor a bardd a chyfrannwr amlochrog i ddiwylliant wnaeth Dewi. Ar wahân i ennill nifer o wobrau, arwain, canu, beirniadu ac annerch yn Arvonia, ceir ei hanes yn fuddugol am farddoniaeth, am ganu, ac yn gweithredu fel darlithydd a chyflwynydd mewn amryw fannau yn Kansas ac ymhell i'r dwyrain yn yr UDA. Dyma enghreifftiau yn unig, o'r lleoedd y cafodd lwyddiant.

- *Eisteddfod Daleithiol Kansas, 1870.*
- *Eisteddfod Powys, Kansas, 1870: beirniadu'r tonau a'r englynion a chanu 'nes gwefreiddio y dorf'.*
- *Providence, Rhode Island, 1870*
- *Hyde Park, Pennsylvania, 1872.*
- *Utica, Talaith Efrog Newydd, 1873 ac 1875.*
- *Pittston, Dyffryn Wyoming, Pennsylvania, 1874.*
- *Columbus, Ohio (Eisteddfod Daleithiol), 1875.*
- *Youngstown, Ohio, 1880.*

Dywed un adroddiad papur newydd amdano fel darlithydd, canwr a chyflwynydd: '*His dramatic power was unexcelled and concealed a simplicity and naturalness which was very appealing*.'

Yn 1870 yr oedd wedi cyhoeddi 'nofel' fer yn *Y Drych*. Teitl hon oedd *Ceinwen Morgan, y Rian Dwylledig.* Lleolir y digwyddiadau yng Nghwm Hirnant. Er mai 'ffug chwedl' ydi hi, defnyddir enwau lleoedd iawn. Merch Gwern yr Ewig yw Ceinwen Morgan. Caiff ei denu gan Tudur, mab trahaus Madog Wyn, Maes yr Afallen. Yr oedd ei chwaer, Ellen, yn byw yn Bryn yr Eithin a sonnir hefyd am Ty'n Weirglodd. Dechreuodd Tudur ganlyn Edith Llwyd, Plas Aberhirnant a'i phriodi'n gyfrinachol o dan orfodaeth ei dad. Nychu a'i lladd ei hun a wna Ceinwen. Er na ddywedir hynny, tybir ei bod yn feichiog. Nofel 'foesol' felodramatig, Fictorianaidd sydd yma. Er fod yma ysgrifennu gor flodeuog yn aml, ceir rhai disgrifiadau o olygfeydd sydd, serch hynny, yn gofiadwy. Dyma'r paragraff agoriadol heb newid yr orgraff.

*'Yn rhandir Penllyn, Swydd Feirion, G.C., yr ymestyna Cwm Hirnant rhwng erchwynion clyd ei wely, a'r afon oddiwrth yr hon y derbyniodd ei enw, yn ymsymud drwy ei waelod dwfn, weithiau yn murmur cân felodaidd, a phryd arall yn rhyfela yn ffyrnig a'i gelynion – y creigiau, wrth wneyd ei ffordd rhwng eu danedd geirwon draw i ddyffryn tlws Tref Rhiw Waedog, lle yr una "mewn glan briodas" a'r afon Peryddon. Amgylchynir y Cwm hwn gan fryniau trumawg a thywysogaidd, llechweddau, y rhai a wisgir â choedwigoedd tewion o fedw, derw, cyll ac ynn, oll yn dwyn arddull hollol Gymreig. Er nad yw tyddynod na phreswylwyr y Cwm hwn yn lluosog, eto nodweddir yr olaf a hedd a thawelwch dymunol, ac a rhinweddau na thremiodd angel erioed ar eu prydferthach. Ond er hyn medrodd gofid, twyll a brad eu ffordd i'w gonglau neillduedig.'*

Doedd Dewi, mae'n amlwg, ddim wedi anghofio ei ardal enedigol!

Ceir llawer o atgofion o fyd ei febyd gan Dewi yn ei gyfraniadau rheolaidd yn *Y Drych* yn y golofn 'Lloffion Difyrus' a dan yr is-bennawd 'Y Cwpwrdd Cornel'. Mae'n cynnwys atgofion am bobl a adwaenai yn Sir Feirionnydd gan gyfeirio at ei gartref a'i fagwraeth yn Llwyn Einion. Yr oedd yn cynnwys ei farddoniaeth ei hun a gwaith beirdd eraill. Yma, eto, mae'n cofio am ei ardal enedigol, er enghraifft mae'n dyfynnu englyn sydd ar garreg fedd rhyw Humphrey Hughes, heliwr, ym mynwent Llanycil. Ŵyr rhywun amdano?

*Rhowch gar[r]eg deg a dau gi – llwynog,*
*A lluniwch lun dyfrgi;*
*A gafaelgar dda filgi*
*A charw hardd ar ei chwr hi.*

Dyma enghreifftiau o waith Dewi ei hun, dau englyn.

***Wrth Fyned i Gysgu***

*Adlonol dawel hunaf – a 'mhoen cas*
*Mewn cwsg heno dwyllaf,*
*Atat ti, fy Nuw, nesu wnaf,* [8 sill!]
*Ac i dy gysgod y gwasgaf.* [8 sill!]

***Y Cleddyf***

*Gwae afraid ddwg gwallgofrwydd – y cleddyf,*
*Claddu'r byd mewn sobrwydd;*
*Dynol waed – dyna ei lwydd,*
*A'i wrid yw ei waradwydd.*

[Bron na ellid dweud fod y llinell olaf yn gyferbyniad ac yn gydymaith i 'Segurdod yw clod y cledd', (Emrys).]

Ceir cerddi gan Dewi i'w fam weddw yn 80 (yn 1870) ac i'w chwaer yn Oshkosh ac i'w frawd, Einion Ddu, pan oedd hwnnw'n cwyno ei fod yn mynd yn hen. Efallai mai ei gerddi byrion, syml yw'r rhai gorau, cerddi oedd yn ymdebygu i arddull beirdd fel Ieuan Glan Geirionydd ac Alun (John Blackwell), dau a edmygai. Yr oedd hefyd, drwy gyfrwng y papur, yn ysgrifennu am, ac at eraill. Ceir, er enghraifft, gerdd yn llongyfarch Joseph Parry, y cyfansoddwr adnabyddus, am ennill gradd uwch. Mae nifer o'i gerddi yn ddoniol a chwareus, yn cynnwys ymryson cellweirus â beirdd y Bala, Riley County, (*'Gwrolion llenyddol yw bechgyn y Bala'*).

Bu Dewi farw yn sydyn ar 23 Ionawr, 1881 yn Oak Hill Farm, Waterville. Yno, mewn caban pren syml yr oedd yn byw erbyn hynny. Wedi dychwelyd o'r capel y prynhawn Sul hwnnw bu farw o drawiad ar y galon, yn ei gadair. Claddwyd Dewi ym mynwent Ottowa (y dref yn Kansas); yr oedd yn 50 mlwydd oed. Bu llawer o deyrngedau iddo, yn erthyglau ac yn farddoniaeth. Bodlonir ar un sef englyn olaf cyfres gan Celyddon (y Parch D.C. Phillips) yn *Y Drych.*

*Cynyddu mewn canu ceinion – a wnai*
*Drwy ei einioes radlon,*
*Onid yw, y funud hon*
*A'i fawl ymhlith nefolion?*

[Bu llyfryn Tecwyn Ellis: *Dewi Glan Peryddon a'i nofel fer* yn gymorth mawr i lunio'r sylwadau hyn. Mae diolchiadau mawr yn ddyledus i Hywel Lloyd Davies, hefyd, am



Carreg fedd Dewi ym Mynwent Ottowa

wybodaeth ac am fy nghyfeirio at ffynonellau gwerthfawr. Diolch i Bryn Peryddon Davies, Llansilin am ei gymorth yntau.]

**Nesaf: Huw Cae Llwyd.**

# Fi, pandemig a dwy olwyn

*gan Gruffydd ab Owain*



Helô ddarllennwyr Pethe Penllyn! Gobeithio ichi gyd gael Nadolig oedd yn heddychlon ac iach, a'n bod ni 'gyd ar drothwy blwyddyn newydd well yn 2021. Gruffudd Emrys ab Owain ydw i, yn un ar bymtheg oed ac yn astudio ar gyfer graddau TGAU yn yr haf, lle byddaf yn cael fy asesu mewn modd na welwyd ei math o'r blaen. Bydd rhai ohonoch yn fy adnabod fel un bu'n cyfeilio i gorau'r ysgol ac yn cystadlu ar y piano mewn Eisteddfodau yn yr oes a fu lle nad oedd gweithgareddau felly'n peri gofid i iechyd cyhoeddus. Eraill efallai am fy nghyfraniadau blaenorol i Pethe Penllyn gyda sgwennu creadigol o'r Eisteddfod Ysgol.

Mae'n debygol, fodd bynnag, nad ydych chi'n fy adnabod pan 'dwi'n pedlo fy ffordd i lawr ffyrdd yr ardal, fel arfer mewn lliw oren llachar. Y rhan fwyaf o'r amser, seiclo sy'n mynd â fy mryd i. Buaswn i ddim yn dweud 'mod i wedi cael fy ngeni i fewn i'r gamp, ond mor bell yn ôl ag ydw i'n gallu cofio, mae dwy olwyn wedi bod yn rhan o 'mywyd i.

Dechreuodd y cyfan ar feic bach glas o siop Halfords a mynd ar hyd lwybr y llyn, i Langywer, ar hyd lwybr y Mawddach neu o amgylch llwybrau'r ganolfan feicio mynydd yn Llandegla. Mi es i i fanno am y tro cynta yn 2011 ar y beic bach glas, ac eleni, naw mlynedd yn ddiweddarach, mi gwblheais fy reid ganrif (can milltir) cyntaf ym mis Medi. Mae'r diwrnod hwnnw, fel nifer fawr o ddiwrnodau eraill ar ddwy olwyn, ymysg yr atgofion mwyaf melys sydd gen i. Tros y Migneint i Lan Ffestiniog ac oddi yno i Faentwrog, ymlaen i Feddgelert a thros y bwlch i Lanberis, dros Fynydd Llandygai i'r arfordir gogleddol ac i Gonwy am ginio dros fwlch Sychnant, ac adref ar hyd lawr dyffryn Conwy drwy'r pentrefi i Lanrwst, Nebo, Pentrefoelas a Cherrigydrudion. Mi roedd y diwrnod hwn yn crynhoi popeth sy'n gwneud seiclo mor arbennig i mi, dod â theulu at ei gilydd, mwynhau yn yr awyr iach, digon o her a'r ymdeimlad ddiguro hwnnw o gyflawniad ar ddiwedd y dydd.

Peth arall sy'n rhan annatod o fywyd unrhywun sy'n rhodio deurodyr yw bwyd. Ar hyd y blynyddoedd, mae bwyd wedi cynnig y cymhelliant perffaith. Ar y dechrau gyda'r caffi gwych yn Llandegla neu hufen iâ yn George III, Penmaenpŵl. Ar hyd y daith, rwyf wedi mwynhau ystod eang o gacennau o bob lliw a llun yma yng Nghymru neu ar wyliau seiclo yn Sbaen ac yn Ffrainc. Mae'r gwyliau hynny'n uchafbwyntiau bob blwyddyn. Mae'r cyfle i gwrdd â phobl newydd o bob math a phob lleoliad ac i fwynhau tirweddau a thirluniau amrywiol yn Sierra de Grazalema yn Andalucía neu'r Alpau yng nghyffiniau llyn Annecy yn werthfawr iawn. Dan heulwen y cyfandir ydw i wedi cyrraedd uchelfannau megis y Col de la Madeleine ac yn parhau i gadw peth cysylltiad gyda seiclwyr brwd eraill o'r Swistir, yr Iseldiroedd, Cernyw a mwy.

Ond mae fy gwreiddiau'n ddwfn yma yng Nghymru. Cymaint yw fy angerdd tuag at seiclo y cychwynnais i fy mlog, sy'n parhau i fynd o nerth i nerth, sef yddwyolwyn.cymru sy'n rhoi rhwydwaith arall i mi o rai sy'n rhannu fy mrwdfrydedd, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 'na bobl gyfeillgar iawn yn y swigen seiclo Gymraeg, a hawdd iawn yw cadw cysylltiad â hwy ar y cyfryngau cymdeithasol. Bob nos Fercher, dwi'n trefnu digwyddiad rhithiol lle mae seiclwyr o Sir Fôn, Penrhyn Llŷn, yn lleol i ni a'r holl ffordd i lawr i Geredigion, Sir Benfro a'r brifddinas yn ymuno â ni.

Mae 'na amrywiaeth eang o gynnwys ar fy mlog. Dwi wedi derbyn cyfraniadau gan rai o'r rhwydwaith yma tuag at gyfres 'Hoff Bump' eleni, lle roedd rhai o'n seiclwyr mwyaf brwdfrydig ni yn dewis a dethol eu hoff leoliadau o fewn y wlad a thu hwnt. Gogoniant cyfres fel hyn oedd gallu ymestyn i gynulleidfa na sydd o reidrwydd yn seiclwyr, ond sydd â diddordeb mewn lleoliadau yng Nghymru. Ceir trafodaeth iach yn flynyddol am y rasys proffesiynol megis y *Tour de France* ac mae dadansoddi'r digwyddiadau dyddiol yn rhoi mwynhad i mi. Mae'r blog wedi agor drysau eraill i mi, a braint bob amser yw cael cyfrannu i raglenni Radio Cymru neu Newyddion S4C i drafod pynciau llosg y byd seiclo. Pan mae'r ysbrydoliaeth a'r cymhelliant yn brin, dwi'n atgoffa fy hun o'r pleser a gaf o gyhoeddi cofnod blog i'r gymuned seiclo Gymraeg a phwysigrwydd ymarfer y grefft o ysgrifennu. Os oes un person wedi dysgu neu fwynhau un peth oddi ar y blog ers i mi'i gychwyn ryw ddwy flynedd a hanner yn ôl, yna mae wedi bod yn llwyddiant.

Yma yng Nghymru, rydym yn ffodus iawn o ddarllediadau blynyddol S4C ac arbenigedd Dewi Owen a Rheinallt ap Gwynedd ar bodlediad *Y Dihangiad*. Byddaf yn fythol ddiolchgar i'r pâr ac i'w cyd-weithwyr ar raglen Seiclo S4C am eu cefnogaeth gyson a hael o'm gwaith. Mae'r ffaith bod trafodaeth am seiclo yn y Gymraeg yn fy llenwi â gobaith am ddyfodol yr iaith.

Yn ystod y clo mawr, bûm yn helpu Mamgu, Enid, i glirio'r atic oedd yn llawn o drugareddau ac eiddo etifeddol fu yno ers degawdau. Ymysg y pethau oedd drymaf i'w cario i lawr oddi yno oedd pentyrrau o hen gopïau o Pethe Penllyn y bu fy Nhaid, y diweddar Dr Iwan Bryn Williams, yn cyfrannu atyn nhw. Mae'r papur hwn yn rywbeth y dylem fel ardal ei drysori, ac yntau'n gofnod gwerthfawr iawn o'n diwylliant a'n hanes. Hir oes i Pethe Penllyn.

# Teyrnged i Glanli Thomas

## Bron Gader, 2 Cader Dinmael, Dinmael



Dyn cefn gwlad oedd Glanli, wedi byw a gweithio yn agos iawn at fyd natur ar hyd ei oes. A'r naturioldeb hwnnw oedd cryfder ei gymeriad. Pryd bynnag y gwelech chi Glanli byddai'n eich cyfarch yn dawel gyda gwên lydan y galon wledig. Arhosodd yr elfen gynnes, dawel yma yn rhan o'i bersonoliaeth i'r diwedd. Roedd Glanli yr un fath bob amser ac ym mhob man. Gellid dweud mai tri pheth oedd yn bwysig yn ei fywyd – ei deulu, amaethyddiaeth a'i filltir sgwâr a'r tri yn annatod glwm yn ei gilydd.

Heb os nac onibai roedd gan Glanli feddwl y byd ohono chi, ei deulu. Cafodd ei eni a'i fagu ar fferm Cwmonnen Llanuwchllyn ac yn y Llan y derbyniodd ei addysg gynradd. Ond yn bwysicach na hynny yn y Llan y cyfarfu â'r un yr oedd am rannu ei fywyd â hi ac yma yn yr Hen Gapel y priodwyd Glanli a Mai, priodas a pherthynas hapus iawn, priodas oedd i bara am saith deg tri o flynyddoedd – y ddau'n amlwg yn deall eu gilydd i'r dim. Oes yn wir. A'r addunedau gymerwyd y diwrnod hwnnw yn nodweddu perthynas Glanli a Mai o'r dechrau i'r diwedd a'u gofal am eu gilydd – er gwell, er gwaeth, yn gyfoethog ac yn dlawd, yn glaf ac yn iach. Ac fe gyfoethogwyd y briodas ymhellach gyda dyfodiad wyth o blant a Glanli yn dad gofalus, caredig a hwyliog a'r aelwyd lle bynnag yr oedd hi yn aelwyd gynnes a hapus. Dyma rai atgofion am y cyfnod hwnnw.

Cefais y fraint ar anrhydedd o gyd-weithio gyda dad ar stad Maesmor am oddeutu ugain mlynedd yn dysgu pob math o sgiliau amaethyddol. Bob bore roedd yn rhaid i dad weiddi arnaf i godi gan fy mod yn rhy hoff o fy ngwely. Ras wedyn i lawr y grisiau i gael brecwast er mwyn dwyn yr hufen o'r jwg llaeth. Atgofion melys o blentyndod yn byw yn Wern Uchaf, yn cael llawer o hwyl yn chwarae rownderi ar y buarth fel teulu nes roedd wedi twllu. Roedd dad wrth ei fodd yn chwarae gêm o gardiau, yn enwedig y 'Black Maria'. Roedd yn gystadleuol iawn ac yn barod iawn i dynnu coes os oedd rhywun yn chwarae yn fudr neu am ei fod wedi llwyddo i hel y triciau i gyd.

Nid dyn bach mohono yn ei ddyddiau pan yn ffermio ac roedd dipyn o waith ei fwydo o ystyried y llafur yn rhinwedd y gwaith. Yn unol â'r drefn arferol roedd mam wedi mynd i'w gwaith ac fel y byddai bob tro yn ei wneud yn gadael cynhwysion iddo baratoi ei ginio, pob dim yn barod ar ei gyfer, Pan ddoth yn amser cinio dim ond un ŵy oedd ar y blât yn aros amdano. Fe fwytaodd yr ŵy yn dawel ond yn meddwl yr un pryd nad oedd wedi cael llawer gan Mam. Y noson honno tra'n eistedd ar y gadair teimlodd un o'r plant rhywbeth rhyfedd tu cefn i'r cwshin a beth oedd yno ond y bacwn oedd i fod i ginio efo'r ŵy. Roedd Trixie y ci bach wedi cael y blaen ar Dad, rhywbeth na fyddai yn digwydd yn aml ac roedd wedi cuddio'r bacwn yno. Typical o dad iddo beidio herio'r cinio ond cario ymlaen yn dawel.

Byddai wrth ei fodd yn ffermio yn ystod yr wythnos ond yn ystod tymor yr haf ar benwythnos yr uchafbwynt iddo oedd gadael y tir glas am y traeth a'r môr. Y drefn arferol byddai ymweld â Morfa Bychan gyda'r teulu i gyd yn eu ceir yn troi fyny. Yn dilyn y chwarae a'r torheulo stopio am swper ar y ffordd adref yn Port, gorchwyl syml oedd yn golygu llawer i bawb ac erbyn heddiw mae'r atgofion hyn yn felys iawn i ni fel teulu.

Credai mewn trosglwyddo y pethau gorau i'w blant, o ran crefft a gwerthoedd, fel y dengys yr hanesyn yma:

Roeddwn yn wyth oed ar y pryd ac eisiau helpu Dad a siŵr braidd wedi bod yn cwyno am ryw hyd! Aeth Dad â fi i ganol cae oedd yn llawn o asgell er mwyn i mi ei dorri! Minnau'n gofyn lle dwi'n cychwyn? 'Wrth dy draed,' meddai ynte. A dyne oedd hi am ddau ddiwrnod, asgell dros fy mhen a finnau yn slafio i'w torri. Y wers gyntaf i mi mewn bywyd – gweithio yn galed a chanolbwyntio ar y dasg . Mae hynny wedi talu yn ôl imi droeon dros y blynyddoedd.

Ac wrth gwrs yr oedd yn union yr un fath fel taid a hen daid. Byddai Taid a Nain wrth eu boddau yn cael mynd allan am ginio yng nghwmni'r wyrion a'r wyresau a threuliwyd oriau difyr yn olrhain hanes teulu oedd yn golygu llawer iddynt, a'r ddau yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau o fewn amrywiol feysydd.

Ac yntau yn ei naw-degau, roedd y croeso i'w gartref ac ar ei aelwyd yr un mor wresog; roedd o'n wirioneddol falch o'ch gweld ac yn rhoi'r teimlad ichi, eich bod yn bwysig yn ei olwg. Roedd o'n sgwrsiwr hamddenol braf, ac yn wrandawr tawel, ac fe deimlech yn well wedi bod yn ei gwmni. Mae gan Gerallt Lloyd Owen gwpled ardderchog am bobol fel Glanli:-

'Rhyw hen rin i'r rhain a roed / i wanwyno eu henoed'.

Diddordeb a dylanwad mawr arall yn ei fywyd wrth gwrs oedd amaethyddiaeth ac yntau wedi bod yn ffermio drwy'i oes – o'r cychwyn yng Nghwmonnen, Dôl Fach a Gwernhefin yma'n Llanuwchllyn i'r Wern a Maesmor yn Ninmael. Roedd yn ffermwr wrth reddf. Roedd yn ddyn defaid ac yn serenu ym myd y defaid Suffolk a derbyniodd ambell alwad i feirniadu mewn amrywiol sioeau ac yn cyfri ei hun yn derbyn anrhydedd o gael ei wahodd fel beirniad. Byddai wrth ei fodd yn mynychu unrhyw sioe amaethyddol ond y ddwy sioe olygai fwya iddo oedd Sioe Bettws a Sioe Cerrig. Un o uchafbwyntiau mawr ei fywyd oedd cael bod yn Llywydd Sioe Cerrig. Yn 62 mlwydd oed ymddeolodd o Maesmor ond yn fuan wedyn cafodd gynnig swydd yn Amaethwyr Corwen – swydd ddelfrydol I ddyn pobl a sgwrsiwr fel Glanli a bu yno am sawl blwyddyn. Cafodd lawer o hwyl a gwnaeth lawer o ffrindiau a rheini yn ffrindiau oes. Roedd ganddo feddwl y byd o'i gyd weithwyr yn Amaethwyr Corwen a byddai yn chware whist gyda merched y swyddfa ac eraill yn ystod amser cinio a byddai yn dysgu'r triciau i gyd iddynt. Un tro aeth a nyth o lygod bach ir swyddfa nes bod Maria yn sgrechian dros y lle. Bu hefyd yn gofalu am gyfnod am ganolfan Amaethwyr Corwen yng Ngherrigydrudion, swydd arall oedd wrth ei fodd a chyfle I sgwrsio a phobl Uwchaled.

Roedd gan Glanli hefyd feddwl mawr o'i filltir sgwar ac er nad oedd Glanli yn wr cyhoeddus, yn wir yn swil o ran ei natur, roedd yn weithgar iawn yn ei gymuned. Bu'n lywodraethwr ar yr ysgol ac yn aelod o'r cyngor plwy. Yr un tawelwch bonheddig a welsoch chi ar yr aelwyd a welech chi hefyd yng nghyfarfodydd Llywodraethwyr yr Ysgol ac ym mhwyllgorau y Cyngor Plwy'. Ond roedd o'n aelod gwerthfawr o'r sefydliadau hyn oherwydd ei fod yn ddylanwadwr tawel. Fe arhosai'n amyneddgar yn gwrando ar ambell aelod yn bytheirio'n huawdl. Ac yna yn ei amser ei hun, fe fynegai ei farn yn dawel a phwyllog, a hynny'n aml, yn llawer mwy effeithiol na'r lleisiau uchel. Roedd Glanli'n cael dylanwad yn dawel bach. Ond fel pob aelod arall fydda fo ddim yn iawn bob tro, ond byddai'n ddigon gostyngedig i dderbyn hynny heb rwgnach. Roedd o'n gefnogwr brwd a chyson i bob gweithgaredd yn y gymuned, y capel ac wrth ei fodd yng nghyfarfodydd y WEA a'r Ysgol Nos.

Un diddordeb arall oedd gan Glanli oedd peldroed ac er gwell er gwaeth roedd o'n Evertonian. Arwyddair y clwb hwnnw ydi 'Nil satis Nisi Optimum – 'dim ond y gora wnaiff y tro.' A dwi'n credu ei fod yr un mor addas fel arwyddair I fywyd Glanli – yn y cyfan a wnaeth – fel gwr, tad, taid a hen daid, fel ffrind a chymydog fe wnaeth ei orau, fedrwch chi ddim gwneud dim mwy na hynny.

Deulu annwyl dwi'n cydymdeimlo a chi yn eich profedigaeth o golli un oedd mor annwyl ac arbennig yn eich golwg. Mae colli un o'n hanwyliaid yn golled sy'n brifo dim ots pa bryd mae hynny'n digwydd. Mae yna fwlch, mae yna hiraeth ond dwi'n sicr y bydd y llu atgofion hapus sydd gennych amdano yn eich cynnal a'ch cysuro yn ystod yr amser anodd yma.

Mae galar yn daearu – yn ei dro  
Gan droi yn hiraethu,  
A hiraeth yn tyneru  
Yn ail-fyw yr hwyl a fu.

Parchedig Huw Dylan Jones a John Eric Hughes

## DIOLCH

Dymuna Mai a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, taid a hen daid annwyl iawn. Diolch i'r Parchedig Huw Dylan Jones am arwain y gwasanaeth ac i'r Brodyr Evans am eu trefniadau. Casglwyd £1500.00 er cof am Glanli sydd i'w rannu rhwng Ymchwil Cancr a Chapel Dinmael. Diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad a dderbyniwyd.

# *Teyrnged i Bob Dolhendre*

**Robert Hugh Roberts , 12.5.31 – 22.9.20**



Bob Cefn Prys neu Bob Dolhendre – cymeriad unigryw iawn oedd gan Bob, yn ddyn hwyliog a thynnwr coes heb ei ail, yn ffeind a chyfeillgar, gallu gwneud ffrindiau yn rhwydd iawn – a gelynion hefyd ar adegau. Yn dad, taid a hen daid gwerth chweil. Tad sydd wedi gofalu yn dda am y tri phlentyn Dilys, Gwyn a Meirwen o'r dechrau cyntaf, yn ein dysgu i wrando a pharchu eraill – er ychydig yn galed a hen ffasiwn ei ffordd efallai. Roedd trefn yn y cartref o orfod 'gwrando' a pharchu mam a dad. Os oedd Bob yn dweud 'na' yna 'na' fyddai hi.

Doedd dim ffys na helynt o'i gwmpas, dyn plaen, yn ei dweud hi fel roedd hi – pwy bynnag fyddai yn gwrando ar yr ochor arall. Roedd yn berson 'di-flewyn ar dafod' ac mae ambell un yn dyst i hynny. Roedden ni i gyd yn ymwybodol iawn o pwy oedd yn ei blesio neu ddim yn ei blesio yn wythnosol hyd y diwedd.

Colled fwyaf ei fywyd oedd colli ei gariad, ei ffrind a'i wraig annwyl Beryl – a bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un greulon a chaled iddo. Roedd yn hiraethu amdani bob dydd, a'r golled drom wedi torri ei galon, ac wedi tynnu'r sbarc ddireidus o'i lygaid. Gofalodd yn dyner amdani hyd y diwedd, ac roedd hyn wedi bod yn straen emosiynol anferthol arno.

Rydym i gyd wedi adnabod a chlywed am ei ddoniau lu – amaethwr, coedwigwr, naturiaethwr, pysgotwr, areithiwr, doctor answyddogol, hanesydd, peiriannydd, crefftwr coed, adeiladwr, ffensiwr, saer maen, waliwr, torrwr gwrychoedd, cogydd – prif wneuthurwr stwffin Dolig Dolhendre bob blwyddyn , 'hair dresser' – bu'n torri gwalltiau ffrindiau a'r teulu am sawl blwyddyn, hynny yw – roedd yn gallu troi ei law at lawer o bethau. Doedd dim byd na fyddai yn drio ei drwsio, hogi neu wneud.

Mab hynaf teulu Cefn Prys ydoedd, ac yn cymryd y rôl honno gydag arddeliad, yn rhoi cyngor iddynt petaent ei angen neu beidio. Yn frawd a brawd yng nghyfraith triw i John a Ceri, Kate ac Emrys, Bill a Megan, Richard a Jean, Hefin, Dei ac Ann, Bronwen a'r diweddar Wil.

Cafodd ei eni yn y llofft gefn yn Ty'n Bwlch, Penantlliw ar 12fed o Fai 1931, mab i Jane Williams, Ty'n Bwlch a Trebor Roberts oedd yn hanu o Benffridd, Llandderfel. Yr hynaf o 7 o blant, buont yn byw i ddechrau yng Nghefn Porfeydd, Penantlliw, Llanuwchllyn, fferm fechan ddeg acer, chwarter milltir o Ty'n Bwlch. Fe ddechreuodd 'grwydro' yn ddwy a hanner oed yn ôl at ei daid a'i nain i Ty'n Bwlch, ac mae'n cofio ffrae fawr gan ei fam am wneud ffasiwn beth ar lwybr peryglus.

Cyfnod caled iawn oedd hi ar amryw ar ddechrau'r tridegau a'i dad yn was yn Trawsgoed ac arian yn brin. Does ryfedd i Bob fod yn ofalus iawn gyda'i arian ar hyd ei oes, wedi cael ei fagu i fod yn ofalus. Bu'n adrodd ei hanes droeon yn cerdded 'nôl a mlaen adref o'r ysgol ymhob tywydd, tair milltir un ffordd lawr i'r ysgol yn Llanuwchllyn ac adref i weithio wedyn. Erbyn hyn roedd ei dad yn was fferm yn Nantydeilie. Yna symudodd y teulu i Fwlch yn Horeb, Caletwr.

Blynyddoedd hapus iawn yn y Bwlch ac ymhen amser symud i Fedw yn Llanycil ac yntau wedi ymadael o'r ysgol erbyn hyn, ac yn derbyn cyfrifoldeb edrych ar ôl y fferm ei hun yn 14eg oed, nes oedd ei rieni a'r teulu wedi symud ato i'r Fedw. Bu cyfnod anodd pan fu ei dad yn wael ac angen i'r meibion edrych ar ôl y fferm a rhoi cymorth i'w fam. Symudodd y teulu i Gefn Prys, Llanuwchllyn. Bu'n gweithio gyda chymdogion a ffermydd eraill o'i gwmpas a chreu cyfeillion a ffrindiau da. Roedd wrth ei fodd yn mynd ar ei fotor beic gyda'i ffrindiau Ned yr Eagles a Huw Fondro. Mae dipyn o straeon a hwyl i'w gael am yr amser yma, does wybod ble i'w ffeindio yng Ngogledd Cymru.

Ond daeth tro ar fyd – er y gorau, bu iddo gyfarfod â merch Tomos a Gwladys Williams, Dolhendre, Beryl a oedd yn ferch hardd, dal a gosgeiddig. Priododd y ddau ar 23 Hydref 1957 yn yr Hen Gapel a pharhau'n gariadol ffyddlon. Byw gyntaf yn Nolhendre lle ganwyd Dilys, cyn iddynt symud wedyn i Ffridd Helyg a Gwyn a Meirwen yn dilyn yno. Roedd yn aelwyd weithgar, hapus a chariadus iawn, llawn hwyl a chwerthin.

Yn ganolog i'r holl fywyd a gweithgareddau roedd Capel Carmel. Byddai Marged, Craig y Tân yn gwneud yn siŵr fod plant yr ardal i gyd yn yr Ysgol Sul. Roedd Marged Craig y Tân a Bob dipyn o 'fets' a hi oedd yn cerdded gyda Bob gyntaf am yr ysgol i Llan. Cymuned agos a gweithgar, pawb yn adnabod ei gilydd, yn barod i helpu unrhyw un oedd angen ar y ffermydd, a Bob bob amser yn barod ei gymwynas.

Cafodd waith gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, bu'n cydweithio gydag amryw - tua 39 ohonynt yn gweithio yn ardal Penllyn ar un pryd, ac roeddent yn weithwyr caled ac yn cael hwyl hefyd drwy weithio allan ymhob tywydd.

Wedi blynyddoedd hapus yn Ffridd Helyg, symudodd Bob a Beryl yn ôl i ffermio yn Nolhendre, wrth i Tomos a Gwladys Williams ymddeol i Faes y Pandy. Wedi rhai blynyddoedd hapus o ffermio a Bob yn gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, symudodd y ddau i Bryn Rhyg, Cae Croes, Y Bala. Roedd Bob a Beryl ddigon ifanc i setlo yn y Bala, y ddau yn parhau i weithio a chymdeithasu.

Erbyn diwedd ei yrfa gyda'r Coedwigaeth roedd wedi cael dyrchafiad i fod yn 'Timber Dispatcher' yn ardal Dolgellau, Trawsfynydd, Celyn ac Aber Hirnant. Mwyhaodd weithio i'r Comisiwn Coedwigaeth tra yn parhau i fynd i Ddolhendre bod bore Sadwrn. Roedd yn parhau a diddordeb mawr mewn unrhyw fuddsoddiad ar gyfer y fferm.

Dyn ei filltir sgwâr oedd Bob. Dim yn un am drefeillio yn bell o'i gartref oni bai mynd ar drip Cae Lloi gyda Beryl. Cawsant aml i drip hwyliog, creu ffrindiau da o Sir Fôn i Gorwen ar y tripiau yma. Byddent yn mwynhau mynd dros Ewrop i Ffrainc a Sbaen. Mwynhaodd ei dripiau 'NFU' gydag amaethwyr ardal Cerrigydrudion, i Ffrainc, Iwerddon a'r Alban ac ar draws Prydain gan gael llawer o hwyl a gwneud ffrindiau da.

Wrth ei fodd yn yr ardd a garddio – treuliodd flynyddoedd yn trin a thyfu pob math o lysiau a ffrwythau. Hyn wedi mynd yn drech nag o eleni, ond yn dal â thomatos a chiwcymbr yn y tŷ gwydr. Dipyn o giamstar ar ei 'sgota' ac wedi dysgu amryw.

Bu'n perthyn i'r criw ROC y Bala, y 'Royal Observers Corp' – oedd yn cyfarfod yn wythnosol ar dop Penlan.

Roedd wedi mynd yn fwy caeth yn ystod y flwyddyn diwethaf gyda chyfyngiadau Covid dros y wlad. Methu hyd yn oed fynd i'r siop i nol ei bapur a nwyddau a chael ambell sgwrs tu allan i'r Co-op. Roedd yn ddibynnol iawn ar Meirwen, Dilys a Lowri i gario nwyddau iddo. Byddai'n mwynhau eistedd yn yr ardd a disgwyl cael sgwrs gan hwn a'r llall fyddai'n pasio ar hyd y stryd neu o'r stad dai. Sgwrs bob bore gyda Bronwen ar y ffôn i roi'r byd yn ei le – neu rannu newyddion. Mae'n diolch fel plant i bawb wnaeth barhau i fynd i'w weld. Roedd wrth ei fodd yn clywed hynt a helynt pawb ac yn ymffrostio fod ganddo deulu mawr, 13 o wyrion a wyresau, a 15 o or-wyrion a gor-wyresau.

Diolch iti dad, taid, brawd a brawd yng nghyfraith am fod mor annwyl a chariadus. Diolch am ei gymeriad. Fydd dim un tebyg iddo. Am y gofal tyner, am ei gyngor ac arweiniad parod ar hyd y blynyddoedd ac am y sgwrs ddiddorol a hanesion fyddai ganddo o hyd, roedd ganddo gof anhygoel. Bydd hiraeth mawr amdano a gwagle aruthrol yng nghalon y teulu. Mae o rŵan wedi cael ei ddymuniad o fod gyda Beryl, ei gariad, ei bartner gydol oes, ei fywyd. Dwy galon, un cariad.

MARWOLAETH

## Margaret Pyle

(Jones Pugh gynt)

26 Mai 1934 – 16 Ionawr 2021

Ar ôl salwch byr trychinebus (sepsis), bu farw Margaret yn ysbyty York ddydd Sadwrn 16 Ionawr 2021.

Gadawodd ei gŵr Ian; ei phlant Elisabeth, John, David a Kate; ei hwyrion a'i hwyresau Will, James, Lauren, Isabelle, Tom a Dan, a'u holl deuluoedd.

Gwraig annwylaf, ddisglair, wresog, yn llawn hwyl, bywyd a chariad; mam dyner, ddoeth, orfoleddus; a nain lawen, hael, garedig, gyfeillgar: cyflwynwn hi draw i gefnfor tragwyddoldeb. Craig yr oesoedd fydd ei chân.

Bu cynhebrwng teuluol yn York ar 15 Chwefror 2021.

# Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd

*Dyddiadur 2020*




Flwyddyn yn ôl roedd dyddiadur CFfI yn llawn digwyddiadau ac roedd pob aelod yn edrych ymlaen am flwyddyn o gystadlu a chymdeithasu. Ond nôl ym mis Mawrth gyda Covid-19 yn ein taro, roedd rhaid i glybiau stopio cyfarfod yn wythnosol wyneb yn wyneb, yn bu'n rhaid canslo digwyddiadau yn nyddiadur y Sir. Er hynny bu'n rhaid bwrw ymlaen â'r trefnu a'r cyfarfodydd, ond y tro yma dros y we.

Fis Ebrill mentrodd y clybiau ar Zoom a chynhaliwyd cwis wythnosol, braf oedd gallu cadw cysylltiad gyda'r aelodau dros yr amser heriol yma.

Gan nad oedd posib cynnal ein Rali Sirol, cafwyd Rali Rithiol, gydag un gystadleuaeth wahanol ymlaen am 6 wythnos. Roedd y cystadlaethau yn amrywio o ffotograffiaeth, unrhyw eitem crefft allan o bapur toiled, coginio unrhyw beth yn defnyddio ŵy a llawer mwy. Mae holl luniau y cystaldaethau ar ein tudalen faecbook. Maent werth eu gweld!

Oherwydd nad oedd Sioe Fawr ym mis Gorffennaf, penderfynodd Anna Prysor ein cadeirydd Sir gerdded cyfanswm y milltiroedd o'i chartref i faes y Sioe o fewn wythnos, a hynny yn ardaloedd clybiau Meirionnydd, cyfanswm o 86 milltir! Ar y diwrnod cyntaf cerddodd o amgylch ardal Maesywaen a hynny yng nghanol glaw trwm a chael blistar drwg! Ar yr ail ddiwrnod aeth o amgylch ardal clwb Prysor ac Eden a cherdded yr hen reilffordd ac ymlaen o amgylch llyn Trawsfynydd gan orffen y diwrnod wedi cerdded dros 17 milltir [gweler isod]. Ar y trydydd diwrnod bu'n cerdded yn ardal Cwmtirmynach, gan fynd ar goll ynghanol mynydd ond llwyddodd i ddod o hyd i neuadd Mynach yn y pen draw. Yna ar y pedwerydd diwrnod bu'n rhaid i Anna wynebu llethrau Bwlch y Groes gan gerdded o ardal clwb Glannau Tegid yr holl ffordd at gynefin clwb Dinas Mawddwy. Roedd y tywydd yn werth chweil y diwrnod yma, a golygfeydd braf yr holl ffordd. Gorffennodd y diwrnod yn Y Llew Coch Dinas Mawddwy. Roedd yn haeddu diod i dorri syched! Ar y pumed diwrnod bu Anna yn ardal Bryncrug, a gyda diwedd y daith o fewn gafael roedd pob penglin a chyhyr yn boenus iawn felly roedd pawb yn drewi o deep heat y diwrnod yma! Llwybr Mawddach oedd yn wynebu Anna a'i chriw ar ei diwrnod olaf, yn ardal clybiau Ardudwy a Dolgellau. Y tro yma roedd gan Anna gwmni gwahanol iawn, sef Gerallt Pennant a chriw Heno yn ei ffilmio yn cwblhau'r daith. Do wir, cwblhaodd Anna gamp enfawr a chodi £2,223 gan rannu'r swm rhwng CFfI Meirionnydd a Sefydliad y DPJ. Rydym fel mudiad yn ei llongyfarch yn fawr ar ei champ.




Gyda mis Medi rownd y gornel roeddem yn gobeithio dechrau blwyddyn CFfI gan gyfarfod wyneb yn wyneb. Ond gyda rheolau llym roedd rhaid cynnal ein cyfarfod blynyddol dros *Zoom*. Cyfarfod gwahanol iawn ond llwyddiannus, a braf oedd gweld yr aelodau yn awyddus iawn i ddal ati er gwaethaf y sefyllfa.

Ers hynny, rydym wedi cael sawl noson ddifyr dros *Zoom*. Diolch am dechnoleg! Ddechrau Hydref cawsom noson gan Steffan Hari, Glain Rhys a Steffan Prys, gan wrando ar eu hanes yn canu a chael y cyfle i fod yn rhan o'r *West End*. Yna ym mis Tachwedd cawsom noson yng nghwmni sêr *Ffermio* gyda Meinir Howells ac Alun Elidyr yn trafod eu bywyd bob dydd ar eu ffermydd yn ogystal â gweithio gyda'r rhaglen deledu. Dros y Nadolig cawsom noson gan swyddogion y sir, sef noson hwyl y Nadolig gyda phawb yn gwisgo'n Nadoligaidd a cwis hwyliog iawn! *Cyswllt Ffermio* a theulu Rhiwaedog ddaeth i gadw noson inni ddechrau'r flwyddyn, noson ddiddorol iawn gan drafod eu gwaith bob dydd ar y fferm yn ogystal â chydweithio gyda *Chyswllt Ffermio*. Cofiwch fod y nosweithiau yma yn agored i bawb, mae gennym noson yng nghwmni elusen *Tir Dewi* ym mis Chwefror, a noson gŵyl Ddewi gyda choginio yng nghwmni *Hybu Cig Cymru*. Os oes gennych ddiddordeb ymuno yn y nosweithiau yma, mae'r holl wybodaeth ar ein tudalen facebook, Instagram neu snapchat, neu mae posib ichi gysylltu a'r swyddfa ar e-bost os am fwy o wybodaeth – meirionnydd@yfc-wales.org.uk. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cadw noson inni hyd yma.

Cyn y Nadolig fe wnaethom ni fel mudiad greu cyngerdd rhithiol. Y syniad oedd anfon copi o'r cyngerdd allan i gartrefi gofal/henoed ac i bobl oedd yn unig dros y Nadolig, a hynny er mwyn codi calon. Diolch yn fawr iawn i *Pontio Cenedlaethau Gwynedd* am blannu'r syniad ac am rannu'r cyngerdd. Cafwyd cyngerdd gwerth chweil gan ein haelodau a swyddogion sir. Os nad ydych wedi cael y cyfle i weld y cyngerdd ewch draw ar *You Tube – Cyngerdd Rhithiol CFfI Meirionnydd*, neu mae posib ei weld ar dudalen *facebook* y Sir. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb gymerodd rhan a dangos talent CFfI Meirionnydd ar ei orau.

Rydym yn wynebu blwyddyn heriol arall ond rydym ni fel Mudiad yn dal i gredu ac yn edrych ymlaen yn arw i fedru cyfarfod wyneb yn wyneb yn fuan iawn!

awen meirion
25 STRYD FAWR, Y BALA,
GWYNEDD, LL23 7AG
☎(01678) 520658
siop@awenmeirion.com
LLYFRAU,
CASETIAU, DISGIAU, FIDEOS,
CRYSAU 'COWBOIS',
DEWIS DA O GARDIAU
AT BOB ACHLYSUR
AR AGOR LLUN-SADWRN
9.00-5.30
GALWCH DRAW

J. OSWYN ROBERTS
Parc, Bala, Gwynedd LL23 7YW
CONTRACTWR AMAETHYDDOL
TARMACIO
CYFLAWNI A CHODI SIEDIAU
PEIRIANNEG SIFIL
GWAITH CONCRIT GWAITH TIR
PEIRIANNAU TURIO 1½–13 TUNNELL
☎01678 540510 / Mob. 07889929643

D.H. JONES
Cyf.
Garej Rhandir
Yst. Ddiwydiannol
Y Bala
am wasanaeth gwerthu, trwsio a darparu darnau ar gyfer peiriannau Husqvarna, Stihl, Lister ac eraill
☎01678 520666

Celfi Penllyn
76 Stryd Fawr
Y BALA
Gwynedd
01678 520291
Eich holl anghenion ar gyfer y tŷ
celfi, offer cegin,
paent, dillad
ac yn y blaen

STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Wales REMOVALS
www. midwalesremovals.co.uk
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr — Wedi'i wresogi
Siop ar-lein: www.boxshopsupplies.co.uk
Bocsys a 'bubblewrap' ar lein
Ffôn: 01654 703592
www. midwalesrorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth,
Powys SY20 8BQ

# Teyrnged i Aerwyn Garth Jones
## gan y Parch Huw Dylan Jones



Dyn ei filltir sgwâr oedd Aer ac nid rhyfedd hynny gan fod y cyfan oedd o werth iddo mewn bywyd o fewn y filltir sgwâr honno.Yma yn erwau Gellioedd yr oedd ei wreiddiau, yma yr oedd ei deulu ac yma y bu'n byw ac amaethu drwy'i oes.

Ganwyd Aerwyn Garth Jones ar yr 2il o Hydref 1937 yn Hendre Garth Meilio, Llangwm, yn fab cyntaf i John Morris ac Eirwen Jones. Ganwyd Eilir bedair mlynedd yn ddiweddarach, yna Heulwen a'r cyw melyn olaf, Gwawr. Symudodd y teulu i Aeddren Isa' pan oedd Aer tua tair ar ddeg mlwydd oed. Aeth i ysgol Llangwm, i Ysgol Ramadeg Llangollen lle bu'n lojio yn nhŷ dwy hen ferch efo Gerallt ei gyfaill ac yna i Goleg Llysfasi am flwyddyn cyn dod adre i ffarmio efo'i dad yn Aeddren. Ymunodd Eilir a'r fferm a bu'r ddau yn ffermio fel AG & EL Jones hyd y diwedd efo'u meibion Llŷr a Bedwyr. Roedd Aer ac Eilir yn frawdoliaeth yng ngwir ystyr y gair ac er nad oeddynt yn cytuno bob tro fuo na rioed ffrae o unrhyw bwys rhyngddyn nhw.

Mae'r berthynas rhwng y ddau deulu hefyd wedi bod yn glos iawn ac mae'r plant wedi hen arfer cael eu holi, 'Plentyn pa un wyt ti?' ... ac wedi bod yn fwy fel brodyr a chwiorydd na chefndryd.

Rhaid dweud ei fod wedi teithio'n bell iawn i ffeindio gwraig, yr holl ffordd o Aeddren i'r Henblas. Y dêt cyntaf gyda Bet yr Henblas (neu Margaret Elizabeth Mary Jones i roi ei theitl llawn iddi) oedd yn Sioe Gŵn Llangwm er fod Aer yn honni iddo ofyn iddi ei briodi yn Ysgol Llangwm. Priododd Aer a Bet yng Nghapel Gellioedd ar 16eg Tachwedd 1963 priodas oedd i bara am 57 o flynyddoedd a'r ddau yn deall ei gilydd i'r dim.

Ar ôl priodi aethant i fyw i Aeddren Ucha'ac yno y buont am bron i ddeugain mlynedd gan fagu pump o blant, sef Gwennol, Llŷr, Eurgain, Undeg ac Ynyr. Cawsant fagwraeth cwbl Gymraeg a Chymreig gyda phwyslais mawr ar gapel Gellioedd, Adran ac Aelwyd yr Urdd a'r diwylliant Cymreig.

Cafodd Aer a Bet 14 o wyrion a wyresau – Mabon, Cai, Siriol, Siwan, Gwern, Carwyn, Owain, Elin, Heledd, Garmon. Morus, Marged, Elis a Gwil. Roedd yn gwirioni arnynt i gyd ond cymysgu eu henwau (yn union fel efo'i blant ei hun!)

Mae'r wyrion hynaf yn cofio mynd i Aeddren ac yn rhyfeddu o weld Taid yn yfed ei baned allan o soser a phawb eisiau gwneud yr un peth. Roedd gan Taid Aer blât sbesial (un mawr) ac roedd yn syndod lle roedd y mynydd o fwyd yn diflannu! Bydd Garmon, Morus, Marged a phob un o'r wyrion yn cofio amdano yn cysgu ar ôl bwyta ei ginio Sul neu ginio 'Dolig anferthol a hyd yn oed wedyn yn gofyn – 'Be sy ne i swper?'

Weithiau roedd taid yn methu credu anwybodaeth ei wyrion am eirfa ffarmio. Yn ddiweddar aeth yn gynnar i Aeddren gan ofyn i Carwyn "Sut mae'r swynog erbyn hyn? Llwynog? Lle welsoch chi lwynog? Na Swynog. Ar ôl iddo ail adrodd ei hun droeon mi ddalltodd Carwyn. Roedd taid wedi gwaredu'n llwyr. Roedd ganddo ddiddordeb byw yn eu bywydau ac wrth ei fodd yn clywed am eu swyddi a'u gyrfaoedd amrywiol.

Roedd yn meddwl y byd o'i ardd yng Ngarth Gwyn a sawl un wedi ei helpu i chwynnu er i Owain dynnu ei nionod mewn camgymeriad! Roedd taid yn arbennig o falch o garedigrwydd a gofal Owain, Elin a Heledd ac Alun o Eurgain annwyl cannwyll ei lygaid.

Mae Siwan, Gwern a Siriol wedi treulio cyfnod yn gweithio yn y Badell Aur. Roedd shifft bore dydd Sadwrn yn golygu gweini ar griw'r Seiat sy'n yfed coffi. "Cerddai taid i mewn yn hwyrach na'r lleill ar ôl ei ymweliad dyddiol i Aeddren. Y cwbl oedd i'w weld o du ôl i'r ffriars oedd top ei gap stabal yn mynd at y bwrdd a Taid yn gweiddi a chwifio ei law Reit pwy sydd am baned? Fy rownd i ydi hi. Roedd hwyl a chwerthin y criw yn llenwi'r lle a Taid yn cael croeso cynnes bob tro er fod yn rhaid i ni gadw yn ddigon pell i ffwrdd rhag ofn i ni sbwylio ei hwyl o."

Edrychodd Bet ar ei ôl fel brenin ar hyd ei oes ac roedd wrth gwrs wrth ei bodd yn gwneud hynny. Rhaid oedd pacio picnic ar gyfer pob taith yn y car i ofalu fod ei lefelau siwgr yn iawn efo'r diabetig.

Symudodd Aer a Bet i fyw i Garth Gwyn Llangwm yn 2002. Yno roedd wrth ei fodd yn garddio, crwydro ac ymddiddan gyda'i gyfeillion yn y Llan ac fe gâi sgyrsiau hir ar y ffôn gyda'i gyfeillion.

O fewn ei filltir sgwâr hefyd yr oedd ei alwedigaeth – crefft hynaf dynol ryw. Ffermwr traddodiadol Cymreig ydoedd a Defaid Mynydd Cymreig oedd yn mynd a'i fryd. Trefnid popeth o fewn y teulu o gwmpas seli hyrddod, wyna a chynhaeaf.

Yn ei filltir sgwâr hefyd yr oedd ei gymuned a bu Aer yn un o gewri'r gymuned honno ar hyd ei oes a'i gyfraniad iddi yn amhrisadwy.

*Ydoedd i fro'i dreftadaeth*
*Yn ffrind mor deyrngar a ffraeth*

Roedd yn aelod ffyddlon o gôr meibion Llangwm, yn un o hoelion wyth y côr a bu'n llywydd am flynyddoedd. Bob nos Lun deuai'r gri, "Bet, lle mae'n syrcyn i?' ... a rhyw bum munud cyn cychwyn, 'Bet lle mae'n nghopi i?' Bu'n arwain y cyngherddau am flynyddoedd gyda'r ddawn o fedru adnabod cynulleidfa a deall beth oedd yn addas ar eu cyfer. Mae aelodau'r côr yn cofio amdano efo'i wên gynnes a'i chwerthiniad direudus yn cael cynulleidfaoedd i rowlio chwerthin wrth drio dweud jocs. Roedd ganddo ddetholiad ohonynt wedi eu hysgrifennu ar gerdyn plaen gwyn. Ond dawn Aer i'w dweud nhw yn hytrach na'r jôc ei hun oedd i gyfrif am yr hwyl yn aml. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd yn dweud joc yn Saesneg. Byddai'n gofyn i gychwyn, 'Is there any of you who do not understand the language of heaven?' ... ac yna hanner ffordd trwy'r joc yn troi at y côr a gofyn, 'Be ydi tŷ gwydr yn Saesneg dwed?'

Roedd Capel Gellioedd yn agos iawn at galon Aer trwy gydol ei oes ac roedd yn flaenor fel ei Dad o'i flaen. Bu hefyd yn athro ysgol Sul am flynyddoedd. Un o uchafbwyntiau ei flwyddyn oedd canu carolau ar Noswyl Nadolig efo'i gyd aelodau. Aer oedd yng ngofal y pot casgliad, handbag coch, presant priodas gan dad David Griffiths Y Plas iddo fo a Bet. Yn aml byddai Aer yn dal i sgwrsio yn y tŷ blaenorol tra roedd y cantorion wedi gorffen canu yn y tŷ nesa.

Diddordeb mawr arall Aer oedd Gwleidyddiaeth ac roedd y bleidiwr i'r carn. Roedd wrth ei fodd yn gwylio *BBC Parliament* ac yn gwaredu at y ciamocs yn San Steffan ac America. Roedd canlyniad y bleidlais Brexit yn loes calon iddo.

Yn y blynyddoedd diwethaf un o'i bleserau mawr oedd y sgyrsiau boreol efo'r criw yn y Badell Aur. Does wybod beth oedd testun y sgwrs – pob peth a phob dim mae'n debyg. Roedd yn sicr yn falm i'r enaid ac yn gwneud lles mawr iddo.

Roedd yn aelod ffyddlon o Glwb Cemig a chefnogai bob digwyddiad a gynhelid yn y Gorlan Ddiwylliant. Bu'n aelod o'r Cyngor am flynyddoedd lawer ac yn Llywodraethwr a Chadeirydd y Llywodraethwyr Ysgol Llangwm ac roedd edrych ar ôl buddiannau ei gymuned a'r iaith Gymraeg yn holl bwysig iddo.

Gŵr oedd yn drysor ac yn olud i'w fro. Yn ei lythyr o gydymdeimlad dywedodd y Parch Elfyn Richards, 'Y deyrnged orau fedrwn ni ei roi iddo fydd parhau i fod yn deyrngar i'r PETHAU,' ... y pethau hynny oedd mor bwysig yn ei olwg.

Ia, dyn ei filltir sgwâr oedd Aer ac fel y dywedodd wrth Eilir Rowlands, ychydig amser yn ôl ger mynwent Gellioedd "Fanma fydda i 'sti yn wynebu Aedderen,' – ac er y tristwch a'r chwithdod ein braint a'n dylestwydd ni yw cydymffurfio â'i ddymuniad.

*A phan ddaw'r dyddiau olaf*
*I grwydro ffridd a dôl*
*Y caiff fel ei ddymuniad*
*Gael mynd i'w phridd yn ôl.*

*Dymuna Bet, Gwennol, Llŷr, Eurgain, Undeg, Ynyr a'u teuluoedd, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Aer; gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl iawn. Diolch yn fawr i'r Parch Huw Dylan, Peredur Roberts, Aled Jones, Carol Wynne a'n cymdogion am eu gwasanaeth ar ddiwrnod yr angladd. Bu'r holl gardiau, llythyrau a galwadau ffôn yn gysur mawr i'r teulu ar adeg anodd pan nad oedd modd derbyn ymwelwyr oherwydd cyfyngiadau. Rydym hefyd yn ddiolchgar i bawb a ddaeth i dalu teyrnged i Aer trwy sefyll ar y Llan ac ar hyd y ffordd i Gellioedd. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau ariannol er cof am Aer. Bydd £2,800 yn cael ei drosglwyddo i Gofal Dydd Capel Y Waen.*

# O Dyddyn'ronnen i LA ac i Lanelli

*taith Elain Edwards Dezzani, cyflwynydd newydd Heno*




Elain Edwards Dezzani yw'r aelod diweddaraf i ymuno â chriw cyflwyno *Heno*. Bydd Elain, gynt o Ddyddyn'ronnen, Llanuwchllyn, ond sydd nawr yn byw gyda'i theulu yn y Bontfaen, yn wyneb cyfarwydd i rai gwylwyr ers ei chyfnod fel cyflwynydd ar *Planed Plant* bymtheg mlynedd yn ôl.

Yn dilyn hynny, fe symudodd Elain i Los Angeles, ble gweithiodd fel cyflwynydd, golygydd trêls a thechnegydd colur, yn ogystal â magu ei thair merch. Daeth Elain a'r teulu yn ôl i Gymru llynedd, ac mae hi bellach wedi dechrau ei swydd newydd fel cyflwynydd *Heno*, tra bod y cyflwynwyr Mari Grug a Llinos Lee ar gyfnod mamolaeth.

Tra yn LA, roedd Elain yn gyflwynydd am rai blynyddoedd ar sianel *Current TV* a sefydlwyd gan Al Gore. Wedi i'r sianel ddod i ben, fe aeth ymlaen i weithio fel technegydd colur i sawl un oedd yn cerdded ar y carped coch, gan gynnwys ei chefnder, yr actor Matthew Rhys. Roedd Matthew yn byw yna'n barod, meddai, ac roedd o'n braf iawn cael rhywun roeddwn i'n 'i nabod yno. "Roedd o fel brawd mawr i mi a buom yn gweld ein gilydd yn amal." Trwyddo fo, fe ges i gwrdd â Tom Hanks a chael cwtsh ganddo – un o uchafbwyntiau fy ngyrfa!'

Roedd Elain yn hapus iawn yn LA, ond ar ôl cael plant teimlai'r ysfa i ddod yn ôl i Gymru i'w magu mewn cymdeithas sy'n ennyn daliadau cryf ac felly dyma benderfynu symud adre. "Ac yn syth bin ar ôl symud i'r Bontfaen, roeddet ti'n teimlo bod y gymuned yno yn edrych ar dy ôl, a doedd hynny ddim yn rhywbeth oeddet ti'n ei gael yn LA," meddai.

# *Teyrnged i Dei Peters,*
## *Tŷ-Nant, Rhyduchaf gynt*



Ganwyd David Evan Peters neu Dei i'w deulu a'i ffrindiau yn Tŷ-Nant Rhyduchaf a y 13eg o Fehefin 1948, yn fab i'r diweddar Morris a Margaret Peters. Pan oedd yn bump oed collodd ei fam, a hynny ychydig cyn y Nadolig. Bu hon yn ergyd drom iddo, ac er y gofal gan weddill y teulu, cafodd drafferth i ymdopi a'r golled fawr honno.

Mynychodd Ysgol Gynradd Maesywaun, cyn mynd i'r ysgol yn y Bala. Doedd o mwy na finne yn hoff iawn o'r ysgol yn y dre, ac yn ysu am fynd yn ôl i dawelwch cefn gwlad.

A dyna wnaeth Dei, dychwelyd i Tŷ-Nant i weithio yn galed, carthu beudai, brwshio'r buarth yn ddiddiwedd, a glanhau manjeri y gwartheg. Yn wir roedden nhw mor lân, fel medre chi fwyta ohonny' nhw.

*Ei fuarth oedd fel lawnt y Plas*
*A'r beudy ganddo'n balas*

Ond ei fwynhad mwya' oedd cael dreifio tractor. Mae'n wir dweud y buasai Dei wedi bod yn hapus iawn yn eistedd ar dractor - Ford - drwy'r dydd a'r nos petai o'n cael, ac mae stori amdano yn chwalu gwrtaith yn ymyl y tŷ un tro, ac yn dal i fynd rownd a rownd y cae, er fod y spinar yn wâg ers meitin. Hoffai fynd ar y tractor pan fyddai'n tywyllu hefyd, ac mae na amryw ohonom yn cofio methu ei basio am fod ei olau rifysio yn rhy llachar yn ein hwynebau.

Yn ei arddegau ymunodd â Chlwb Ffermwyr Ifanc Maesywaun, a mwynhau y gwmnïaeth oedd ynghlwm â'r mudiad hwnnw. Fo fyddai'r cynta i roi ei enw i lawr i fynd ar drip neu fynd ar ymweliad â chlwb arall, ac fe fyddai wrth ei fodd yn canu yn y côr.

Doedd Dei ddim yn un da am gadw i amser, ac fe'i gwelwyd yn amal yn cerdded i mewn yn chwys domen ar ôl i'r cyfarfod ddechre. Roedd pawb yn cymeryd mai wedi methu gorffen ei waith mewn pryd oedd Dei, ond y gwir oedd ei fod o wedi rhedeg yr holl ffordd i'r neuadd am fod genno fo dipyn o ofn nos.

Peth arall oedd yn mynd â bryd Dei oedd rygbi, ac ar bnawn Sadwrn fe welwyd y tractor bach glas yn anelu am y cae ger y llyn, ac er nad oedd ganddo lawer o glem o reolau y gêm, byddai wrth ei fodd gyda'r chwerthin a'r tynnu coes fyddai i'w glywed o amgylch y maes.

Ac am fod Dei yn gadael i bethe fynd braidd yn hwyr fel arfer, byddai y tractor yn gorfod mynd 'ffwl spîd' am y Bala, ac wedi cyrraedd byddai yn rhoi trwyn y tractor drwy giat gardd Ellis Wyn a Lisa cyn neidio dros y giât i'r cae rygbi i weld y gêm. Amryw o weithiau byddai Ellis yn gorfod mynd i chwilio amdano, am ei fod o'n methu mynd allan o'i dŷ ei hun!

Pan ddaeth ei ddyddiau fel aelod o Glwb Maesywaun i ben ymunodd â Chor Meibion Y Bala, a chafodd amser hapus iawn yn eu cwmni. Roedd hyn yn bennaf am fod ganddo ddiddordeb mawr mewn canu, yn enwedig canu gwlad, a fydde fo byth yn colli rhaglen John ac Alun ar nos Sul.

Yn wir cymaint oedd ei ddiddordeb mewn canu fel ei fod wedi penderfynu prynu gitâr, ac er na wyddai fawr am ddarllen cerddoriaeth, rhywsut neu'i gilydd fe ddysgodd dri nodyn, ac fe fyddai'r gân yn gorfod ffitio i mewn i'r cordiau rheini. Byddai yn galw heibio acw reit amal hefo'i gitâr i mi ei thiwnio hi iddo fo.

Daliodd y diddordeb yma hyd y diwedd. Clywais amdano yn mynychu gwasanaeth yn yr Eglwys yn Llwyngwril yn ddiweddar gyda staff Cerrig Camu a dagrau yn llifo lawr ei wyneb wrth iddo wrando ar y canu. A byddai yntau yn morio canu 'Esgyn gyda'r lluoedd' ei hoff emyn pan gâi y cyfle.

Wedi colli ei chwaer hynaf, Gwen, a fu mor ofalus a charedig wrth Dei gydol ei hoes, fe ddirywiodd ei iechyd a gorfu iddo fynd i gartref yng nghyffiniau Dolgellau, ac mae ein diolch yn mynd i staff Cerrig Camu am eu gofal arbennig ohono dros y blynyddoedd.

Byddai yn edrych ymlaen yn eiddgar am gael mynd gyda Phil Wood i nofio, pysgota yn llyn Brenig, ac i unrhyw Sioe fedre fo fynd iddi.

Fe gafodd Dei un mwynhad mawr cyn ein gadael, sef dathlu ei benblwydd. Roedd wastad yn atgoffa pawb fod ei benblwydd ar y gorwel ac yn edrych ymlaen yn eiddgar am gael agor ei anrhegion. Gwnaethpwyd taflen goffa arbennig iddo eleni, sef llun ohono yn mwynhau ei barti penblwydd yn saithdeg (uchod), a llun ohono ar ei wyliau yn Iwerddon ar y cefn.

Chwith meddwl amdano.

# Ieu Ty'n Coed a'i gerddi

*gan Elfyn Pritchard*

Roedd Ieu yn gystadleuydd brwd ar y limrig a'r triban mewn eisteddfodau o bob math gan gynnwys Eisteddfod y Sarnau. Roedd o hefyd yn aelod gwerthfawr o dîm Talwrn y Beirdd y Sarnau yn y cyfnod pan oedd Gerallt Lloyd Owen yn Feuryn.

Dyma rai enghreifftiau o'i waith wrth gystadlu ar y Talwrn.

*Cig dynol, sydd fwyd yn Iwganda;*
*Ail natur pob llwyth yw eich bwyta;*
*Ond hyn dd'wedaf heno*
*Mwy creulon yw'r Cymro*
*Yn fyw cewch eich blingo yng Ngwalia.*

Wn i ddim pa mor dderbyniol fyddai'r ddwy linell gynta heddiw, ond mae yna gic go filain yng ngweddill y limrig on'd 'does?

*Roedd uchel-eglwysig offeiriad*
*Ym mhwlpud Pen-dre ar wahoddiad.*
*Yng ngwres ei ymadrodd*
*Ei ffilings a laciodd*
*A'r aur a ddisgynnodd i'r casgliad.*

*Mae dyn ym mhob oes yn dadfeilio*
*A'i werth i gymdeithas yn cilio,*
*Ond dodrefn ei dŷ*
*Er gormes y pry,*
*Sy'n llamu'n eu pris wrth heneiddio.*

Mesur i fod yn ddigri ynddo yw'r limrig gan amla, ond gellir dweud gwirioneddau mawr ynddo hefyd, a dyma Ieu wedi llwyddo yn y limrig yna.

*Ar fore'i briodas roedd Guto*
*Yn ffwdan i gyd, bron a hurtio:*
*'Rôl strach tanio'r fan*
*Cyrhaeddodd y llan:*
*Roedd Beth ar y pan yn gweddïo.*

Mi gofiaf fod Gerallt wedi mopio efo'r llinell ola yn y limrig yna!

*Aeth Wil i sêl hyrddod Hiraethog*
*A phrynodd. Caed bargen ardderchog.*
*Ond wedyn daeth cŵyn*
*Yn nhymor gwneud ŵyn –*
*Ni chododd ei drwyn ar un famog.*

A dyma enghraifft ohono'n defnyddio'r triban i adrodd am brofiad anffodus rhyw lencyn:

*Wrth suddo'i ddegfed wisgi*
*Jac welodd bishin handi,*
*Ac ar ôl noson wrth ei fodd*
*Cytunodd i'w phriodi.*

*Un foel mewn wig oedd Neli,*
*Yn drigain ers mis Medi,*
*Os wrth lymeitian y cewch ferch,*
*Wel profiad erch yw sobri.*

A dyma fo yn mentro i fyd yr hen benillion i fynegi gwirionedd mawr:

*Pan fo gŵr yn glaf o gariad*
*Nid oes arno chwant adferiad,*
*Ymhyfrydu yn ei glefyd*
*Yw ei nef a'i ddyddiol benyd.*

O ddarllen yr enghreifftiau yma dwi'n siwr y byddwch chi'n cytuno fod Ieu yn ei medru hi.

# Diogelwn – cynllun newydd i ddiogelu enwau Cymraeg ar dai

**Llythyr**

DIOGELWN
y cynllun diogelu enwau tai

Annwyl Olygydd

Hoffwn, trwy gyfrwng eich tudalen llythyron, dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun newydd o'r enw **DIOGELWN** y mae **Cymdeithas yr Iaith** wedi'i lansio.

Bwriad y cynllun yw diogelu enwau Cymraeg ar dai er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r syniad sydd wrth wraidd y cynllun yn un syml iawn, ac yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n berchen ar dŷ ag enw Cymraeg.

- Os ydych ar fin gwerthu eich tŷ: gallwch ofyn i'ch cyfreithiwr gynnwys cymal penodol yn y cytundeb gwerthu er mwyn atal prynwyr a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.
- Os nad ydych yn bwriadu gwerthu'ch tŷ: gallwch ddiogelu'r enw trwy lofnodi a chofrestru cytundeb (gyda chymorth eich cyfreithiwr) er mwyn atal prynwyr neu gymyndderbynwyr o dan eich Ewyllys chi a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.

Mae'r dogfennau perthnasol (sydd wedi'u paratoi gan ein cyfreithwyr) ar gael ar wefan y Gymdeithas i'w lawrlwytho. Ewch i cymdeithas.cymru/diogelwn (neu gallwch ffonio 01970-624501 a gallwn anfon y dogfennau atoch trwy'r post).

***Mabli Siriol, Cadeirydd***

## Clwb 200
MAWRTH 2021

| | | |
|---|---|---|
| £20 | 23 | Linda Roberts |
| £15 | 164 | Robin Glyn Jones |
| £10 | 70 | O Rhys Evans |
| £10 | 106 | Gwenan Watkins |

## Clwb 200
EBRILL 2021

| | | |
|---|---|---|
| £20 | 118 | Gwen Edwards |
| £15 | 95 | Gwynant a Catrin Roberts |
| £10 | 24 | Maldwyn Morris |
| £10 | 121 | Elain Fflur Roberts |

## Rhestr 2020/21

GWOBRAU'R CLWB ETO ELENI YW £20, £15, £10 a £10

RHIFYN RHAGFYR/IONAWR £100, £75, £50 a £50

# WYTHNOS HEN LANC DAN LOCDOWN

## Dydd Llun

**CODI A GOLCHI 'NWYLO**, mynd lawr grisie i ga'l paned a tôst. Dwi'n meddwl gâi farmalêd arno fo heddiw. Edrych allan drwy'r ffenest a gweld fod yr adar llwglyd 'ma 'di byta'r nyts i gyd eto ... argol ma' nhw'n costio ffortiwn i rywun, ond be arall sgen rywun i neud, ond gwylio rhain yn pigo'n ddiddiwedd, a ffraeo hefo'i gilydd bob yn ail gegaid.

G'neud paned arall a rhoi y radio 'mlaen, ew ma' pobol y radio ma'n g'neud ichi deimlo'n grêt, ma' nhw mor hwyliog a llawn gobaith fel tase dim byd yn bod. Mi f'asech yn taeru fod 'na 'run epidemig ar y ddaear 'ma d'eud y gwir. Chware teg iddyn nhw am godi calon rhywun.

Estyn y fowlen golchi llestri. Ma' nhw'n d'eud fod isio chi olchi'ch dwylo am o leia dauddeg eiliad; dwi 'di ryw ddechre canu 'Calon Lân' ac un cytgan wrth olchi rhai fi, a ma' 'na rywbeth reit therapiwtic yn yr holl beth. Estyn menyg 'thrô awê' o drôr y seidbord a dau fwgwd yn barod at 'fory. Dwi'n mynd a dau rhag ofn i'r 'lastic snapio ar un, a finne ar ganol siopa. Gorffen 'sgwennu'r list siopa, g'neud list arall wrth gefn jyst rhag ofn fod genny' nhw ddim y pethe dwi isio ar y list gynta'. Sylwi wrth olchi llesti ar ddau yn pasio a bagie ar 'u cefne heibio'r tŷ. Ma' nhw'n ddiarth i mi, ond job 'di d'eud a hwythe yn brasgamu oddi wrthai. Penderfynu fod o ddim gwerth i reportio nhw tro 'ma i'r "Covid Marshals" lleol.

## Dydd Mawrth

**CODI A GOLCHI 'NWYLO**, lawr am baned a tôst. Dwi am drio'r jam mafon 'na ges i gan Anti Cath flwyddyn yn ôl. Ma'n edrych yn iawn, ac yn ogleuo'n iawn.

Ges i ffôn bore 'ma gan 'Visa Card' yn d'eud fod 'na rywun 'di bod yn gwario naw cant o bunnoedd ar 'y nghardyn i mewn siop ddillad yn Llundain. "Haili ynlaicli" feddylies i! Does 'na 'run siop ddillad yn 'gored yn unman oherwydd y locdown felltith 'ma ... triwch eto'r diawled, medde fi wrtha'n hun.

Golchi nwylo. Estyn bagie siopa o drôr y seidbord a dwy botel fach o hand sanitaisars. Ma'n job rhoi digon 'chydig o'r stwff yma ar y'ch dwylo heb golli peth ar y'ch sgidie, a mae o yn stenio'n ddrwg. Dreifio i lawr i'r dre 'rôl cinio, a gweld fod na lot o wynebau diarth o gwmpas. Parcio tu allan i'r siop ac estyn y bagie o'r bŵt, rhoi mwgwd am 'y ngwyneb, a mynd i nôl troli, chwistrellu'r handlen cyn mynd i mewn. Ddeudodd 'na rywun helo wrtha i, ond does gennai ddim syniad pwy oedd hi, gan fod y mwgwd yn cuddio'r rhan fwya o'i gwyneb. O'n i newydd ddechrau mynd lawr yr ail eil lle ma'r bisgets pan glywes i ryw sŵn twt twtian tu ôl imi. Roedd 'na ddynes heb fwgwd a llawn 'i haffle o negesau yn trio mhasio fi. "Esgusodwch fi," medde fi, "ond dydech chi ddim yn cadw i'r ddwy fedr gyfreithiol". "You what?" medde hi gan edrych yn fygythiol. "O," medde finne, "you're not local then? You need to keep two meters from me." A'th hi'n goch fel bitrwt, a dyma'i llygid hi'n dechrau culhau."Boris has said that one meter is sufficient," medde hi. "Styff Boris," medde finne, "he has no jiwrisdicsion in Wales. Mark Drakeford runs the show around here." Ac i wneud pethe'n waeth mi ddeudes inne, "and why are you not wearing a face mask?" "I'm asthmatic," medde hithe. "I don't care which country you come from," medde finne, "you should wear a mask." Ddoth y manijar o rywle a golwg blin ar 'i wyneb, ond erbyn hyn doedd 'na ddim golwg o'r ddynes, dim ond tomen o negesau ar lawr ym mhob man.

Teimlo'n hun yn dal wedi cynhyrfu wrth ddreifio adre, ond mi dawelais i lawr wrth imi roi wetweips dros y negesau i gyd cyn 'u cadw nhw.

## Dydd Mercher

**DEFFRO MEWN DIPYN O BOEN**. Ma' bawd 'y nhroed i 'di chwyddo 'chydig, a mae o'n dender. Penderfynu ffonio'r syrjeri rhag ofn iddo fynd yn waeth. Ar ôl golchi 'nwylo, ffonio am apointment, a cha'l gw'bod y base'r doctor yn ffonio fi yn ôl ar ôl dau. "Mi wnaf dôst i fi fy hun i aros," medde fi wrth y risepsionist. Ges i ddim ateb. Penderfynu nad oedd llawer o werth imi estyn y jigsô 2000 o ddarnau allan heddiw a finne'n debygol a ga'l 'y ngalw i lawr i'r syrjeri yn nes ymlaen. Mynd i wylio ripît o ripît o'r 'Noson Lawen' ar y teledu o'n i 'di recordio ers pythefnos. Synnu fod 'na gyn lleied o bobol yn y gynulleidfa; roedd 'na ryw fyrdded o bedwar neu bump yn eistedd yn barchus ar wahân, ac yn rhyw glapio'n sidêt. Cofio'n sydyn fod y rheol dwy fedr mewn bodolaeth, a bod hwn 'di ca'l 'i ricordio yn ystod y locdown siŵr o fod. Dal ddim yn deall pam nad yden nhw yn gwisgo mygydau.

Ffoniodd y doctor am ddeng munud wedi dau ar y dot. D'eud wrtho fo am 'y mawd, a disgrifio'r boen. "Gyrrwch lun imi," medde fo. "Llun o be?" medde finne. "Wel o fawd y'ch troed." medde fynte. Roeddwn i bron yn spîchles. "Fel y medra i asesu beth sydd yn debygol o fod yn achosi'r boen," medde fo wedyn. "Hefo be?" medde finne. "Dydi 'nghamra i ddim ond yn arfer dod allan pan fyddai 'n mynd ar 'y ngwylie." "Defnyddiwch y'ch ffôn symudol, a'i anfon o yma i mi, iawn?" "Iawn," medde finne. "Fyddwch chi ddim am fy ngweld i yn y cnawd felly?" "Na fyddwn 'sa fydd raid," medde fo; "hefo'r holl gyfyngiadau 'ma sydd hefo'r Cofid, gwell peidio." Roeddwn i reit siomedig a d'eud y gwir o beidio ca'l mynd i'r syrjeri, a finne 'di ryw feddwl ca'l sgwrs hefo hwn a'r llall, ond yn cadw y ddwy fetr gyfreithiol wrth gwrs. Ma' rhywun yn gallu mynd reit unig yn g'neud yr un peth drwy'r dydd bob dydd. Fydda i'n amal yn ffwndro rhwng dyddie a'i gilydd 'di mynd, ac yn rhyw siarad hefo fi'n hun heb feddwl.

Olches i bawd fy nhroed reit lân, a chanu 'Calon Lan' ac un cytgan wrth 'neud. Mi dorres i fymryn ar yr ewin hefyd cyn imi dynnu 'i lun o a'i anfon i'r doctor. Gorfod imi gym'yd rhyw chwech llun i gyd, rhwng bod 'owt of ffocys" hefo tri, ac yn rhyw ysgwyd gormod pan on i'n pwsio'r botwm hefo'r gweddill, ond mi lwyddes yn y diwedd. Roeddwn i ar bine wedyn drwy weddill y p'nawn yn disgwyl y daiagnosis ac yn hel meddylie gwirion. Oedd o'n seriws?

» » » » » *yn parhau ar dud.21*

# Holi rhywun lleol

*Carys Williams, Wenallt Bach*

**1 Beth yw eich atgof cynta?**
Y diwrnod y collwyd fy nghefnder bach 15mis oed trwy ddamwain yn y chwedegau cynnar. Roeddwn i'n ifanc iawn ond yn cofio'r diwrnod hwnnw fel ddoe.

**2 Oes rhywbeth yn codi ofn arnoch ?**
Nadroedd. Dwi'n cofio mynd â'r hogiau i Sŵ Caer pan oedden nhw tua chwech oed, a'r ddau isio gweld y nadroedd. Eu gwthio i mewn un ochor
ac aros amdanynt ochor arall wnes i

**3 Sut fyddwch chi'n treulio eich oriau hamdden?**
Wel does dim gormod o'r rheini yma, ond mynd i siopa efo ffrind a chael cinio allan.

**4 Pa fath o gerddoriaeth fyddwch chi'n ei hoffi?**
Mi wna i wrando ar rywbeth wir – ond jazz.

**5 Beth yw eich hoff bryd bwyd?**
Wel does dim golwg hoffi salad arna i nagoes?! Ond cinio rhost yw'r ffefryn.

**6 Be dech chi'n dda am ei wneud?**
Cymdeithasu. Dwi wrth fy modd yng nghanol pobol, a thynnu coes.

**7 Be dech chi'n anobeithiol am ei wneud?**
Lle dwi'n cychwyn! Gwaith llaw – dwi'n edmygu yn fawr y bobol 'ma sy'n gweu a phwytho.

**8 Ymhle fyddwch chi hapusa?**
Adre – a dim gorfod gwylio'r cloc.

**9 Oes gennych chi hoff lyfr neu lyfrau?**
Nagoes, mi ddarllena i rywbeth ond llyfrau llofruddiaeth a dirgelwch.

**10 Pa un yw eich hoff raglen deledu?**
Ar hyn o bryd Ben Fogle sy'n ymweld â phobol sy wedi troi cefn ar y bywyd technolegol, prysur rydym i gyd yn byw ynddo.

**11 Be sy'n gwneud i chi chwerthin?**
Y dywediadau mae'r wyrion yn dod allan efo nhw.

**12 Oes rhywbeth yn eich gwylltio?**
Oes. I ble mae'r gair 'erioed' wedi diflannu? Pobol yn defnyddio 'byth' yn ei le.

**13 Oes gynnoch chi hoff le yng Nghymru i fynd ar eich gwyliau?**
Dwi'n hoff iawn o Ben Llŷn.

**14 I ba wledydd tramor fyddwch chi'n hoffi mynd neu y byddech chi'n hoffi mynd iddyn nhw tasech chi'n cael y cyfle?**
I Batagonia. Dwi wrth fy modd yn eu clywed nhw yn siarad Cymraeg.

**15 Lle hoffech chi fyw tasech chi ddim yn byw lle rydech chi?**
Wel gan fod Cwmain y lle agosa i'r nefoedd, lle gwell i fyw ynddo?!

# Capel Cefnddwysarn

*gan Nest Angharad Davies*

Wrth drafeilio trwy Gefnddwysarn fe welwch y Capel yn sefyll yn hardd yng nghanol y pentref, ac o edrych arno, does dim i'w weld yn wahanol, ond fe'i gwerthwyd ar Ragfyr 2ail 2020 ac yr ydym bellach yn cynnal ein Gwasanaethau yn y Festri, pan fydd y canllawiau yn caniatáu.

Roedd o'n Gapel hynod ddeniadol gyda sêr lliwgar yn y nenfwd a seti wedi eu gwneud o bren caled, pwlpud a sêt fawr arbennig ynddo hefyd. Cynhaliwyd cannoedd os nad miloedd o wasanaethau ynddo dros y blynyddoedd.

Adeiladwyd y Capel cyntaf yn y Sarnau, Capel gyda tô gwellt a llawr pridd iddo. Yna yn y flwyddyn 1822, adeiladwyd Capel ym mhentre Cefnddwysarn a symud o'r Sarnau. Y Festri yw'r Capel hwn erbyn hyn.

Adeiladwyd y Capel presennol yn y flwyddyn 1868 ar gôst o £600. Y Parchedig Isaac Jones Williams, Talsarnau ddewisiwyd yn Weinidog cyntaf yr Eglwys, hyn ynghyd â Llandderfel yn y flwyddyn 1884 a bu yma tan 1910. Sefydlwyd y Parchedig John Owen Jones, Penygroes yn Weinidog yn 1911. Roedd ei wraig yn chwaer i'r bardd R. Williams Parry a bu'n gwasanaethu tan 1922. Yna y Parchedig G. R. Jones, Carmel, Caernarfon ddilynodd yn 1922 tan 1961. Bu wyth arall yn gwasanaethu: Y Parchedigion Cledwyn Williams, Gareth Parry, Michael Thomas, Reuben Roberts, J. Curig Thomas, Angharad Roberts, Cath Williams, a'r Gweinidog presennol, y Parchedig Hywel Edwards. Dau Weinidog yn unig a godwyd o'r Capel, sef y Parchedig Robert Roberts, Crynierth Bach aeth yn Weinidog i Benrhyndeudraeth yn 1897 ac yna y Parchedig J. D. Hughes, Cynlas aeth yn Weinidog i Ysbyty Ifan yn 1961 cyn symud oddi yno i Langefni.

Roedd organ dda yn y Capel, er bod gwaith padlo arni. Fe'i prynwyd yn 1895 am chwe phunt ar hugain! Mae cofnod o 21 o organyddion fu'n gwasanaethu yn eu tro a 33 o Flaenoriaid, y rhai heddiw yw Elfyn Pritchard, Gwyn D. Hughes, Gareth Parry Jones, Eirwen Jones a Nest Angharad Davies.

Ar Fedi 20fed 1910, gosodwyd Plac yn y Capel i goffáu Thomas Edward Ellis AS. Cafwyd anerchiadau yn y capel gan D. Lloyd George, Master Elibank, Llywelyn Williams AS a Herbert Lewis AS. Roedd yn Flaenor yn y Capel ac mae wedi ei gladdu ym mynwent Cefnddwysarn. Ar y 30ain o Ragfyr 1988, gosodwyd Plac i gofio canmlwyddiant geni Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn). Dadorchuddiwyd gan ei ferch, Dwysan Rowlands. Yng ngwaelod y Capel, ochr dde, roedd gwaith llaw arbennig Dwysan Rowlands, llun byw, lliwgar yn enwedig pan fyddai'r haul yn disgleirio arno drwy'r ffenestri. *Y Swper Olaf* oedd o – rhodd i goffáu ei gŵr, Robert Ellis Rowlands, fu'n ysgrifennydd a blaenor.

Ar Ionawr 6ed 2013 cymerais drosodd y swydd Ysgrifennydd Capel Cefnddwysarn gan ddilyn Elfyn Pritchard, oedd wedi gwasanaethu am 17 mlynedd yn y swydd ac yn Flaenor yn y Capel ers 1963. Bu Bob Lloyd (Llwyd o'r Bryn) a'i ferch Dwysan hefyd yn ysgrifenyddion yn eu tro.

Mae gen i yn bersonol, fel llawer o'r aelodau rwy'n siwr, atgofion hapus iawn o fynychu Capel Cefnddwysarn ac am y cyfleoedd a gafwyd i wasanaethu. Er bod adeilad y Capel wedi ei werthu, braf yw cael dweud bod yr eglwys a'r achos yma yng Nghefnddwysarn yn parhau, a'r addoli yn digwydd yn y Festri, sef yr hen Gapel gwreiddiol.








# Aelod newydd o'r Orsedd

*gan Elfyn Pritchard*



Dwi ddim yn siwr o'r rhif, ond mae yna dros fil o bobol Cymru yn aelodau o Orsedd y Beirdd, ond dim ond un sy'n bwysig yn Pethe Penllyn y tro yma, sef Eilir Rowlands (Eilir yr Hendre). Mae pob un sy' yn yr Orsedd yno am un o bedwar rheswm – wedi ennill un o brif gystadleuthau'r steddfod, wedi pasio arholiad i ddod yn aelod, yno fel gwobr am wneud y gwaith rydech chi'n cael eich talu amdano, neu fel cydnabyddiaeth am gerdded yr ail filltir. Dwi'n cytuno efo tri o'r pedwar rheswm yma, gellwch chi ddyfalu pa un dwi ddim yn credu ynddo.

Y rheswm mwya teilwng i gyd yw cerdded yr ail filltir. Wel medde chi, be wnaeth Eilir wrth gerdded yr filltir honno? Hyn, i enwi rhai pethe – un o ymddiriedolwyr di-dâl Cronfa Goffa Tecwyn Lloyd sy'n cyfrannu arian sylweddol yn flynyddol i achosion diwylliant led led Cymru; mynd o gwmpas i ddiddanu cymdeithasau; canu yng nghôr Llangwm ac amryw bartïon eraill fel bo'r galw; un o gynhalwyr y diwylliant yn y Sarnau – yn y Llawr Dyrnu, y Dramâu a'r Eisteddfod; aelod ffyddlon yng Nghefnddwysarn, – ysgrifennydd yr adeiladau ac un o arweinyddion y cylch trafod ac aelod o'r parti plygain; arlunydd, bardd a chynganeddwr, aelod o dimau Talwrn y Beirdd. Ddwedes i ddigon? Do dwi'n meddwl. Un teilwng iawn i gael ei anrhydeddu yn Nhregaron – pryd bynnag y bydd hynny!

# WYTHNOS HEN LANC DAN LOCDOWN

*» » » » » yn parhau o dud. 19*

Oedd o'n debyg i sbredio fyny nghoes i? Ges i ffôn tua pedwar yn d'eud nad oedd dim byd llawer i boeni amdano, a'i fod o'n meddwl mod i 'di ca'l "twch" o gowt. "Gowt?" medde finne, "o'n i'n meddwl ma' hen bobol oedd yn yfed gormod o 'port' oedd yn ca'l gowt". "Na, ma' 'na lawer o bobol yn cwyno am y cyflwr poenus yma," medde fynte; "ma 'na dabledi yn disgwyl amdano chi, jyst dowch at ddrws y syrjeri ac mi ddaw rhywun â nhw allan ichi."

Nefoedd, ma' hi'n hunllef os ydech chi isio gweld y doctor 'di mynd y dyddie yma.

## Dydd Gwener (*Sori*) Dydd Iau

**CODI'N HWYR** ar ôl bod ar y compiwtar dan berfeddion neithiwr yn chwilio am esgid fwy cyffyrddus i 'nhroed i ar-lein. Weles i ddim byd oedd yn siwtio. Fe dria i eto nes ymlaen falle. Ca'l ffôn yn d'eud bod perthynas imi yn wael iawn ac mewn trafferthion mawr yn Affrica, a bod rhaid imi anfon arian ar frys iddo fo ga'l dod adre yn ddiogel. Dd'udes i wrthyn nhw fod y peth yn amhosib, gan fod ganddo fo ddim pasbort, a nad oeddwn i yn hoff iawn o'r cr'adur beth bynnag sai'n mynd i hynny. A'th y ffôn yn dawel mwya sydyn. Dwi 'di canfod ffordd hawdd o gofio golchi nwylo yn ystod y pandemig 'ma, syniad syml ond effeithiol. Fydda i'n gadel y sinc yn llawn o lesti budron, ac yn golchi nhw cyn mynd i 'ngwely. Jîniys! Estyn y jigsô 2000 o ddarne brynes i yn y siop elusen cyn iddi gau am yr ail waith oherwydd y cofid. Nefoedd, fydda i'n flin os oes 'na ddarn ar goll a finne'n bwriadu mynd i'r holl drafferth o'i neud o yn y lle cynta. Mae o'n gythrel o un anodd hefyd faswn i ddeud o'r llun ar y bocs. 'Dio'n ddim byd ond môr ac awyr las. Does 'na ddim hyd yn oed gwylan i'w gweld, na chwmwl.

Wedi gorfod symud botwm sy'n cau nhrowsus oherwydd mod i 'di rhoi chydig o bwyse 'mlaen yn ddiweddar. Dwi'n rhoi bai ar yr holl raglenni g'neud bwyd 'ma sydd bob nos ar y teledu. Ma' nhw'n codi awydd arna i ga'l nibl bach, yn enwedig tua'r naw nos. Rhaid fod na gannoedd o gacenne yn ca'l 'u coginio ym mhob cegin ar hyd y wlad yn ystod y pandemig 'ma. Dwi 'di methu ffindio 'self raising', na unrhyw flawd arall ar silffoedd yr archfarchnad ers misoedd. Hwyrach y dylwn i hefyd gym'yd amser i edrych am drwsus "stretch waist" ar y wê tra'n chwilio am sgidie.

Gorffen paratoi list 'Tesco' at bnawn Sadwrn. Dwi'n edrych ymlaen yn arw achos dwi 'di archebu slot ers dros fis. Gobeithio ga' i bob peth 'dwi 'di ordro.

## Dydd Gwener

**CODI A GOLCHI NWYLO**, sylwi yn nrych y bathrwm fod genai angen torri ngwallt yn ddychrynllyd. Does 'na ddim sôn am 'y nghlustie fi. Fedra i neud fawr ddim i'r blew tu ôl i mhen beryg, ond fedra i deidio dipyn ar fy ffrinj a'r seid locsus. Tydi gwisgo a thynnu y mwgwd 'ma bob munud yn gwneud dim lles i daclusrwydd gwallt rhywun chwaith.

Picio lawr i'r dre i nôl 'chydig o bethe o'r cemist a chodi pres o'r banc. Ar ôl imi giwio am dros ddeng munud ges i brofiad reit ysgytwol yn y banc. Es i at y cownter at y ferch ddiarth 'ma a d'eud "hands up" wrthi. O'n i'n hun yn meddwl fod o reit ddoniol 'mod i'n gofyn am arian a finne'n gwisgo mwgwd a bob dim, ond mi baniciodd yr hogan a mynd yn wyn fel shît cyn deifio am y botwm argyfwng dan y ddesg. Yn ffodus i mi roedd 'i chydweithiwr wedi fy 'nabod i, ac mi fedrodd 'i darbwyllo hi i beidio pwyso'r botwm. Ar ôl ca'l cerydd reit siarp gan yr acting manijar, 'dwi ddim yn meddwl y ca' i fawr o groeso yn y banc am dipyn.

Ca'l ffôn o'r syrjeri yn deud mod i'n ca'l jab covid bnawn Sadwrn ac y dylwn i ddod i'r ganolfan hamdden am dri. Wel damio, dydi'r 'Tesco home delivery' yn dod tua'r un adeg. Fydd raid imi ga'l y boi drws nesa i dderbyn y neges. Meddwl wrth gerdded at y car os oedd hi'n alwad ffug neu beidio. Penderfynu nad oedd hi ddim, gan 'mod i'n 'nabod y llais.

Paratoi at gyfarfod y 'Gymdeithas Gwarchod Hen Gelfi' ar Zŵm nes ymlaen heno. Gosod y laptop fel bod nhw'n gallu gweld llun o 'Salem' ar y wal tu ôl imi, a'r silff lyfre yn llawn o hunangofianne pobol bwysig. G'neud yn siŵr 'mod i'n deall sut i miwtio fi'n hun. 'Dwi ddim isio'r un peth ddigwydd a tro d'wetha fuodd 'na rai ohono ni ar y zŵm 'ma. Doedden ni ond megis dechre y cyfarfod y tro hwnnw pan ymunodd yr hulpen ben felen 'ne a'i gŵr sydd yn byw yn top dre, ac fel yr oedd y cadeirydd yn mynd trwy'r agenda, dyma hi'n dechre pasio rimarcs am ddillad a diffyg cyflwr corfforol rai o'n cyd-aelodau, a hynny i bawb i'w glywed. Fel fedrwch chi amgyffred a'th hi reit boeth ac annifyr yna wedyn. Gora i mo ngheg 'sa fydd raid imi heno.

## Dydd Sadwrn

**WEDI BOD AR FY NHRAED ERS PUMP**, rhy gynhyrfus i gysgu rhwng meddwl am y pigiad a'r 'delivery Tesco'. Ca'l bath am saith, a paned a tôst wedyn. Tywydd yn eitha heddiw, fydd hynny o help mae'n siwr os bydd raid imi giwio i fynd i mewn i'r ganolfan. Estyn fy nghrys gwyn llewys byr yn barod, fyddai ddim ond isio tynnu nghôt wedyn pan gai'r alwad. Well imi beidio b'yta dim byd hefyd, jyst rhag ofn. Estyn ryw ddau stripyn o lastoplast i roi ar fy mraich os bydd hi'n gwaedu'n drwm, a chydig o asprins at y boen. Gweld yr amser yn hir heddiw. Gwneud dipyn ar y jigsô, ond ddim yn gallu canolbwyntio, rhoi y teledu ymlaen i weld y newyddion, a gweld dim byd ond pobol yn ca'l injections hefo nodwydde main hir. Teimlo reit ben-ysgafn. O'n i 'di meddwl cerdded i'r ganolfan i ga'l dipyn o awyr iach, a cheisio colli'r bol 'ma 'ru'n pryd, ond fel dwi'n deall os ydech chi'n dreifio yno ma' raid ichi iste yn y lle am chwarter awr ar ôl ca'l pigiad, i'ch pen chi gael clirio. A chan nad ydwi yn gweld neb o'r un diwrnod i'r llall, feddylies i y baswn i'n mynd yn y car, fel mod i wedyn yn gorfod eistedd i ddod ata'n hun a cha'l cyfle i sgwrsio hefo hwn a'r llall am eu profiade. Mi a'th bob dim yn hwylus iawn, roedd na stiwardied mewn cotie melyn yn eich hebrwng i'r neuadd, ac yn rhoi chi i eistedd ar gader unig, nes bod y nyrs yn eich galw. "Pwy fraich" medde hi. "Dio'm bwys" medde finne, "cyn belled a dechi ddim yn rhoi pigiad i mi yn 'y nhîn, fues i reit boenus ar ôl ca'l pigiad tetanus un tro". Ar ôl imi ga'l y pigiad, ges i ordors i fynd i eistedd ar ben fy hun yn y gornel imi ga'l dod dros yr holl beth. Dries i siarad hefo hwn a'r llall oedd yn digwydd pasio, ond un ai doedden nhw ddim yn clywed, neu doedden nhw ddim isio gwrando.

Pan gyrhaeddes i adre doedd 'Tesco' heb fod. O'n i reit falch, gan na fydde raid imi gario'r neges o drws nesa. Pan ddaethant o'r diwedd fe gymerodd ddeng munud da i gario'r holl neges o'r fan i'r tŷ. Methu deall, nes y gwelais mod i 'di ordro pethe mewn kilos yn lle pwysi. Ma' gennai ddigon o datws a moron i 'nghadw fi fynd tan Dolig nesa.

Mynd i 'ngwely wedi llwyr ymladd, rhwng y pigiad, a disinffectio'r neges cyn ei gadw. Gobeithio am ddiwrnod tawelach fory, a gobeithio hefyd na fydd na flas disinffectant ar y tatws a'r moron.

## Dydd Sul

**GES I NOSON REIT ANGHYFFORDDUS NEITHIWR**, deffro tua tri yn chwys domen ac yn brifo drosta, amau mai seid effects y pigiad 'na ydio, slwmbran yn ôl i gysgu tua pump. Codi am wyth a golchi'n nwylo. Rydw i am wisgo 'nillad gore heddiw, a hithe'n ddydd Sul a bob dim ... a dwi 'di bod yn gwisgo'r rhain ers dydd Llun d'wetha. Rhoi rhaglen Dewi Llwyd ymlaen ar y radio, a pharatoi'r tôst. Marmalêd thic cyt amdani heddiw. Gwrando'r bregeth am hanner dydd, ryw ficar o'r dê yn sôn am y pla llyffint gafodd Pharo yn yr Aifft, Exodus 8fed bennod. Roedd o'n cymharu'r stori honno hefo'r epidemig 'ma sydd genno ni yn y wlad yma ar hyn o bryd. Fedrwn i yn fy myw weld y cysylltiad rhwng llyffint a'r cofid, ond mi roedd ei ddamcaniaeth o'n ddigon diddorol ar y cyfan.

Ddeudodd o ar ddiwedd ei bregeth y dyle ni i gyd feddwl am rywun sy'n unig ac yn hiraethu am gwmni, a chysylltu hefo nhw ar y ffôn bob hyn a hyn, a dyma fi'n meddwl yn syth am Miss Peters, hen ferch sy'n byw lawr y ffordd. Ar ôl imi ga'l 'y nghinio dyma fi'n rhoi tincl bach iddi. "Helo," medde fi. "Be dechi isio?" medde hithe reit shiort. "Meddwl sut oeddech chi," medde finne . "Dwi'n iawn," medde hithe wedyn. Roeddwn i'n teimlo fod y sgwrs yma yn tueddu i fod yn unochrog braidd, ac yn troi yn ei hunfan am gyflwyr y tywydd. "Siŵr bod chi 'di arbed dipyn o arian ar lipstic yn ystod y pandemig 'ma Miss Peters," medde finne i newid y pwnc. "Be de chi'n feddwl?" medde hithe. "Wel, does 'na neb yn gweld y'ch gwefuse chi dan y mwgwd 'na, nagoes," medde finne. Ddealles i'n syth mod i 'di deud y peth anghywir, achos dyma 'na ebychiad nerthol i'w glywed dros y ffôn, a dyma hi'n deud, "rhag y'ch cwilidd chi fod mor bowld ac awgrymu y fath beth," a dyma hi yn rhoi y ffôn i lawr yn glep arna i. Fyddai ddim yn ffonio neb arall am blwc.

Gwrando ar y newyddion i weld os oedd Mr Drakeford am lacio ychydig ar y cyfyngiadau presennol. Dd'udodd o fawr mwy na siarsio pawb i aros adre, fel arfer, a pheidio cymysgu hefo neb arall, fel arfer. Fedrwn i'n wirioneddol 'neud hefo gweld y deintydd, a'r ddynes traed. Ma'r 'ingrowing toenail' ma'n dechre casglu eto. Cael ar ddeall na fydd 'na Steddfod na Sioe eto leni, ac y byddai yn beth anoeth i drefnu gwylie dros y dŵr. Dwi ddim yn meddwl fod Sir Fôn yn dod i mewn i'r categori yne, ond fydd raid imi holi.

Wel, ma' hi'n dydd Llun eto fory, a'r un hen rwtîn beryg, ond fe ddaw eto haul ar fryn, ac fel dudodd yr hen Gapten Tom, "Mi fydd fory yn ddiwrnod da."

# Ble maen nhw rŵan?

*Myfanwy Griffiths, Maes Tegfryn*

Hogan Cwmain ydw i, wedi fy magu yn Rhydywernen ac yna drws nesa' ym Maes Tegfryn. Yno ydi fy adre i, er fy mod bellach yn byw yn Gresffordd ers tua 13 o flynyddoedd. Wedi mynychu Ysgol Ffridd y Llyn ac yna'r Berwyn es ymlaen i'r Coleg Technegol ym Mangor i wneud cwrs ysgrifenyddol cyn graddio o Brifysgol Bangor mewn cwrs Cyfathrebu. Wedi pum mlynedd o fyw fel stiwdant ym Mangor, dychwelyd adref wedyn i chwilio am waith. A bûm yn ffodus o gael gwaith fel newyddiadurwraig gyda'r *Cymro* yn yr Wyddgrug ac yna fel dirprwy Olygydd y papur.

Ar ôl saith mlynedd gyda'r papur ac ynghanol llawer o newidiadau yn y cwmni, dyma benderfynu newid cyfeiriad. Ar y pryd doedd gena i ddim syniad beth yr oeddwn am ei wneud, felly dyma drïo am wahanol swyddi ym mhob cwr o Gymru. Dwi erioed wedi bod yn un o'r bobl hynny sydd yn gwybod yn union beth yr hoffwn ei wneud fel gwaith! Bûm yn ffodus o gael gwaith gyda'r Gwasanaeth Prawf yn Wrecsam yn 2005 ac yno yr wyf hyd heddiw. Rhaid cyfaddef nad oeddwn cyn derbyn y swydd yn gwybod yn union beth oedd rôl y gwasanaeth prawf yn y gymdeithas a ddim yn siŵr iawn beth i'w ddisgwyl. Yn anffodus mae yn un o'r gwasanaethau cyhoeddus sydd yn cael ei anghofio amdano. Dwi bellach yn un o bedwar Rheolwr Triniaeth yn Nhîm rhaglenni Gogledd Cymru y Gwasanaeth, gyda fy ardal i yn cynnwys Wrecsam, Fflint a'r Drenewydd.



# Ryseitiau Eleri

## Cacen Geirios gydag Almonau

### Cynhwysion

- 8owns/225g menyn neu hanner menyn a hanner margarine
- 8owns/225g siwgwr mân
- 3 ŵy wedi'i guro
- 8owns/225g blawd plaen
- pinsied o halen
- ½ llwy dê powdr codi
- 4owns/100g almonau mân
- 4owns/100g ceirios glacé wedi'i chwarteru
- ychydig ddiferion rhinflas almwn

### Dull

- Leinio tun 8" crwn neu dun torth 2lb.
- Hufenu'r siwgwr a'r menyn gyda'i gilydd.
- Ychwanegu'r wyau.
- Hidlo'r blawd, powdr codi a'r halen gyda'i gilydd a'u hychwanegu i'r gymysgedd, gyda'r ceirios a'r almwn mân.
- Ychwanegu y diferion rhinflas almwn a chymysgu yn dda.
- Ei rhoi yn y popty ar 140˚C/Nwy marc 1 am oddeutu 3 awr.
- Ei chadw am bythefnos mewn papur gwrthsaim cyn ei blasu.



*mwynhewch x*

# Menter Newydd Rhys Evans, Lluest

*. . . yn yr hen Druid House ger adeilad Ysgol Tŷ Tan Domen*

Yr ydym wedi hen arfer clywed erbyn hyn bod "y stryd fawr yn marw" wrth i boblogrwydd archfarchnadoedd a chanolfannau siopa gynyddu. Un o lwyddiannau mawr tref Y Bala yn y blynyddoedd diwethaf yw y gallu i ddweud nad oes siop wag yn y dref, neu, pan ddaw siop yn wag, mae yna rywun yn barod i gamu i mewn ac agor siop newydd. Hyd yn oed yn ystod y cyfnod heriol ag oedd 2020, gwelsom siopau newydd yn agor yn y Bala.

Er nad oes gennym un o'r prif archfarchnadoedd yn y Bala, mae gennym gyfoeth o siopau bychain annibynnol, sydd yn gwerthu nwyddau, neu yn cynnig gwasanaethau o bob math, ac yn y dyfodol agos, mi fyddaf innau hefyd yn ymuno â'r cynnig hwn, gan agor fy siop fy hun, a thrwy wneud hyn, yn gwireddu breuddwyd.

Bydd fy ffrindiau yn ymwybodol iawn fy mod wrth fy modd yn prynu a gwerthu



pob math o nwyddau ... mae'n rhaid ei fod yn y gwaed gan y bu fy hen daid, a fy ewyrth yn prynu a gwerthu anifeiliaid yn hynod lwyddianus am flynyddoedd. Ond canolbwyntio ar ddodrefn tŷ a gardd y bydda i, boed yn newydd neu ail law, ac er na fydd pob dim at ddant pawb, mi fydda i yn gwerthu nwyddau a fydd at fy nant i.

Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i allu gweithio yn ddi-dor ers pan oeddwn yn 16 oed, ond bellach wedi croesi trothwy'r deugain, a chytundeb gwaith yn dod i ben eleni, penderfynais fy mod am weithio i mi fy hun.

Yr her fwya oedd dewis enw ... ond wedi pendroni am ddyddiau gyda ffrindiau a theulu, y penderfyniad oedd i enwi'r siop yn

**"L.L.2.3 – Dodrefn Rhystig Furniture"**

gan chwarae ar eiriau ac ar fy enw.

Felly, unwaith y cawn ganiatâd gan y Llywodraeth i agor, piciwch draw am sbec.

# Ble maen nhw rŵan?

## *Robin Rees Ty'n Bryn gynt*

Symudais o'r Bala i Gefnddwysarn yn 9 oed, a dyma setlo yn syth i fywyd cefn gwlad. Roeddwn wrth fy modd! Cael cyfle i gadw ieir, moch a geifr a chyfle i chwarae pêl-droed, criced a golff gyda Llŷr Pentre ac Erddin Hendre tan yn hwyr ac wedyn cerdded adre dros y caeau fel roedd yr haul yn machlud.

Yn dilyn pasio fy lefel A yn Ysgol y Berwyn dyma newid byd go iawn a mynd i UWIC a Phrifysgol Caerdydd i astudio Peirianneg Amgylcheddol.

Cefais flwyddyn allan yng nghanol fy nghwrs a chael y cyfle i weithio i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala yn 1997 ac yna ym Mhencoed ym 1998. Bûm hefyd yn gweithio yn *Henry's Café Bar* yng Nghaerdydd fel cocktail waiter!

Roeddwn yn parhau i ddod adre i gefn gwlad ar benwythnosau yn yr haf i chwarae criced i dîm Y Bala. Cael mwy o hwyl yn cymdeithasu na chwarae criced a dweud y gwir ond yn sgîl chwarae a chymdeithasu gwneud ffrindiau oes.

Yn dilyn graddio o Brifysgol Caerdydd, mi es i weithio i gwmni plastics yn y brifddinas, gwaith gliwio siambrau dŵr am fis cyn mynd i weithio i gwmni *Sony* ym Mhen-y-bont am ddeufis. Roedd hyn yn golygu gweithio shifftiau nos a doedd hynny ddim yn tycio a minnau yn mwynhau fy nghwsg gymaint!

Yna, ym 1999 mi ges i swydd gyda chwmni *Transco* yng Nghaerdydd yn dylunio rhwydweithiau nwy yng Nghymru a De Orllewin Lloegr.

Gweithio gyda chriw o bobl ifanc a llawer mwy o dynnu coes nag o waith.

Cefais ddyrchafiad yn Uwch Reolwr Cyfrifon yn 2004, ac yna teithio o gwmpas y wlad yn edrych ar ôl cyflenwyr nwy.

Bu imi symud o Gaerdydd i Ganolbarth Cymru yn 2006 a newid swydd yn Rheolwr Gwerthu Rhanbarthol i gwmni o'r enw *Fulcrum*. Fy mhrif ddyletswyddau oedd gwerthu cysylltiadau nwy a thrydan i gwmnïau datblygu yng Nghanolbarth Lloegr.

Hefyd cyn symud i ganolbarth Cymru, bu imi gwrdd â fy narpar wraig (Samantha). Digwydd bod, roedd hi'n byw gyferbyn â mi yng Nghaerdydd ac yna bu inni briodi yn 2007.

Cefais ddyrchafiad yn Bennaeth Datblygu Busnes yn 2012. Ac erbyn hyn mae gennyf dîm o Reolwyr Datblygu Busnes yn gweithio o gwmpas



y wlad. Mae'r gwaith yn amrywiol ac yn caniatáu imi deithio o gwmpas Cymru, Lloegr a'r Alban yn edrych ar brosiectau mawr a fydd angen cyflenwad o drydan a nwy. Erbyn hyn, dwi yn byw yng Nghegidfa, ger y Trallwng. Mae Sam yn gweithio fel Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Brynhafren ac mae gennym ni ddau o blant, Caleb (12) sydd yn ei flwyddyn gyntaf yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin a Maia (11) yn ei blwyddyn olaf yn Ysgol Gynradd Brynhafren, Crew Green. Yn fy amser hamdden rwy'n mwynhau chwarae golff ac yn aelod o'r Clwb Golff yng Nghroesoswallt.




**PETHE PENLLYN TRWY'R POST**

**Hoffwn danysgrifio i PETHE PENLLYN. Amgaeaf siec, yn daladwy i "PETHE PENLLYN"**

*** * * * * ***

**£15.00 y flwyddyn am 10 rhifyn.**

**Danfonir eich copi yn brydlon trwy'r post [2il ddosbarth].**

Danfonwch y papur i'r cyfeiriad isod

ENW: ......................................................

CYFEIRIAD: ...........................................

.................................................................

.................................................................

Dychwelwch y ffurflen, ynghyd â'ch siec, i PETHE PENLLYN, Tanyfron, 105 Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

# "Gwobr Arwr Tawel"

## *Tirion Thomas*

Ar yr 18fed o Ragfyr cafodd y newyddion ei gyhoeddi fy mod i, Tirion Thomas, wedi cael y fraint o dderbyn gwobr enfawr: Gwobr Personoliaeth Chwaraeon BBC Cymru 'Arwr Tawel' 2020. Hyd heddiw mae hyn yn anodd ei gredu, ac yn dal i'm gadael yn fud gan syndod. Caiff y wobr hon ei chyflwyno i unigolyn sydd wedi gwneud "cyfraniad sylweddol o fewn y byd chwaraeon ond heb gael ei gydnabod".

Dechreuais fy nhaith rygbi pan oeddwn yn byw ym Manceinion fel plentyn, ar ôl rhoi cynnig ar ballet, dawns, gymnasteg doedd 'run i'w weld yn tycio. Ond, darganfyddais fy nghariad at rygbi. Roeddwn yn cael hyfforddiant bob bore Sul gyda thîm o'r enw *Trafford Metrovicks.*

Pan oeddwn yn 11 oed, symudodd y teulu o Fanceinion i'r Sarnau ac yma y dechreuodd fy niddordeb go iawn pan ymunais â Thîm Rygbi Merched Y Bala. Rwyf wedi bod yn rhan o'r clwb ers hynny. Mae'r clwb wedi rhoi cymaint o gefnogaeth i mi drwy gydol fy amser yn y Bala; yn enwedig wrth geisio ymuno â chymuned hollol newydd a gwahanol i'r hyn yr oeddwn wedi arfer â hi ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar am hyn.

Tua thair blynedd yn ôl bellach y cymerais drosodd y rôl o hyfforddi'r tîm merched – y tîm roeddwn hefyd yn chwarae iddynt ar y pryd. Cawsom ein hunain heb hyfforddwr – nid oeddwn yn gallu gwylio'r tîm yn diflannu, yn enwedig o gofio'r manteision roeddwn i wedi eu derbyn dros y blynyddoedd. Cadwais y tîm i fynd, a thros y 3 blynedd rwyf wedi llwyddo i sefydlu sawl tîm llwyddiannus. Heddiw yn yr adran y merched mae tîm dan 13, dan 15 a dan 18 oed. Bûm hefyd yn cynnal sesiynau i ferched iau yn ystod misoedd yr haf. Roedd hyn i gyd tra roeddwn yn chwarae



rygbi i RGC – Rygbi Gogledd Cymru ac yn gapten ar y tîm dan 18 yn 2019.

Mae gan rygbi le enfawr yn fy nghalon a hynny fel chwaraewr, fel hyfforddwr yn ogystal â bod yn gefnogwr brwd ar bob lefel. Mae rygbi'n fy ngalluogi i glirio fy mhen a chael gwared â'r 'stress' yn gymaint â rhoi llawenydd i mi wrth hyfforddi a gweld yr effaith mae fy ngwaith yn ei gael ar eraill.

Er nad oeddwn angen nac yn disgwyl y wobr hon gan fod hyfforddi a gwirfoddoli yn rhywbeth rwy'n ei fwynhau ac yn cael budd ohono, mae derbyn y wobr wedi gwneud y gwaith yn fwy gwerth chweil, ac wedi caniatáu i mi fy hun gydnabod beth rwyf wedi wneud o fewn y byd rygbi a'i fod yn cael effaith gadarnhaol ar eraill!

Er fy mod wedi derbyn y wobr hon rwyf yn bendant na fydd hyn yn newid pwy ydw i na beth rwyf yn ei wneud o fewn fy nghymuned a'r byd chwaraeon.



## Aduniad Ysgol y Sarnau

Do fe ddaethant yn eu degau o bell ac agos i aduniad 'hen goleg bach y Sarnau' yng Ngorffennaf 1992. Braidd yn fach yw'r wynebau yn y llun, ond mae'n werth i chi edrych arno drwy chwyddwydr i weld yn union pwy oedd yno. Amryw byd yn anffodus wedi'n gadael erbyn hyn. Ond cafwyd amser braf a diwrnod i'w gofio.

Mae englyn ardderchog Wil Coed y Bedo, er mai ar gyfer achlysur arall y cyfansoddwyd o, yn ddisgrifiad perffaith o'r diwrnod, dim ond i chi dderbyn bod y gair 'dynion' yn golygu y ddynoliaeth ac nid y 'gwrywod' yn unig!

*Ond dynion fu'n blant unwaith – a welir*
*Efo'i gilydd eilwaith,*
*Yma, ar ôl bod ymaith*
*Yn dweud am droeon y daith.*


Os am lun i ddathlu achlysur neu ddigwyddiad arbennig cysylltwch â

EVAN L DOBSON
Y BALA



☎01678 521020
Symudol: 07905 535495
E-bost: evan.dobson@btinternet.com


cannoedd o luniau lleol i'w gweld ar www.lluniaudobson.com


# CROESAIR 284/5/6

Llongyfarchiadau i Bryn Thomas, 3 Bryn Eithin, Sarnau, Y Bala. Chi enillodd y mis yma. Daw eich tocyn llyfr trwy'r post maes o law. **Anfonwch eich ymgeision at Dylan Jones, Tanyfron, 105 Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE** erbyn y 10fed o Ebrill, 2021.

### ATEBION CROESAIR 283

| AR DRAWS | I LAWR |
|---|---|
| 1. Ambiwlans | 1. Angylion |
| 5. Mwll | 2. Broga |
| 7. Y Ffôr | 3. Ac mae gan lawer |
| 8. Ymgeleddu | 4. Saer |
| 10. Isalmaen | 5. Moelfre |
| 11. Afon | 6. Lleuen |
| 13. Nos Calan Gaeaf | 9. Amcan |
| 16. Camp | 12. Egino |
| 17. Plant Mam | 14. Symudol |
| 20. Mudferwi | 15. Fy muarth |
| 21. Anna | 16. Camel |
| 22. Lol | 18. Manna |
| 23. Perorïaeth | 19. Rhemp |



### AR DRAWS

1. Pwrpas gefynnau. (4,5)
5. Cwch. (3)
7. Yr un ferch – mynd neu ddod. (4)
8. Tipyn o dân. (8)
10. Diasbedain. (8)
11. Sŵn lleddf y gloch. (4)
13. Dyna ddymuniad pawb, fis y nôl. (4,7,2)
16. Mae'n fwy na 19 I Lawr. (4)
17. "Mawr iawn fydd ef rhyw ddydd / Pan ddatguddir ——". (5,3)
20. Y gellir ei amgyffred. (8)
21. "Gwae fi fy myw mewn oes mor —" (HW) (4).
22. 22, a 5 I Lawr. Cafodd ei adeiladu yn1976. (3,7)
23. Caiff hunan-ynysu am flwyddyn. (5,4)

### I LAWR

1. Ewinedd aderyn. (7)
2. Nid yw'n hapus. (5)
3. Ble'r aeth Myrddin ap Dafydd? (2,2,2,4,3)
4. Mae'n bwysig mewn penillion. (4)
5. Gweler 22 Ar Draws.
6. Dewis. (5)
9. Ffoi. (5)
12. Enw bachgen ... (5)
14. ... ac enw merch. (7)
15. Gwneud sioe? (7)
16. Ar ben-glin neu yn y gegin. (5)
18. Cân gan ferch Nadoligaidd. (5)
19. Mae'n fwy na chae. (4)